

Canllawiau Canolradd



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Canllawiau Canolradd Cyffredinol

Nod y lefel hon yw meithrin siaradwyr hyderus wrth drafod materion pob dydd. Bydd gweithgareddau siarad wedi eu plethu drwy bob uned – gweithgaredd siarad cychwynnol, gweithgareddau yn ymwneud â chynnwys yr uned berthnasol, a chwestiynau o brawf llafar arholiad Canolradd.

Ceir 20 uned a ddylai bara tua chwech awr yr un. Mae patrwm pendant i'r unedau:

Siarad rhydd cychwynnol - Mae pob uned yn cychwyn â gwaith siarad i annog sgwrsio rhydd. Does dim cysylltiad rhwng y gweithgaredd yma a chynnwys gweddill yr uned, gan amlaf. Ni ddylid tanbrisió'r adran hon o safbwynt meithrin siaradwyr a all siarad yn ddigymell. Yn ogystal â'r gweithgaredd ym mhob uned, cynigir siarad rhydd ychwanegol ar ffurf cardiaau sgwrsio.

Cardiau sgwrsio – Mae'r cardiaau wedi'u trefnu fesul bloc o bump uned. Mae'r trionglau'n dynodi bod y cardiau'n newid:

- un triongl addas ar ôl Uned 1
- dau driongl addas ar ôl Uned 5
- tri thriongl addas ar ôl uned 10
- pedwar triongl addas ar ôl Uned 15

Rhowch y cardiaau ar fwrdd a gofynnwch i bob pâr/grŵp o dri ddewis cerdyn yr un. Yna, gofynnwch iddyn nhw sgwrsio am beth sy ar y cardiaau. Dylid sicrhau na fydd unrhyw bwnc yn tramgwyddo ar sail eich adnabyddiaeth o'r dosbarth. Os bydd angen, gallant fynd i nôl mwy o gardiau. Seilir y cardiaau ar gardiau sgwrsio Cwrs Pellach Prifysgol Bangor gan Tony Ellis.

Gwaith iaith – Mae pob uned (ac eithrio'r unedau adolygu) yn cyflwyno gwaith iaith newydd. Ceir cyfres o ddriliau ac ymarferion amrywiol.

Ymarfer ffwythiannol – Ymarfer yw'r pennawd yn y llyfr cwrs ac yma ceir cyfle i ailgylchu patrymau iaith er mwyn cyflawni ffwythiant. Dylid egluro wrth y dysgwyr mai pwrpas yr adran hon yw adolygu er mwyn meithrin hyder mewn sefyllfaoedd penodol.

Gwranddo a Gwylio – Ceir o leiaf un Sgwrs a darn Robin Radio ym mhob uned. Ceir rhai fideos yn ogystal. Dylid annog y dysgwyr i wrando a gwylio heb y sgriptiau yn y lle cyntaf.

Arholiad Canolradd – O'r cychwyn cyntaf, ceir ymarferion sy'n dod o arholiad Canolradd. Dylid eu trin fel ymarfer y sgiliau gwahanol – gwranddo, gwybodaeth o iaith (llenwi bylchau) a llafar. Maent yn ymarferion sy'n fuddiol i bawb.

O ran y Gwranddo, yn yr unedau cyntaf, argymhellir sut i symleiddio'r broses trwy fynd drwy'r darnau fesul adran.

O ran y Llenwi Bylchau, ceir rhai syniadau isod sut i amrywio'r dechneg yn y dosbarth:

a) Rhowch yr atebion ar gardiau (un ateb i bob cerdyn) a'u dosbarthu ymhlith y dysgwyr. Os ydych am godi lefel yr her ryw ychydig, rhowch bob ateb heb ei dreiglo ar y cardiau a dweud bod rhaid penderfynu a oes treigladd ai peidio ar gyfer pob ateb. Os oes llai nag 16 yn y dosbarth, bydd rhai dysgwyr yn cael mwy nag un cerdyn; os oes mwy nag 16, gwnewch fwy nag un copi o rai o'r cardiau er mwyn sicrhau bod digon i bawb gael un yr un. Gofynnwch i bawb grwydro o gwmpas y dosbarth i holi beth sydd ar y cardiau. Pan fyddan nhw'n cael gair gan ddysgwr arall, dylent ystyried i ba fwlch y mae'r gair hwnnw'n perthyn a'i nodi yno. Gallwch ofyn i barau fynd trwy'r darn yn gwirio'r atebion cyn i chi wneud hynny gyda'r dosbarth cyfan a thrafod unrhyw bwyntiau ieithyddol sy'n codi.

b) Defnyddiwch gardiau fel y rhai yn a) uchod, ond y tro hwn, gofynnwch i barau fynd trwy'r darn a rhoi cynnig ar gymaint o'r bylchau ag y gallant yn y lle cyntaf. Tra byddan nhw'n gwneud hynny, gosodwch y cardiau mewn gwahanol fannau o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Wedi i chi osod y cardiau, gofynnwch i un o bob pâr fynd i ganfod unrhyw un o'r cardiau, darllen (a chofio) beth sydd ar y cerdyn a dychwelyd at ei b/phartner i adrodd hynny ac i gyd-drafod i ba fwlch y mae'r gair yn perthyn. Eto, gwiriwch yr atebion a thrafod pwyntiau ieithyddol ar y diwedd.

c) Byrddau gwyn bach – rhowch fwrdd gwyn bach i bob dysgwr (neu i bob pâr). Darllenwch trwy'r darn, gan oedi wrth ddod i bob bwlch a rhoi ychydig eiliadau i'r dysgwyr ysgrifennu eu cynigion ar eu byrddau gwyn. Gofynnwch i bawb ddangos y cynigion ar yr un pryd, ac ar ôl iddynt weld atebion ei gilydd, gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw am gadw at eu hateb gwreiddiol neu ei newid. Cadarnhewch yr ateb cywir a thrafod yn ôl yr angen cyn darllen ymlaen at y bwlch nesaf ac ailadrodd y broses.

ch) Gofynnwch i barau weithio gyda'i gilydd i roi cynnig ar y pedwar bwlch cyntaf yn y darn, a'r pedwar cyntaf yn unig. Wedi caniatáu munud a hanner iddyn nhw, gofynnwch i un o bob pâr symud ymlaen at bartner newydd a rhowch ddau funud i'r parau newydd wirio'r pedwar ateb cyntaf a rhoi cynnig ar y pedwar nesaf. Ar ddiwedd y ddau funud, gofynnwch i un o bob pâr symud ymlaen eto a rhowch ddau funud a hanner iddyn nhw wirio'r wyth ateb cyntaf a rhoi cynnig ar y pedwar nesaf. Ailadroddwch unwaith eto, gan roi tri munud i'r parau gynnig atebion i'r pedwar bwlch olaf a gwirio'r cyfan. Gwiriwch yr atebion a thrafod pwyntiau ieithyddol ar y diwedd. Gallwch gynyddu neu leihau'r amserau a ganiateir yn ôl yr hyn sy'n gweddu i'ch dosbarth chi.

Geirfa – Dylid annog y dysgwyr i ddysgu'r eirfa cyn dechrau pob uned. Ceir nifer fawr o ymarferion ar www.dysgucymraeg.cymru/adnoddau. Yn unol â'r lefelau eraill yn gyfres Dysgu Cymraeg, rhennir yr eirfa yn enwau gwrywaidd, enwau benywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac arall. Ceir cod lliw a nodir yn yr unedau cyntaf. Ceir lle i nodi geirfa ychwanegol sy'n codi yn ystod y gwersi. Dylid profi geirfa'n gyson mewn ffyrdd amrywiol, e.e. Kahoot, quizlet, Bingo, gemau geirfa.

Arfer da yw creu cardiau fflach yn cynnwys y geiriau achlysurol sy'n codi yn y dosbarth. Os yn bosib, defnyddiwch yr un cod lliw ar y cardiau hyn.

Help llaw – Mae'r Adran hon yn crynhoi'r cynnwys ieithyddol yn yr uned.

Gwaith Cartref – Ceir Gwaith Cartref yng nghefn y llyfr ar gyfer pob uned.

Unedau Adolygu – Ceir unedau adolygu bob pum uned. Cyflwynir chwedl ym mhob un o'r unedau hyn.

Tafodiaith – Mae disgwyl i ddysgwyr Canolradd fod yn gyfarwydd â rhai amrywiadau tafodieithol. Er mwyn tynnu sylw at y rhain, ceir map ar ddiwedd pob uned yn tynnu sylw at y gwahaniaethau mwyaf cyffredin. Bydd y dysgwyr yn dod ar draws y ffurfiau hyn yn y cwrs.

Llyfrau Amdani – Tynnir sylw at un llyfr bob pedair uned. Anogwch y dysgwyr i brynu'r llyfrau hyn, gan gefnogi eu siop lyfrau leol os yn bosib. Ceir adnoddau i gefnogi'r llyfrau hyn ar [parallel.cymru](https://parallel.cymru/amdani/) - <https://parallel.cymru/amdani/>

Asesu ar gyfer Dysgu – Mae hwn yn rhywbeth y dylai tiwtoriaid fod yn ei wneud yn barhaus, ond mae'n bwysig iawn ar ddiwedd gwrs. Dyma rai syniadau:

- i. Gofyn ar ddiwedd gwrs beth a ddysgwyd. Gellir nodi'r pethau hyn ar y bwrdd gwyn a llenwi unrhyw fylchau. Gellid tynnu siâp ymennydd ar y bwrdd a llenwi'r siâp.
- ii. Rhoi post-it i bob dysgwr nodi tri pheth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir eu casglu a dychwelyd atynt ar gyfer atgyfnerthu ar ddechrau'r wers nesaf.
- iii. Rhoi post-it i bawb gofnodi eu hoff frawddeg o'r wers/uned. Gellir eu hailddosbarthu a chael pawb i ddyfalu pwy ysgrifennodd beth.
- iv. Dewis hyd at bedwar gair o'r wers a gofyn i bawb ysgrifennu 4 brawddeg/cwestiwn yn ymarfer y geiriau hyn a'r patrymau targed.
- v. 3-4-5. Pawb i ddweud tri pheth maen nhw wedi'u dysgu wrth bedwar person mewn pum munud.
- vi. Pawb i greu bwydlen yn nodi tri peth mawn nhw wedi'u dysgu ar ffurf cwrs cyntaf, prif gwrs a phwddin. Gellid gofyn am rywbeth gwahanol ym mhob categori, e.e. cwrs cyntaf a phwddin yn eitemau geirfa a'r prif gwrs yn batrwm.
- vii. Ysgrifennu neges destun at ffrind yn dweud beth ddysgwyd yn y wers/uned.

Cardiau De Cymru

 <p style="text-align: center;"><u>Y Tŷ</u></p> <p>Ble mae eich tŷ chi?</p> <p>Pa fath o dŷ yw e?</p> <p>Pa ystafelloedd sy yn eich tŷ chi?</p> <p>Beth yw oed eich tŷ chi?</p> <p>Pa waith dych chi wedi'i wneud yn y tŷ yn ddiweddar?</p> <p>Beth fydd y gwaith nesa?</p> <p>Pwy fydd yn gwneud y gwaith?</p> <p>Dych chi'n hapus gyda'ch tŷ chi?</p> <p>Beth fasech chi'n hoffi ei newid?</p> <p>Dych chi'n hapus gyda ble mae'r tŷ?</p>	 <p style="text-align: center;"><u>Cymdogion</u></p> <p>Pwy yw eich cymdogion chi?</p> <p>Beth dych chi'n ei wybod amdany'n nhw?</p> <p>Pa mor aml dych chi'n siarad â nhw?</p> <p>Dych chi'n dod ymlaen gyda nhw?</p> <p>Dych chi wedi cael problemau gyda chymdogion erioed?</p> <p>Pwy oedd eich cymdogion chi cyn y cymdogion presennol?</p> <p>Pwy oedd eich hoff gymdogion? Pam? Ar gwaetha? Pam?</p> <p>Ydy'r cymdogion yn gofyn i chi wneud pethau o dro i dro?</p> <p>Dych chi'n gofyn iddyn nhw wneud pethau i chi weithiau?</p>
 <p style="text-align: center;"><u>Pa mor fawr yw eich byd chi?</u></p> <p>Pa mor fawr yw eich byd chi o ddydd Llun i ddydd Gwener?</p> <p style="text-align: center;">h.y.</p> <p>Pa mor bell dych chi'n teithio o'r tŷ?</p> <p>Ydy eich byd chi'n fwy neu'n llai dros y penwythnos, fel arfer?</p> <p style="text-align: center;">-----</p> <p>Pa mor fawr <u>oedd</u> eich byd chi llynedd? ddeg mlynedd yn ôl? pan o'ch chi'n blentyn bach?</p>	 <p style="text-align: center;"><u>Beth fasech chi'n hoffi?</u></p> <p>Ble basech chi'n hoffi mynd ar wyliau?</p> <p>Ble basech chi'n hoffi mynd dros y penwythnos?</p> <p>Ble basech chi'n hoffi byw?</p> <p>Beth fasech chi'n hoffi ei fwyta fory?</p> <p>Beth fasech chi'n hoffi gallu ei fforddio?</p> <p>Pa berson enwog fasech chi'n hoffi cwrdd â fe neu hi?</p> <p>Pa gar fasech chi'n hoffi ei yrru?</p> <p>Pa lyfr fasech chi'n hoffi ei ddarllen?</p> <p>Pa ffilm fasech chi'n hoffi ei gwyllo?</p>



Yr wythnos diwetha

Disgrifiwch yr wythnos diwetha

e.e.

Beth wnaethoch chi yn y gwaith?

Pa waith wnaethoch chi yn y tŷ?

Ble aethoch chi?

Beth brynoch chi?

Beth ddarllenoch chi?

Pwy weloch chi?

Pwy ffonioch chi?

Siaradoch chi Gymraeg o gwbl?

Beth oedd y pethau gorau/gwaetha
am yr wythnos diwetha?



Yr wythnos nesa

Beth fyddwch chi'n ei wneud yr
wythnos nesa?

e.e.

Fyddwch chi'n gweithio?

Fyddwch chi'n gweithio yn y tŷ?

Fyddwch chi'n mynd ma's?

Fyddwch chi'n siopa?

Fyddwch chi'n cwrdd â ffrindiau?

Fyddwch chi'n ffonio pobl?

Dych chi'n edrych ymlaen at wneud
rhywbeth yr wythnos nesa?

At beth dych chi ddim yn
edrych ymlaen?



Lleoedd

Oes hoff le gyda chi yng Nghymru?
Pam mae e'n arbennig?

Oes hoff le gyda chi yn Lloegr?

Pryd ro'ch chi yn lwerddon
neu'r Alban ddiwetha?

Ble dych chi wedi bod dramor?

Ble ro'ch chi'n mynd ar wyliau
pan o'ch chi'n blentyn?

Ble dych chi wedi byw/gweithio
yn y gorffennol?

Ble byddwch chi'n mynd y mis nesa?
Ble basech chi'n hoffi mynd?



Yr Ardal Leol

Pa mor dda dych chi'n nabod yr ardal?

Pam dych chi'n hoffi'r ardal?

Pa bethau dych chi ddim yn hoffi?

Pa bethau sy wedi newid yn yr ardal
dros y blynyddoedd?

Pa bethau fasech chi'n hoffi newid
yn yr ardal?

Beth sy yna i bobl ifanc?

Beth sy yna i hen bobl?

Beth sy yna i dwristiaid?

Beth sy yna i blant?

Sut mae'r ardal yn mynd i newid, fallai?



Teledu a Radio

Pa mor aml dych chi'n edrych ar y teledu?

Pa raglenni dych chi'n hoffi?
Beth yw eich hoff raglenni chi?

Beth dych chi ddim yn hoffi?

Dych chi'n gwylio rhaglenni Cymraeg?

Dych chi'n gwrando ar Radio Cymru?

Pa raglenni o'ch chi'n hoffi yn blentyn?

Beth dych chi'n feddwl o "raglenni realiti" ?



Ffilmiau

Pa mor aml dych chi'n mynd i'r sinema?

Gyda phwy dych chi'n mynd i'r sinema?

Dych chi'n mwynhau ffilmiau ar y teledu?

O'ch chi'n mynd i'r sinema yn blentyn?

Pa fath o ffilmiau dych chi'n hoffi fwy?
Pa fath dych chi ddim yn hoffi?

Pa ffilmiau dych chi'n cofio orau?

Beth oedd y ffilm ddiwetha i chi wylio?



Llyfrau a Darllen

Dych chi'n mwynhau darllen?

Pa fath o nofelau dych chi'n hoffi darllen?

Pa lyfr dych chi'n ei ddarllen ar hyn o bryd?

Pa lyfrau da dych chi wedi mwynhau?

Dych chi'n prynu cylchgronau o gwbl?

Pryd dych chi'n darllen? Fasech chi'n hoffi mwy o amser i ddarllen?

Dych chi'n mynd i'r llyfrgell o gwbl?

Oes un llyfr fasech chi'n hoffi ei ddarllen?

Dych chi'n prynu papur newydd?



Dylwn i...

Beth ddylech chi wneud yn y tŷ?

Beth ddylech chi wneud yn yr ardd?

Beth ddylech chi wneud yn yr ardal?

Ble ddylech chi fynd yr wythnos nesa?

Pwy ddylech chi ffonio?

At bwy dylech chi ysgrifennu?

Beth ddylech chi stopio ei wneud?

Beth ddylech chi ei wneud gyda'ch Cymraeg chi?



Bancio ac Arian

Pa mor aml dych chi'n mynd i'r banc?

Pa mor aml dych chi'n defnyddio cerdyn credyd/ llyfr sieciau?

Pa mor aml dych chi'n defnyddio arian parod?
Pa bethau dych chi'n prynu gyda arian?
Dych chi'n hoffi defnyddio cerdyn?

Oes cyfrif ar y we gyda chi?

Sut mae bancio wedi newid dros y blynyddoedd?



Ffrindiau

Beth dych chi'n ei wneud gyda ffrindiau?
Ble dych chi'n mynd?

Pa mor aml dych chi'n gweld ffrindiau?

Ble mae eich ffrindiau chi'n byw?
O ble maen nhw'n dod?

Pwy yw eich ffrind(iau) gorau chi?

Oes/Oedd ffrindiau gyda chi yn y gwaith?

Ydy eich ffrindiau chi yn debyg i chi?

Oes ffrindiau gyda chi sy'n siarad Cymraeg /
ieithoedd eraill?

Dych chi'n nabod llawer o bobl yn eich stryd/
pentref/ardal chi?



Blodau

Dych chi'n hoffi blodau?
Oes hoff flodyn gyda chi?

Dych chi'n hoffi gweld blodau yn y tŷ?
Oes blodau gyda chi yn y tŷ nawr?

Oes blodau gyda chi yn eich gardd chi?
Oes blodau gyda chi mewn potiau?

Pa mor aml dych chi'n prynu blodau?
Pryd oedd y tro diwetha i chi brynu blodau?

Pryd roedd y tro diwetha i rywun brynu blodau
i chi?

Dych chi wedi anfon blodau at rywun erioed?

Ble basech chi'n mynd i brynu blodau?



Yr Eglwys / Y Capel / Y Mosg ac ati

Dych chi'n mynd i eglwys/capel/mosg?

Pwy dych chi'n nabod sy'n mynd?

Pryd ro'ch chi mewn eglwys ddiwetha?
Pryd byddwch chi mewn eglwys nesa?

Yn blentyn, o'ch chi'n mynd i'r eglwys/Ysgol
Sul?

Ble mae eich eglwysi/capeli/ mosgiau agosa?
Faint o gapeli sy yn eich ardal chi?
Ydyn nhw ar agor?

Dych chi'n gwyllo rhaglenni fel *Dechrau Canu*
Dechrau Canmoll/Songs of Praise?

Dych chi'n nabod eich ficer lleol chi?



Nesa

Ble byddwch chi'n siopa nesa?
Beth brynwch chi nesa?

Pa ddillad brynwch chi nesa?

Pa raglen ar y teledu wylwch chi nesa?

Beth fwytwch chi nesa?
Beth yfwch chi nesa?

Pwy ffoniwch chi nesa?

Pa ffrind welwch chi nesa?

At bwy byddwch chi'n
ysgrifennu / anfon neges nesa?

I ble byddwch chi'n gyrru /teithio nesa?



Technoleg!

Oes ffôn symudol gyda chi?
Dych chi'n tecstio yn aml?

Oes cyfrifiadur gyda chi?
Beth dych chi'n ei wneud gyda fe?

Dych chi'n defnyddio'r we? I wneud beth?

Dych chi'n gwybod sut i recordio rhaglenni ar y
teledu?

Dych chi'n edrych ar DVDs?

Sut dych chi'n gwrando ar gerddoriaeth?



Fasech chi'n ...?

Beth fasech chi'n wneud
i godi arian at achos da ?

rhedeg (hanner) marathon
gwneud naid parasiwt
nofio 5 milltir
gwneud naid bynji
peidio â bwyta am ddau ddiwrnod
gwylio criced am 12 awr
gwrando ar Radio Cymru am 12 awr
bwyta malwod
dringo'r Wyddfa
dringo 5 mynydd mewn un diwrnod
cael cawod oer am chwarter awr
bwyta jar o winwns picl
nofio yn y môr ar ddydd Nadolig
siafio eich pen
cerdded 30 milltir

Dych chi **wedi** gwneud rhywbeth fel hyn i
godi arian?



Cyfweliadau

Pa gyfweliadau dych chi wedi cael?

Sut aethon nhw?

Dych chi wedi dweud/gwneud pethau twp
mewn cyfweliad?

Dych chi'n cofio eich cyfweliad cynta chi?
(fallai am swydd dydd Sadwrn)

Oes cyngor gyda chi i rywun sy'n cael
cyfweliad?

Dych chi wedi bod ar banel cyfweld?
Fasech chi'n hoffi bod ar banel?

Ydy sut dych chi'n edrych yn bwysig mewn
cyfweliad? Beth fasech chi'n ei wisgo i
gyfweliad?



Geiriau Cymraeg

Oes geiriau Cymraeg dych chi ddim yn hoffi?

Pam dych chi ddim yn eu hoffi nhw?

Oes geiriau Cymraeg dych chi'n eu hoffi'n fawr?

Pam dych chi'n eu hoffi nhw?

Oes hoff air Cymraeg gyda chi?

Oes geiriau Cymraeg dych chi byth yn gallu eu cofio?

Oes geiriau sy'n hawdd eu cofio?

Beth dych chi'n ei wneud i'ch helpu chi i gofio geiriau?



Tynnu Lluniau

Oes camera gyda chi?

Ers pryd?

Dych chi'n defnyddio eich ffôn/ tabled i dynnu lluniau?

Pa mor aml dych chi'n tynnu lluniau?

Pryd tynnoch chi luniau ddiwetha?
Pryd byddwch chi'n tynnu lluniau nesa?

Pryd cawsoch chi eich camera cynta?

Beth dych chi'n ei wneud gyda'ch lluniau?

Dych chi'n tynnu lluniau da?

Dych chi'n mwynhau gweld lluniau pobl eraill?



Byddwch yn onest

Fel arfer, dych chi'n cyrraedd yn gynnar / ar amser / yn hwyr?

Dych chi'n cadw at eich gair bob tro?

Dych chi'n ofalus gyda arian?

Dych chi'n hel clecs?

Dych chi'n hoffi pawb yn eich teulu chi?

Dych chi'n dweud y gwir bob tro, neu fasech chi'n dweud celwydd golau weithiau?

Dych chi'n berffaith?



Fy hoff ...

Sinema

Siop ddillad

Sioe neu ddrama

Tîm pêl-droed

Losin neu siocled

Carol Nadolig

Adeilad

Llun

Cacen

Caws

Ap ar y ffôn

Maes awyr

Gwasanaethau ar y draffordd



Rhestr fwced!

Pa bethau fasech chi'n hoffi eu gwneud
cyn i chi fynd yn rhy hen?

e.e. -

deifio yn Alcapulco

mynd i Ynys Enlli

cerdded o Land's End i John O 'Groats

teithio ar y trên trwy'r Rockies

nofio gyda dolffiniaid

cael penwythnos ym Monte Carlo

gweld eliffantod yn Affrica

bod yn rhugl yn y Gymraeg

Beth fasech chi'n hoffi ei wneud eto?



Y Teulu

Pa deulu sy gyda chi?

Ble maen nhw'n byw?

Beth maen nhw'n ei wneud?

Pa mor aml dych chi'n eu gweld nhw?

Oes pobl yn y teulu dych chi
erioed wedi eu gweld?

Pryd byddwch chi'n gweld teulu sy'n byw
mewn ardal arall nesa?

Pa mor aml dych chi'n clywed oddi wrthyn
nhw? Pwy sy'n ffonio pwy?

Dych chi'n dod ymlaen yn dda gyda'r teulu?
Ydyn nhw fel ffrindiau i chi?

Pwy yw'r hena/ifanca yn y teulu?



Chwaraeon

Pa chwaraeon dych chi'n chwarae?
Pryd? Pa mor aml?

Dych chi'n cadw'n heini?

Pa chwaraeon dych chi'n gwylio
ar y teledu? / yn fyw?

Pa chwaraeon dych chi'n hoffi?
Pa chwaraeon dych chi ddim yn hoffi?

Fasech chi'n hoffi trio rhyw chwaraeon
newydd?

Pa chwaraeon o'ch chi'n eu gwneud
yn yr ysgol?

Dych chi'n cefnogi tîm o gwbl?

Faint o arian dych chi'n ei wario ar chwaraeon?



Byth!

(Esboniwch pam)

Beth fasech chi *byth* yn ei fwyta?

Beth fasech chi *byth* yn ei yfed?

Ble fasech chi *byth* yn byw?

Ble fasech chi *byth* yn mynd ar wyliau?

Ble fasech chi *byth* yn siopa?

Ble fasech chi *byth* yn mynd?

Pa chwaraeon fasech chi *byth* yn
eu gwneud?

Beth fasech chi *byth* yn ei wneud, hyd yn oed
am lawer o arian?



Priodasau

Pryd ro'ch chi mewn priodas ddiwetha?

Pa briodasau dych chi'n cofio'n dda?
Pam?

Fyddwch chi'n mynd i briodas cyn hir?

Mae priodasau'n ddrud! Ble mae'r
arian i gyd yn mynd?



Pobl dych chi'n nabod

Trafodwch bobl dych chi'n nabod

... sy'n gweithio yn y nos

... sy'n reidio beic modur

... sy ddim yn hoffi cŵn/cathod

... sy wedi ymddeol

... sy'n byw ar ei ben/phen ei hun

... sydd â llawer o arian

... sy'n byw dramor

... sy'n besimistaidd trwy'r amser

... sy'n heini iawn

... sy'n gerddorol iawn

... sy'n casglu pethau



Y Dafarn

Pa mor aml dych chi'n mynd i'r dafarn?

Pryd ro'ch chi yn y dafarn ddiwetha?
Pryd byddwch chi'n mynd nesa?

Pam dych chi'n mynd i'r dafarn?

Pa dafarnau sy yn eich ardal chi?

Oes hoff dafarn gyda chi?
Pam dych chi'n ei hoffi hi?

Pa mor aml dych chi'n bwyta mewn tafarnau?

Dych chi wedi gwneud ffrindiau yn y dafarn?

Dych chi'n siarad Cymraeg yn y dafarn?



Partïon

Dych chi'n hoffi mynd i bartïon?

Pryd ro'ch chi mewn parti ddiwetha?

Pryd roedd y tro diwetha i chi drefnu parti?
Pam?

Dych chi'n cael parti ar eich
pen-blwydd fel arfer?

Dych chi'n cael barbeciws yn yr haf?

Pa bartïon dych chi'n cofio orau?
Pam?

Pa fath o barti fasai'r parti
perffaith?

**Tasai ...?**

Tasech chi'n ennill llawer o arian,
beth fasech chi'n ei wneud?

Tasech chi'n cymryd eich prawf gyrru
eto, fasech chi'n pasio?

Tasai problem deuluol gyda chi,
fasech chi'n mynd ar y teledu?

Tasai rhaid i chi symud tŷ, i ble basech
chi'n mynd?

Tasai rhaid i chi symud i Lundain, fasech chi'n
dal i ddysgu Cymraeg?

Tasech chi'n 18 oed eto, fasech chi'n
gwneud pethau'n wahanol?

**Ffonau**

Faint o ffonau sy gyda chi yn y tŷ?
Ble maen nhw?

Oes ffôn symudol gyda chi?
Sut dych chi'n talu am eich ffôn symudol?

Pa mor aml dych chi'n defnyddio'r ffôn / ffôn
symudol?

Pwy dych chi'n ffonio amla?

Dych chi'n ffonio pobl yn llai aml
achos eich bod chi'n ebostio/tecstio?

Oes llawer o bobl yn eich ffonio chi i drïo
gwerthu pethau?
Beth maen nhw'n trio ei werthu?

Ydy ffonau symudol yn boen weithiau?

**Dillad**

Pa ddillad dych chi wedi eu prynu
yn ddiweddar?

Ble dych chi'n mynd i brynu dillad?

Pa mor aml dych chi'n prynu dillad?

Dych chi wedi prynu dillad i berson
arall yn ddiweddar?

Ydy ffasiwn a labeli'n bwysig i chi?

Dych chi'n prynu dillad mewn siopau elusen?

Beth dych chi'n ei wisgo yn y tŷ?

Pa fath o ddillad dych chi'n eu gwisgo
fel arfer?

**Jobsys Bach yn y Tŷ**

Llongyfarchiadau!

Dych chi wedi ennill gwobr
mewn raffl

Person sy'n gwneud popeth.
Mae'n fodlon treulio diwrnod
yn gwneud unrhyw beth i chi -
yn y tŷ neu yn yr ardd !!

Beth wnewch chi ofyn iddo fe /
iddi hi ei wneud?



Nadolig

Beth dych chi'n ei hoffi am y Nadolig?

Ydy'ch teulu chi'n mwynhau'r Nadolig?

Beth dych chi ddim yn ei hoffi am y Nadolig?

Ble ro'ch chi Nadolig diwetha?

Ble byddwch chi Nadolig nesa?

Pryd dych chi'n dechrau meddwl am y Nadolig, fel arfer?

Ydy'r Nadolig yn rhy ddrud?
Ble mae'r arian yn mynd?

Dych chi'n yfed a bwyta gormod dros y Nadolig, fel arfer?



Trefn yr Wythnos

Pryd mae'r lori biniau'n dod?

Faint o'r gloch mae'r postmon yn dod?

Beth dych chi'n ei wneud cyn mynd i'r gwely, fel arfer?

Beth dych chi'n ei wneud ar ôl codi, fel arfer?

Pryd dych chi'n gwneud eich gwaith cartref Cymraeg, fel arfer?

Pryd/Pa mor aml dych chi'n
smwddio / gwneud gwaith tŷ /
torri'r lawnt / garddio / cael bath / cael cawod
/ golchi eich gwallt chi / golchi dillad / golchi'r
fffenestri / golchi'r car?



Dewisiadau!

codi'n gynnar neu godi'n hwyr?

aros gartre neu fynd allan
ar nos Sadwrn?

cerdded i'r siop neu fynd yn y car?

nofio yn y môr neu yn y pwll nofio?

papuro neu beintio?

ffonio ffrindiau neu decstio?

tatws neu sglodion?

llysiau neu salad?

gwyllo ffilm gartre neu fynd i'r sinema?

papur newydd neu newyddion ar-lein?

cerddoriaeth bop neu gerddoriaeth glasurol?



Beth fasech chi'n hoffi ei wneud tasech chi ar wyliau yn?

Awstralia Sbaen

Yr Unol Daleithiau

Seland Newydd Tsieina

Affrica

India Y Swistir

Gwlad Thai

Yr Eidal Rwsia

Brasil

Patagonia Gwlad yr Iâ



Cymru

Pa mor dda dych chi'n nabod
Cymru?

Ers pryd dych chi'n byw yng Nghymru?
Pryd daethoch chi yma am y
tro cynta?

Oes hoff leuoedd gyda chi?
Oes lleuoedd dych chi ddim yn eu hoffi?

Pa mor aml dych chi'n teithio o
gwmpas Cymru?

Pa mor dda dych chi'n nabod...
Caerdydd/Wreccsam /Abertawe/ Llangollen/
Bangor/Aberystwyth/
y Rhyl /y Barri/y Drenewydd /Dolgellau/
Pen Llŷn/Ynys Môn/
Blaenau Ffestiniog/Tyddewi/ Pontypridd/
Porthmadog / Caerfyrddin/Dinbych y Pysgod?



Teithio

Pa mor aml dych chi'n ...

teithio ar y trê'n?

teithio ar y bws?

beicio?

teithio mewn tacsî?

gyrru car?

teithio ar long/mewn cwch?

teithio mewn awyren?

Pryd ac i ble tethioch chi ddiwetha?
Pryd ac i ble byddwch chi'n teithio nesa?



Ble dych chi'n byw?



Disgrifiwch ...

eich stryd chi

eich pentref/tref chi

eich ardal chi

eich gwlad chi



Llongyfarchiadau!

Dych chi wedi ennill gwobr
mewn raffl

Rhywun sy'n fodlon
treulio wythnos gyda chi i'ch helpu chi wella
eich Cymraeg!

Mae'r wobr yn cynnwys tocynnau i
fynd i unrhyw ddigwyddiadau yn ystod
yr wythnos!

- Pwy fydd yn eich helpu chi?
- Dych chi'n gallu meddwl am rywun
enwog?
- Beth ofynnwch chi iddo fe / iddi hi ei
wneud?



Hoff bethau

Beth yw eich hoff * ... chi?
Esboniwch pam!

tŷ bwyta
ffilm
cân
taith gerdded
bwyd
lle
llyfr
diod
anifail
rhaglen ar y teledu
gorsaf radio

* Cofiwch y treigladau ar ôl "hoff"



Dillad (2)

Oes hoff ddillad gyda chi?
Oes hoff liw gyda chi?

Beth dych chi'n ei wisgo fel arfer?

Ble dych chi'n prynu eich dillad
fel arfer?

Pa mor aml dych chi'n prynu dillad?
I bwy dych chi'n prynu dillad?

Oes dillad dych chi ddim yn eu hoffi?

Beth yw'r dillad druta sy gyda chi?
Beth oedd y fargen orau gaethoch chi?

Beth dych chi'n ei wneud gyda'ch hen ddillad?



Y Tro Diwetha

Pryd oedd y tro diwetha
i chi * ?

yfed siampên
gweld mwnci
chwarae gêm
bwyta pysgod
ffonio am dacsî
palu twll
tynnu llun
reidio beic
torri rhywbeth

* Cofiwch dreiglo!



Yr Ardd

Oes gardd gyda chi?

Pa mor fawr yw hi?
Fasech chi'n hoffi gardd fwy/lai?

Beth sy yn yr ardd?

Dych chi'n mwynhau garddio?
Pwy sy'n gwneud y garddio yn eich tŷ chi?

Faint o amser dych chi'n ei dreulio
yn yr ardd?

Beth fasech chi'n hoffi ei newid yn yr ardd?
Beth dych chi wedi ei newid yn yr ardd?

Ble mae eich offer garddio chi?

Dych chi'n bwydo'r adar?



Eich Corff Chi!

Pryd aethoch chi at y
deintydd ddiwetha?

Oes ofn y deintydd arnoch chi?

Pryd aethoch chi at yr optegydd ddiwetha?

Dych chi'n gweld yn dda?
Oes rhaid i chi wisgo sbectol?

Dych chi'n clywed yn dda?

Dych chi wedi bod i fferm iechyd erioed?
Fasech chi'n hoffi mynd i un am benwythnos?



Dw i eisiau un!

Pryd a ble cawsoch chi

eich car chi

eich teledu chi

eich cot orau chi

eich cyfrifiadur chi

eich sofffa chi

eich gwely chi

eich esgidiau chi

eich ffôn symudol chi

eich camera chi

eich geiriadur Cymraeg chi



Ieithoedd

Pa iaith/ieithoedd ddysgoch
chi yn yr ysgol?

Pa mor dda o'ch chi?
Dych chi'n cofio tipyn o'r iaith nawr?

Ydy dysgu Cymraeg yn haws na dysgu
ieithoedd eraill? Neu'n anoddach?

Dych chi'n ceisio siarad iaith y wlad
pan dych chi'n mynd ar wyliau dramor?

Dych chi'n nabod rhywun sy'n dda iawn am
ddysgu ieithoedd?

Pa fath o acen Saesneg sy gyda chi?
Ydy eich acen chi wedi newid dros amser?

Pam mae llawer o bobl yn y byd
yn gallu siarad Saesneg mor dda?



Cefn Gwlad

Dych chi'n byw yng
nghefn gwlad?
Fasech chi'n hoffi byw yng
nghefn gwlad?

Pa mor aml dych chi'n mynd ma's
i gefn gwlad?
Beth dych chi'n ei wneud yno?

Beth yw'r peth gorau am
fyw yng nghefn gwlad?

A beth yw'r peth gwaetha?

Beth mae'r Cod Cefn Gwlad yn ei ddweud?
Dych chi'n cadw ato fe?



Prydau Bwyd

Faint o'r gloch dych
chi'n cael -

brecwast?
cinio canol dydd?
cinio gyda'r nos/swper?

Beth dych chi'n ei fwyta i frecwast
fel arfer?

Pryd dych chi'n cael eich
prif bryd o fwyd?

Ydy pethau'n wahanol dros y penwythnos?

Pwy sy'n coginio? Pwy sy'n clirio?
Pwy sy'n golchi'r llestri?

Dych chi'n eistedd wrth y bwrdd i
fwyta pob pryd o fwyd?



Tân Gwyllt

Pryd gweloch chi dân
gwyllt ddiwetha?

O'ch chi'n hoffi tân gwyllt
yn blentyn?

Beth o'ch chi'n ei wneud ar Noson Guto Ffowc,
yn blentyn?

Beth dych chi'n ei wneud ar Noson Guto Ffowc
y dyddiau yma?

Oes anifeiliaid anwes gyda chi?
Beth maen nhw'n ei feddwl o dân gwyllt?

Oes mwy o dân gwyllt y dyddiau hyn?

Beth mae'r Cod Tân Gwyllt yn ei ddweud?



Gyrru Car

Dych chi'n mwynhau
gyrru car?

Beth dych chi'n ei hoffi am yrru?
Beth dych chi ddim yn ei hoffi?

Pryd gwnaethoch chi eich prawf gyrru?
Beth dych chi'n ei gofio amdano fe?

Dych chi wedi torri i lawr erioed?
Dych chi'n aelod o'r AA/RAC... ?

Trafodwch eich profiadau
eich hoff daith
y ffordd brysura
y ffordd fwya peryglus
y dref/ddinas brysura
y tywydd mwya ofnadwy
y ciwiau gwaetha
y daith waetha



Y Gorau a'r Gwaetha !!

Esboniwch pam ro'n
nhw mor dda neu
mor ofnadwy !

gwyliau
taith yn y car
noson allan
diwrnod allan
pryd o fwyd
parti
anrheg
profiad
swydd



Y Ddinas Fawr Ddrwg!

Pa mor aml dych chi'n
mynd i'r ddinas?

Pam dych chi'n mynd i'r ddinas?

Pryd aethoch chi i'r ddinas ddiwetha?
Pryd byddwch chi'n mynd i'r ddinas nesa?

Dych chi'n mwynhau'r ddinas?
Pa bethau dych chi'n eu hoffi?
Pa bethau dych chi ddim yn eu hoffi?

I ba ddinasoedd dych chi wedi bod?

Dych chi wedi byw mewn dinas
erioed?

Fasech chi'n hoffi byw mewn dinas?



Symud Tŷ

Disgrifiwch eich profiadau yn
symud tŷ:

Sawl gwaith dych chi wedi symud tŷ?
O ble i ble?
Pryd?

Pam symudoch chi ddiwetha?
Sut aeth hi?
Oedd problemau?
Oedd y cwmni'n dda?
Sut roedd y tywydd?

Ydy symud tŷ yn ddrud?

Fasech chi'n hoffi symud eto?



Sbwriel

Pa mor aml mae'r lori
biniau'n dod?
Pryd mae hi'n dod?

Pa mor llawn yw'r bin bob wythnos?

Pa mor aml dych chi'n mynd i'r domen sbwriel?

Dych chi'n ailgylchu pethau? Beth?
Sut? Pa mor aml?

Ddylai pawb ailgylchu mwy?

Dych chi'n llosgi sbwriel weithiau?

Oes llawer o sbwriel o gwmpas y lle
yn eich ardal chi?

**Ein dosbarth ni**

Pa mor dda dych chi'n nabod y bobl yn y dosbarth?

Faint dych chi'n ei wybod amdanyn nhw?
Dwedwch gymaint â phosib!
(Cofiwch am y bobl sy ddim yma heddiw.)

Hefyd, faint dych chi'n ei wybod
am eich tiwtor(iaid)?

A faint mae pawb yn ei wybod
amdanoch chi?

**Pa mor dalentog dych chi?**

Rhowch fanylion

Dych chi wedi ...

canu o flaen pobl?
ysgrifennu llyfr / erthygl?
actio / dawnsio ar y llwyfan?
coginio i lawer o bobl?
adeiladu rhywbeth?
trwsio rhywbeth?
gwau rhywbeth?
peintio rhywbeth?

Dych chi'n gallu canu
offeryn cerdd?

Dych chi'n cuddio rhyw dalent arbennig?

**Bwyd a Bwyta Ma's**

Beth yw eich hoff fwyd chi?
Pa fwyd dych chi ddim
yn ei hoffi?

Dych chi'n mwynhau bwyta/coginio?

Dych chi'n bwyta o flaen y teledu?

Pa mor aml dych chi'n bwyta ma's?

Gyda phwy dych chi'n bwyta ma's?

Ble dych chi'n mynd i fwyta?
Oes llawer o ddewis yn yr ardal?

Pa un yw eich hoff le? Pam?

Dych chi erioed wedi cael pryd o fwyd
ofnadwy mewn tŷ bwyta?

Pryd byddwch chi'n bwyta m'as nesa?

**Cymru 2**

Mae grŵp o Americanwyr
yn teithio o gwmpas Ewrop a
byddan nhw'n
dod i Gymru am dri diwrnod.

Chi fydd arweinydd y daith pan
fyddan nhw yng Nghymru!

Mae bws a gyrrwr gyda chi,
ac mae llawer o arian gyda nhw!
Ble ewch chi â nhw? Pam?

**"Gartre"**

Ble mae "gartre" i chi?



Os dych chi wedi bod ma's/i ffwrdd,
pryd a ble dych chi'n teimlo eich bod chi
wedi cyrraedd adre:

y tu fa's i'r tŷ?

ym mhen y stryd?

wrth weld arwydd enw'r pentref/dref?

rhywle arall?

Ble cawsoch chi eich magu?

Dych chi'n dal i feddwl am yr ardal yna fel
"gartre"?

**Ble yn y byd...?**

Ble yn y byd dych chi wedi
bod ...(neu fasech chi'n
hoffi mynd ...)

sy'n boeth / oer

sy'n bell

sy'n uchel

sy'n wlyb / sych

sy'n unig

sy'n bert

sy'n wahanol iawn i Gymru

sy'n debyg i Gymru

Pryd/Pam aethoch chi i'r lleoedd yma?

**Atgofion Cynnar**

Beth yw'r pethau cynta
dych chi'n eu cofio?



Faint oedd eich oed chi ar y pryd?

Pa mor glir yw eich atgofion cynnar?

Ydy eich atgofion cynnar yn hapus?

Fasech chi'n hoffi cofio mwy?

Dych chi'n cofio eich diwrnod cynta
yn yr ysgol?

**Pobl Enwog**

Dych chi wedi siarad â
rhywun enwog?
Pryd a ble?

Pa bobl enwog dych chi wedi eu gweld?
Pryd a ble?

Fasech chi'n hoffi bod yn enwog?
Pam? / Pam lai?

Dych chi'n hoffi gwylio rhaglenni ar y teledu
gyda "celebs" ynddyn nhw?

Pwy yw eich hoff/cas actor/actores?
ganwr/gantores?
bersonoliaeth teledu?
bersonoliaeth chwaraeon?



Y Dyfodol

Beth wnewch chi heno?

Beth wnewch chi yfory?

Dych chi'n cynllunio rhywbeth at yr wythnos nesa, o gwbl?

Oes cynlluniau gyda chi at y mis nesa, o gwbl?

Oes cynlluniau gyda chi at y flwyddyn nesa, o gwbl?

Beth am y tymor hir?
Oes cynlluniau neu freuddwydion gyda chi?



Byw yn Beryglus!

Pryd gwnaethoch chi *... ddiwetha?

dringo ysgol

yfed coctel

nofio mewn dŵr dwfn

weirio plwg

defnyddio matsis

croesi'r stryd

bwyta rhywbeth od

torri'r gyfraith

cyffwrdd â chi



Cymru 3

Pan mae pobl yn clywed enw "Cymru", am beth maen nhw'n ei feddwl?

rygbi	cestyll
mynyddoedd	yr Wyddfa
Caerdydd	corau meibion
trenau bach	y Ddraig Goch
y wisg Gymreig	y delyn
yr iaith Gymraeg	yr Eisteddfod
chwareli llechi	pyllau glo
Stadiwm y Principality	glaw
cennin	cennin Pedr

Dych chi'n gallu meddwl am unrhyw beth arall? Neu berson fallai?



Profion ac Arholiadau

O'ch chi'n hoffi arholiadau pan o'ch chiyn yr ysgol?

Sut aeth eich arholiadau yn yr ysgol?
Pa bynciau wnaethoch chi basio/fethu?

Dych chi wedi sefyll arholiadau yn y gwaith?
Oes/Oedd /Fydd rhaid i chi?

Sut aeth eich prawf gyrru cynta?

Dych chi wedi sefyll/yn mynd i sefyll arholiad Cymraeg?

Dych chi wedi sefyll arholiadau fel Cymorth Cynta, ac ati?

**Ennill**

Dych chi wedi ennill
raffl erioed?



Pa mor aml dych chi'n prynu tocyn
raffl / tocyn loteri / cerdyn crafu... ?

Dych chi (neu ffrindiau / y teulu)
wedi ennill arian ar y loteri erioed?

Dych chi wedi ennill cystadleuaeth erioed?
Pa wobrau dych chi wedi eu hennill?

Dych chi'n nabod pobl eraill sy wedi ennill
cystadlaethau?

Dych chi'n nabod pobl lwcus/anlwcus?

Yn blentyn, o'ch chi'n arfer ennill pethau fel
gemau a rasys?

**Môr a Mynydd**

Pryd ro'ch chi ar ben
mynydd ddiwetha?



Dych chi'n cerdded ar y mynyddoedd
yn aml?

Faint o weithiau dych chi wedi bod
ar gopa'r Wyddfa?

Oes hoff fynydd neu fryn gyda chi?

Pryd ro'ch chi ar lan y môr ddiwetha?

Pa mor aml dych chi'n mynd i'r traeth?
Beth dych chi'n ei wneud yno?

Oes hoff draeth
yng Nghymru / dramor gyda chi?

**Y Tymhorau**

Pa dymor dych chi'n ei hoffi orau?

y gwanwyn
yr haf
yr hydref
y gaeaf

Pam?

Oes tymor dych chi ddim yn ei hoffi?

Ydy'r tymhorau'n newid?

Sut mae'r tymhorau'n cael effaith ar
eich bywyd chi?

**Anifeiliaid / Anifeiliaid Anwes**

Oes anifeiliaid gyda chi?
Os na, fasech chi'n hoffi
cael anifail?

Oes anifeiliaid gyda'ch cymdogion/teulu?

Yn blentyn, oedd anifail anwes gyda chi?
O'ch chi eisiau anifail anwes?

Beth mae rhaid i chi ei wneud os oes ci/cath/
ceffyl gyda chi?

Beth dych chi'n ei feddwl o anifeiliaid mewn sŵ?

Oes anifeiliaid dych chi ddim
yn eu hoffi?

**Y Tywydd**

Sut mae'r tywydd yng Nghymru?
Sut roedd y tywydd yr
wythnos diwetha?

Pa dywydd dych chi'n hoffi fwy?
Oes tywydd dych chi ddim yn ei hoffi?

Ydy'r tywydd yn cael effaith ar eich bywyd chi
o gwbl?

Pa mor aml dych chi'n siarad am y tywydd?
Dych chi'n cwyno am y tywydd?

Dych chi'n gwrando ar y rhagolygon ar y teledu
a'r radio? Ydyn nhw'n iawn fel arfer?

Dych chi'n cofio storm fawr/eira mawr/
llifogydd yn eich ardal chi?

**Hobiau a Diddordebau**

Pa hobiau a diddordebau
sy gyda chi?

Pa mor aml dych chi'n gwneud eich hobiau?
Oes digon o amser gyda chi am hobiau?

Ble dych chi'n gwneud eich hobiau?

Pryd dechreuodd eich hobiau chi?

Faint o arian dych chi'n ei wario ar
eich hobiau?

Dych chi'n gwneud eich hobiau
ar eich pen eich hun?

Pryd byddwch chi'n gwneud eich
hobiau nesa?

**Beth fasech chi'n ei wneud?**

Mewn cystadleuaeth dych
chi wedi ennill gwyliau
yng Ngogledd Corea ...

Mae Radio Cymru eisiau i chi siarad ar
y radio am ddysgu Cymraeg ...

Dych chi'n gweld papur £20 ar y palmant...

Dych chi'n gweld rhywun yn taflu
sbwriel yn y parc ...

Mae marmalêd gyda'r tiwtor
ar ei wyneb ...

**Mynd ar goll**

Dych chi'n deall mapiau?
Dych chi'n gallu
dilyn cyfarwyddiadau?

Pa mor aml dych chi'n mynd ar goll
wrth yrru car neu wrth fynd am dro?

Dych chi'n dda am ffeindio eich ffordd o
gwmpas dinas ddieithr?

Dych chi'n nabod pobl eraill sy ddim yn gallu
dilyn mapiau/cyfarwyddiadau?

Dych chi'n nabod pobl sy byth yn
mynd ar goll?

Dych chi wedi defnyddio GPS erioed?

**Hanes**

Beth dych chi'n ei
wybod am?



hanes eich tŷ a'r tir
hanes eich pentref / tref

hanes yr ardal

hanes eich mam / tad

hanes eich mam-gu / tad-cu

hanes eich tiwtor(iaid)

hanes eich cymdogion

hanes yr iaith Gymraeg

**Siopa**

Pa mor aml dych chi'n siopa?



Pa fath o siopau dych chi'n eu hoffi?



Pa siopau dych chi ddim yn eu hoffi?

Ble dych chi'n mynd i siopa?

Pa mor aml dych chi'n siopa mewn
dinas fawr?

Ydy hi'n bwysig cefnogi siopau lleol? Beth
dych chi'n ei brynu'n lleol?

Dych chi'n prynu pethau ar y we?

Pryd byddwch chi'n siopa nesa?

Dych chi'n hoffi prynu pethau ail-law mewn
siopau elusen?

Tasai mwy o arian gyda chi, fasech chi'n siopa
mwy?

**Sut mae pethau wedi newid?**

Sut ro'ch chi'n edrych
yn blentyn?



yn eich ardegau?



(yn eich 30au? yn eich 40au?)

Sut mae pethau wedi newid dros y
blynyddoedd?

e.e. ffasiwn?

cerddoriaeth bop?

teledu / radio?

plant?

clywed/darllen y newyddion?

ffonau?

**Gwyliau**

Pa mor aml dych chi'n cael gwyliau?



Pa mor aml dych chi'n mynd i ffwrdd?



Dych chi'n aros yng Nghymru, ym Mhrydain,
neu dych chi'n mynd dramor?

Gyda phwy dych chi'n mynd ar wyliau?

Pwy sy'n dewis ble dych chi'n mynd?

Ble basech chi'n hoffi mynd?

Disgrifiwch eich gwyliau diwetha.

Pryd bydd eich gwyliau nesa? I ble?

Sut dych chi'n penderfynu ble i fynd -
arian/plant/anifeiliaid/tywydd?

**Y Gwrthwyneb**

Pwy dych chi'n
nabod sydd â



tŷ taclus / tŷ anniben

car newydd / hen gar

gardd fawr / gardd fach

ci cyfeillgar / ci ffyrnig

swydd ddiddorol / swydd ddiflas

plant neis / plant ofnadwy

partner tal / partner byr

gwallt hir / gwallt byr

synnwyr cyffredin /

dim synnwyr cyffredin

**Arferion**

Trafodwch eich
arferion drwg -
e.e. -



smocio
gyrru'n rhy gyflym
rhegi

bod yn hwyr

bwyta/yfed gormod
gwario gormod o arian
bwyta'r pethau anghywir
peidio â chadw'n heini

cwyno

dweud celwydd
gyrru yn lle cerdded
bod yn ddiamynedd

**Breuddwydion**

Pa mor aml dych
chi'n breuddwydio?



Gawsoch chi freuddwyd neithiwr?



Oes pethau sy'n gwneud i chi freuddwydio?

Dych chi'n gallu cofio breuddwydion?

Dych chi'n cael hunllefau?

Oes breuddwydion dych chi'n eu cael
dro ar ôl tro?

Dych chi'n breuddwydio mewn du a gwyn neu
mewn lliw?

Dych chi wedi breuddwydio yn Gymraeg?

Dych chi'n meddwl bod neges neu
ystyr arbennig mewn breuddwydion?

**Hen bethau**

Beth yw'r pethau hena
yn eich tŷ chi?



Beth yw eu hoed nhw?



Ble cawsoch chi nhw?



Ydyn nhw'n werth llawer o arian?
Fasech chi'n eu gwerthu nhw?

Oes hen bethau yn nhai eich ffrindiau/teulu?

Dych chi'n mwynhau edrych ar
raglenni fel *Antiques Roadshow*?

Oes diddordeb gyda chi mewn...
hen ddodrefn / hen luniau /
hen lestri / hen deganau /
hen beiriannau / hen lyfrau?

Dych chi'n hoffi siopau sy'n gwerthu pethau
ail-law?

Dych chi wedi prynu bagen mewn
sêl cist car erioed?

Pryd oedd y tro diwetha i chi fod
mewn amgueddfa?

**Eich bywyd cymdeithasol**

Ble dych chi'n mynd
i gymdeithasu?



Pa mor aml dych chi'n mynd
ma's gyda ffrindiau?



Dych chi'n cymdeithasu gyda phobl yn y
gwaith? / yn y dosbarth? / cymdogion?

Beth fasech chi'n gallu ei wneud i wella eich
bywyd cymdeithasol?

Ydy bywyd cymdeithasol yn haws
yn y dref nag yn y wlad?

Ydy cymdeithasu'n ddrudd? Faint dych chi'n ei
wario ar gymdeithasu?

Ble a phryd byddwch chi'n mynd ma's nesa i
gymdeithasu?

**Eich barn chi**

Ddylai pobl gael ysmegu mewn
gardd gwrw?



Oes digon o blismyn ar y stryd?



Oes gormod o drais a rhyw
ar y teledu?

Ddylai tai fod yn rhatach?

Oes gormod o gamerâu cyflymder?

Ydy athrawon yn gweithio'n galed?

Ydy plant yn waeth y dyddiau yma?

Ddylai petrol fod yn rhatach?

Ddylai pawb yng Nghymru ddysgu Cymraeg?

Beth ddylai'r Llywodraeth ei wneud?

**Ail gyfle**

Tasai hi'n bosib ail-fyw
eich bywyd
eto, beth fasech chi'n ei
wneud yn wahanol?



Pethau i feddwl amdanyn nhw -
ysgol / coleg / prifysgol
cariad / priodi / plant
gwaith / gyrfa
ffrindiau
lle i fyw / symud tŷ
gwario arian
iechyd / cadw'n heini
teithio

**Cysgu**

Ydy cwsg yn bwysig i chi?



Pa un sy'n well gyda chi -
matres feddal neu un galed?



Faint o gwsg dych chi'n ei gael bob nos?
Fasech chi'n hoffi mwy?

Fasech chi'n hoffi cael siesta
yn y prynhawn?

Dych chi wedi cysgu yn y car erioed?
Ar y sofa? / Ar y llawr?
Dan y sêr? / Mewn cyfarfod?

Dych chi'n cael trafferth i
ddihuno yn y bore?

Dych chi wedi gwneud gwaith *shift* erioed, a
gorfod cysgu yn ystod y dydd?

**Pa fath o berson dych chi?**

Dych chi'n berson ?



prydlon / hwyr



taclus / anniben



bodlon / sy'n cwyno

trefnus / di-drefn

amyneddgar / diamynedd

optimistaidd / pesimistaidd

hwyllog / crac

Beth am y bobl eraill yn y dosbarth, yn eich barn chi?

**Beth dych chi'n ei feddwl?**

Beth dych chi'n ei feddwl o?



traffig ar y ffyrdd



y Beatles



ffonau symudol

operâu sebon ar y teledu

twristiaid

S4C

bwyd llysieuol

**Yr Heddlu**

Pryd gweloch chi blismon ddiwetha?



Oes digon o blismyn ar ein strydoedd?

Dych chi'n nabod rhywun sy'n gweithio fel plismon(es)?

Fasech chi'n hoffi bod yn blismon(es)?

Dych chi wedi bod mewn swyddfa heddlu erioed?

Oes gormod o gamerâu cyflymder?

Ydy troseddu yn broblem yn eich ardal chi?

**Cerddoriaeth**

Dych chi'n mwynhau cerddoriaeth?



Pa fath o gerddoriaeth dych chi'n ei hoffi?

Oes cerddoriaeth dych chi ddim yn ei hoffi?

Dych chi'n canu offeryn o gwbl?

Pryd a ble dych chi'n gwranddo ar gerddoriaeth?

Pa mor aml dych chi'n prynu cerddoriaeth? Sut?

Dych chi'n mwynhau cerddoriaeth fyw?

Ble dych chi wedi bod i wrando ar grwpiau/ bandiau/cerddorfeydd?

Cardiau sgwrsio gogledd Cymru

 <p style="text-align: center;"><u>Y Tŷ</u></p> <p>Lle mae eich tŷ chi?</p> <p>Pa fath o dŷ ydy o?</p> <p>Pa ystafelloedd sy yn eich tŷ chi?</p> <p>Be ydy oed eich tŷ chi?</p> <p>Pa waith dach chi wedi'i wneud yn y tŷ yn ddiweddar?</p> <p>Be fydd y gwaith nesa?</p> <p>Pwy fydd yn gwneud y gwaith?</p> <p>Dach chi'n hapus efo'ch tŷ chi?</p> <p>Be fasech chi'n hoffi ei newid?</p> <p>Dach chi'n hapus efo lle mae'r tŷ?</p>	 <p style="text-align: center;"><u>Cymdogion</u></p> <p>Pwy ydy eich cymdogion chi?</p> <p>Be dach chi'n ei wybod amdany'n nhw?</p> <p>Pa mor aml dach chi'n siarad efo nhw?</p> <p>Dach chi'n dod ymlaen efo nhw?</p> <p>Dach chi wedi cael problemau efo cymdogion erioed?</p> <p>Pwy oedd eich cymdogion chi cyn y cymdogion presennol?</p> <p>Pwy oedd eich hoff gymdogion? Pam? Ar gwaetha? Pam?</p> <p>Ydy'r cymdogion yn gofyn i chi wneud pethau o dro i dro?</p> <p>Dach chi'n gofyn iddyn nhw wneud pethau i chi weithiau?</p>
 <p style="text-align: center;"><u>Pa mor fawr ydy eich byd chi?</u></p> <p>Pa mor fawr ydy eich byd chi o ddydd Llun i ddydd Gwener?</p> <p style="text-align: center;">h.y.</p> <p>Pa mor bell dach chi'n teithio o'r tŷ?</p> <p>Ydy eich byd chi'n fwy neu'n llai dros y penwythnos, fel arfer?</p> <p style="text-align: center;">-----</p> <p>Pa mor fawr oedd eich byd chi y llynedd? ddeg mlynedd yn ôl? pan oeddech chi'n blentyn bach?</p>	 <p style="text-align: center;"><u>Be fasech chi'n hoffi?</u></p> <p>Lle fasech chi'n hoffi mynd ar wyliau?</p> <p>Lle fasech chi'n licio mynd dros y penwythnos?</p> <p>Lle fasech chi'n hoffi byw?</p> <p>Be fasech chi'n licio ei fwyta fory?</p> <p>Be fasech chi'n hoffi medru ei fforddio?</p> <p>Pa berson enwog fasech chi'n hoffi ei gyfarfod neu ei chyfarfod?</p> <p>Pa gar fasech chi'n hoffi ei yrru?</p> <p>Pa lyfr fasech chi'n hoffi ei ddarllen?</p> <p>Pa ffilm fasech chi'n hoffi ei gwyllo?</p>



Yr wythnos diwetha

Disgrifiwch yr wythnos diwetha

e.e.

Be wnaethoch chi yn y gwaith?

Pa waith wnaethoch chi yn y tŷ?

Lle aethoch chi?

Be brynoch chi?

Be ddarllenoch chi?

Pwy weloch chi?

Pwy ffonioch chi?

Siaradoch chi Gymraeg o gwbl?

Be oedd y pethau gorau/gwaetha
am wythnos diwetha?



Yr wythnos nesa

Be fyddwch chi'n ei wneud wythnos nesa?

e.e.

Fyddwch chi'n gweithio?

Fyddwch chi'n gweithio yn y tŷ?

Fyddwch chi'n mynd allan?

Fyddwch chi'n siopa?

Fyddwch chi'n cyfarfod ffrindiau?

Fyddwch chi'n ffonio pobol?

Dach chi'n edrych ymlaen at wneud rhywbeth
wythnos nesa?

At be dach chi ddim yn edrych ymlaen?



Llefydd

Sgynnoch chi hoff le yng Nghymru?
Pam mae o'n arbennig?

Sgynnoch chi hoff le yn Lloegr?

Pryd oeddech chi yn lwerddon
neu'r Alban ddiwetha?

Lle dach chi wedi bod dramor?

Lle oeddech chi'n mynd ar wyliau
pan oeddech chi'n blentyn?

Lle dach chi wedi byw/gweithio
yn y gorffennol?

Lle fyddwch chi'n mynd mis nesa?

Lle fasech chi'n hoffi mynd?



Yr Ardal Leol

Pa mor dda dach chi'n nabod yr ardal?

Pam dach chi'n licio'r ardal?

Pa bethau dach chi ddim yn hoffi?

Pa bethau sy wedi newid yn yr ardal
dros y blynyddoedd?

Pa bethau fasech chi'n hoffi eu newid
yn yr ardal?

Be sy yna i bobol ifanc?

Be sy yna i hen bobol?

Be sy yna i dwristiaid?

Be sy yna i blant?

Sut mae'r ardal yn mynd i newid, ella?



Teledu a Radio

Pa mor aml dach chi'n edrych ar y teledu?

Pa raglenni dach chi'n hoffi?
Be ydy eich hoff raglenni chi?

Be dach chi ddim yn hoffi?

Dach chi'n gwylio rhaglenni Cymraeg?

Dach chi'n gwrando ar Radio Cymru?

Pa raglenni oeddech chi'n hoffi pan oeddech chi'n blentyn?

Be dachi'n feddwl o "raglenni realiti" ?



Ffilmiau

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r sinema?

Efo pwy dach chi'n mynd i'r sinema?

Dach chi'n mwynhau ffilmiau ar y teledu?

Oeddech chi'n mynd i'r sinema pan oeddech chi'n blentyn?

Pa fath o ffilmiau dach chi'n hoffi fwya?
Pa fath dach chi ddim yn hoffi?

Pa ffilmiau dach chi'n cofio orau?

Be oedd y ffilm ddiwetha weloch chi?

Llyfrau a Darllen

Dach chi'n mwynhau darllen?

Pa fath o lyfrau dach chi'n eu mwynhau?

Dach chi'n mwynhau nofelau?
Pa fath o nofelau dach chi'n hoffi eu darllen?

Pa lyfr dach chi'n ei ddarllen ar hyn o bryd?

Dach chi'n prynu cylchgronau o gwbl?

Pryd dach chi'n darllen? Fasech chi'n hoffi mwy o amser i ddarllen?

Dach chi'n mynd i'r llyfrgell o gwbl?

Oes un llyfr fasech chi'n hoffi ei ddarllen?

Dach chi'n prynu papur newydd?
Dach chi'n darllen papur newydd ar-lein?

Dylwn i...

Be ddylech chi ei wneud yn y tŷ?

Be ddylech chi ei wneud yn yr ardd?

Be ddylech chi ei wneud yn yr ardal?

Lle ddylech chi fynd wythnos nesa?

Pwy ddylech chi ffonio?

At bwy ddylech chi sgwennu?

Be ddylech chi stopio ei wneud?

Be ddylech chi ei wneud efo'ch Cymraeg chi?



Blodau

Dach chi'n hoffi blodau?
Sgynnoch chi hoff flodyn?

Dach chi'n hoffi gweld blodau yn y tŷ?
Sgynnoch chi flodau yn y tŷ rŵan?

Sgynnoch chi flodau yn eich gardd chi?
Sgynnoch chi flodau mewn potiau?

Pa mor aml dach chi'n prynu blodau?
Pryd wnaethoch chi brynu blodau ddiwetha?

Pryd oedd y tro diwetha i rywun brynu blodau
i chi?

Dach chi wedi anfon blodau at rywun erioed?

Lle fasech chi'n mynd i brynu blodau?



Yr Eglwys / Y Capel / Y Mosg ac ati

Dach chi'n mynd i eglwys/capel/mosg?

Pwy dach chi'n nabod sy'n mynd?

Pryd oeddech chi mewn eglwys ddiwetha?
Pryd fyddwch chi mewn eglwys nesa?

Yn blentyn, oeddech chi'n mynd i'r Ysgol Sul?

Lle mae eich eglwysi/capeli/mosgiau agosa?
Faint o gapeli sy yn eich ardal chi?
Ydyn nhw ar agor?

Dach chi'n gwyllo rhaglenni fel *Dechrau Canu*
Dechrau Canmol/Songs of Praise?

Dach chi'n nabod eich ficer lleol chi?



Bancio ac Arian

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r banc? Lle
mae'ch banc agosa chi?

Pa mor aml dach chi'n defnyddio
cerdyn credyd/llyfr sieciau?

Pa mor aml dach chi'n defnyddio pres parod?
Pa bethau dach chi'n prynu efo pres?
Dach chi'n hoffi defnyddio cerdyn?

Sgynnoch chi gyfrif ar y we?

Sut mae bancio wedi newid dros y
blynyddoedd?



Ffrindiau

Be dach chi'n ei wneud efo ffrindiau?
Lle dach chi'n mynd?

Pa mor aml dach chi'n gweld ffrindiau?

Lle mae eich ffrindiau chi'n byw?
O le maen nhw'n dŵad?

Pwy ydy eich ffrind(iau) gorau chi?

Oes/Oedd gynnoc chi ffrindiau yn y gwaith?

Ydy eich ffrindiau chi yn debyg i chi?

Sgynnoch chi ffrindiau sy'n siarad Cymraeg/
ieithoedd eraill?

Dach chi'n nabod llawer o bobol yn eich stryd/
pentref/ardal chi?

**Nesa**

Lle fyddwch chi'n siopa nesa?
Be brynwch chi nesa?

Pa ddillad brynwch chi nesa?

Pa raglen ar y teledu wylwch chi nesa?

Be fwytwch chi nesa?
Be yfwch chi nesa?

Pwy ffoniwch chi nesa?

Pa ffrind welwch chi nesa?

At bwy fyddwch chi'n
sgwennu/anfon neges nesa?

I le fyddwch chi'n gyrru/teithio nesa?

**Technoleg!**

Sgynnoch chi ffôn symudol?
Dach chi'n tecstio yn aml?

Sgynnoch chi gyfrifiadur?
Be dach chi'n ei wneud efo fo?

Dach chi'n defnyddio'r we? I wneud be?

Dach chi'n gwybod sut i recordio rhaglenni ar y
teledu?

Dach chi'n edrych ar DVDs?

Sut dach chi'n gwrando ar gerddoriaeth?

**Fasech chi'n ...?**

Be fasech chi'n ei wneud
i godi pres at achos da...?

rhedeg (hanner) marathon
gwneud naid parasiwt
nofio pum milltir
gwneud naid bynji
peidio â bwyta am ddau ddiwrnod
gwyllo criced am 12 awr
gwrando ar Radio Cymru am 12 awr
bwyta malwod
dringo'r Wyddfa
dringo 5 mynydd mewn un diwrnod
cael cawod oer am chwarter awr
bwyta jar o winwns picl
nofio yn y môr ar ddydd Nadolig
siafio eich pen
cerdded 30 milltir

Dach chi **wedi** gwneud rhywbeth fel hyn i
godi pres?

**Cyfweliadau**

Pa gyfweliadau dach chi wedi eu cael?

Sut aethon nhw?

Dach chi wedi deud/gwneud pethau twp
mewn cyfweliad?

Dach chi'n cofio eich cyfweliad cynta chi?
(ella am swydd dydd Sadwrn)

Sgynnoch chi gyngor i rywun sy'n cael
cyfweliad?

Dach chi wedi bod ar banel cyfweld?
Fasech chi'n hoffi bod ar banel?

Ydy sut dach chi'n edrych yn bwysig mewn
cyfweliad? Be fasech chi'n ei wisgo i
gyfweliad?



Geiriau Cymraeg

Oes 'na eiriau Cymraeg dach chi ddim yn eu hoffi?

Pam dach chi ddim yn eu licio nhw?

Oes geiriau Cymraeg dach chi'n eu hoffi'n fawr?

Pam dach chi'n eu licio nhw?

Sgynnoch chi hoff air Cymraeg?

Oes 'na eiriau Cymraeg dach chi byth yn medru eu cofio?

Oes 'na eiriau sy'n hawdd eu cofio?

Be dach chi'n ei wneud i'ch helpu chi i gofio geiriau?



Tynnu Lluniau

Sgynnoch chi gamera?
Ers pryd?

Dach chi'n defnyddio eich ffôn/ tabled i dynnu lluniau?

Pa mor aml dach chi'n tynnu lluniau?

Pryd dynnoch chi luniau ddiwetha?
Pryd fyddwch chi'n tynnu lluniau nesa?

Pryd gaethoch chi eich camera cynta?

Be dach chi'n ei wneud efo'ch lluniau?

Dach chi'n tynnu lluniau da?

Dach chi'n mwynhau gweld lluniau pobol eraill?



Byddwch yn onest

Fel arfer, dach chi'n cyrraedd yn gynnar / ar amser / yn hwyr?

Dach chi'n cadw at eich gair bob tro?

Dach chi'n ofalus efo pres?

Dach chi'n hel clecs?

Dach chi'n deud y gwir bob tro, neu fasech chi'n deud celwydd golau weithiau?

Dach chi'n berffaith?



Fy hoff ...

Fy hoff:

sinema
siop ddillad
sioe neu ddrama
tîm pêl-droed
fferins/melysion neu siocled
carol Nadolig
adeilad
llun
cacen
caws
ap ar y ffôn
maes awyr
gwasanaethau ar y draffordd

**Rhestr fwced!**

Pa bethau fasech chi'n hoffi eu gwneud
cyn i chi fynd yn rhy hen?

e.e. -

deifio yn Alcapulco

mynd i Ynys Enlli

cerdded o Land's End i John O'Groats

teithio ar y trê'n trwy'r Rockies

nofio efo dolffiniaid

cael penwythnos ym Monte Carlo

gweld eliffantod yn Affrica

bod yn rhugl yn y Gymraeg



Be fasech chi'n licio ei wneud eto?

**Y Teulu**

Pa deulu sy gynnoch chi?

Lle maen nhw'n byw?

Be maen nhw'n ei wneud?

Pa mor aml dach chi'n eu gweld nhw?

Oes 'na bobol yn y teulu dach chi
erioed wedi eu gweld?

Pryd fyddwch chi'n gweld teulu sy'n byw
mewn ardal arall nesa?

Pa mor aml dach chi'n clywed ganddyn nhw?
Pwy sy'n ffonio pwy?



Pwy ydy'r hyna/fenga yn y teulu?

Chwaraeon

Pa chwaraeon dach chi'n eu chwarae?
Pryd? Pa mor aml?

Dach chi'n cadw'n heini?

Pa chwaraeon dach chi'n eu gwyllo
ar y teledu/yn fyw?

Pa chwaraeon dach chi'n eu hoffi?
Pa chwaraeon dach chi ddim yn eu licio?

Fasech chi'n hoffi trio rhyw chwaraeon
newydd?

Pa chwaraeon oeddech chi'n eu gwneud
yn yr ysgol?

Dach chi'n cefnogi tîm o gwbl?

Faint o pres dach chi'n ei wario ar

Byth!

(Esboniwch pam)

Be fasech chi byth yn ei fwyta?

Be fasech chi byth yn ei yfed?

Lle fasech chi byth yn byw?

Lle fasech chi byth yn mynd ar wyliau?

Lle fasech chi byth yn siopa?

Lle fasech chi byth yn mynd?

Pa chwaraeon fasech chi byth yn
eu gwneud?

Be fasech chi byth yn ei wneud, hyd yn oed am
lawer o bres?



Priodasau

Pryd oeddech chi mewn priodas ddiwetha?

Pa briodasau dach chi'n eu cofio'n dda?
Pam?

Fyddwch chi'n mynd i briodas cyn hir?

Mae priodasau'n ddrud! Lle mae'r
pres i gyd yn mynd?



Pobl dach chi'n nabod

Trafodwch bobol dach chi'n nabod

... sy'n gweithio yn y nos

... sy'n reidio beic modur

... sy ddim yn hoffi cŵn/cathod

... sy wedi ymddeol

... sy'n byw ar ei ben/phen ei hun

... sy'n byw dramor

... sy'n besimistaidd trwy'r amser

... sy'n heini iawn

... sy'n gerddorol iawn

... sy'n casglu pethau



Y Dafarn

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r dafarn?

Pryd oeddech chi yn y dafarn ddiwetha?
Pryd fyddwch chi'n mynd nesa?

Pam dach chi'n mynd i'r dafarn?

Pa dafarnau sy yn eich ardal chi?

Sgynnoch chi hoff dafarn?
Pam dach chi'n ei hoffi hi?

Pa mor aml dach chi'n bwyta mewn tafarnau?

Dach chi wedi gwneud ffrindiau yn y dafarn?

Dach chi'n siarad Cymraeg yn y dafarn?



Partïon

Dach chi'n hoffi mynd i bartïon?

Pryd oeddech chi mewn parti ddiwetha?

Pryd wnaethoch chi drefnu parti ddiwetha?
Pam?

Dach chi'n cael parti ar eich
pen-blwydd fel arfer?

Pa bartïon dach chi'n eu cofio orau?
Pam?

Pa fath o barti fasai'r parti
perffaith?

Dach chi'n cael barbeciws yn yr haf?

**Tasai ...?**

Tasech chi'n ennill llawer o bres,
be fasech chi'n ei wneud?

Tasech chi'n cymryd eich prawf gyrru
eto, fasech chi'n pasio?

Tasai gynnoch chi broblem deuluol,
fasech chi'n mynd ar y teledu i siarad am y
broblem?

Tasai rhaid i chi symud tŷ, i le fasech
chi'n mynd?

Tasai rhaid i chi symud i Lundain, fasech chi'n
dal i ddysgu Cymraeg?

Tasech chi'n 18 oed eto, fasech chi'n
gwneud pethau'n wahanol?

**Ffonau**

Faint o ffonau sy gynnoch chi yn y tŷ?
Lle maen nhw?

Sgynnoch chi ffôn symudol?
Sut dach chi'n talu am eich ffôn symudol?

Pa mor aml dach chi'n defnyddio'r ffôn/ffôn
symudol?

Pwy dach chi'n ffonio amla?

Dach chi'n ffonio pobol yn llai aml
achos eich bod chi'n ebostio/tecstio?

Oes 'na lawer o bobol yn eich ffonio chi i drio
gwerthu pethau?

Be maen nhw'n trio ei werthu?

Ydy ffonau symudol yn boen weithiau?

**Dillad**

Pa ddillad dach chi wedi eu prynu
yn ddiweddar?

Lle dach chi'n mynd i brynu dillad?

Pa mor aml dach chi'n prynu dillad?

Dach chi wedi prynu dillad i berson
arall yn ddiweddar?

Ydy ffasiwn a labeli'n bwysig i chi?

Dach chi'n prynu dillad mewn siopau elusen?

Be dach chi'n ei wisgo yn y tŷ?

Pa fath o ddillad dach chi'n eu gwisgo
fel arfer?

**Jobsys Bach yn y Tŷ**

Llongyfarchiadau!

Dach chi wedi ennill gwobr
mewn raffl...

Person sy'n gwneud popeth.
Mae'n fodlon treulio diwrnod
yn gwneud unrhyw beth i chi -
yn y tŷ neu yn yr ardd !!

Be wnewch chi ofyn iddo fo/
iddi hi ei wneud?



Nadolig

Be dach chi'n ei hoffi am y Nadolig?

Ydy'ch teulu chi'n mwynhau'r Nadolig?

Be dach chi ddim yn ei licio am y Nadolig?

Lle oeddech chi Nadolig diwetha?

Lle fyddwch chi Nadolig nesa?

Pryd dach chi'n dechrau meddwl am
y Nadolig, fel arfer?

Ydy'r Nadolig yn rhy ddrud?
Lle mae'r pres yn mynd?

Dach chi'n yfed a bwyta gormod
dros y Nadolig, fel arfer?



Trefn yr Wythnos

Pryd mae'r lori biniau'n dŵad?

Faint o'r gloch mae'r postmon yn dŵad?

Be dach chi'n ei wneud cyn mynd i'r
gwely, fel arfer?

Be dach chi'n ei wneud ar ôl codi,
fel arfer?

Pryd dach chi'n gwneud eich gwaith cartref
Cymraeg, fel arfer?

Pryd/Pa mor aml dach chi'n...
smwddio?
gwneud gwaith tŷ?
torri'r lawnt?
garddio?
golchi dillad?
golchi'r ffenestri?



Dewisiadau!

Codi'n gynnar neu godi'n hwyr?

Aros adre neu fynd allan
ar nos Sadwrn?

Cerdded i'r siop neu fynd yn y car?

Nofio yn y môr neu yn y pwll nofio?

Papuro neu beintio?

Ffonio ffrindiau neu decstio?

Tatws neu sglodion?

Llysiau neu salad?

Gwyllo ffilm adre neu fynd i'r sinema?

Papur newydd neu newyddion ar-lein?

Cerddoriaeth bop neu gerddoriaeth glasurol?



Beth fasech chi'n hoffi ei wneud tasech chi ar wyliau yn?

Awstralia

Sbaen

Yr Unol Daleithiau

Seland Newydd

Tsieina

Affrica

India

Y Swistir

Gwlad Thai

Yr Eidal

Rwsia

Brasil

Patagonia

Gwlad yr Iâ

 <p style="text-align: center;"><u>Cymru</u></p> <p>Pa mor dda dach chi'n nabod Cymru?</p> <p>Ers pryd dach chi'n byw yng Nghymru? Pryd ddaethoch chi yma am y tro cynta?</p> <p>Sgynnoch chi hoff lefydd? Oes 'na lefydd dach chi ddim yn eu hoffi?</p> <p>Pa mor aml dach chi'n teithio o gwmpas Cymru?</p> <p>Pa mor dda dach chi'n nabod... Caerdydd/Wreccsam /Abertawe/ Llangollen/ Bangor/Aberystwyth/ y Rhyl /y Barri/y Drenewydd /Dolgellau/ Pen Llŷn/Ynys Môn/ Blaenau Ffestiniog/Tyddewi/ Pontypridd/ Porthmadog / Caerfyrddin/Dinbych y Pysgod?</p>	 <p style="text-align: center;"><u>Teithio</u></p> <p>Pa mor aml dach chi'n ...</p> <p>teithio ar y trê'n?</p> <p>teithio ar y bws?</p> <p>beicio?</p> <p>teithio mewn tacsî?</p> <p>gyrru car?</p> <p>teithio ar long/mewn cwch?</p> <p>teithio mewn awyren?</p> <p>Pryd ac i le wnaethoch chi deithio ddiwetha? Pryd ac i le fyddwch chi'n teithio nesa?</p>
  <p style="text-align: center;"><u>Lle dach chi'n byw?</u></p> <p>Disgrifiwch ...</p> <p>eich stryd chi</p> <p>eich pentref/tref chi</p> <p>eich ardal chi</p> <p>eich gwlad chi</p>	



Llongyfarchiadau!

Dach chi wedi ennill gwobr
mewn raffl...

Rhywun sy'n fodlon
treulio wythnos efo chi i'ch helpu chi
efo'ch Cymraeg!

Mae'r wobwr yn cynnwys tocynnau i
fynd i unrhyw ddigwyddiadau yn ystod
yr wythnos!

- a) Pwy fydd yn eich helpu chi?
- b) Dach chi'n medru meddwl am
rywun enwog?
- c) Be wnewch chi ofyn iddo fo/iddi hi ei
wneud?



Hoff bethau

Be ydy eich hoff ... chi?
Esboniwch pam!

tŷ bwyta
ffilm
cân
taith gerdded
bwyd
lle
llyfr
diod
anifail
rhaglen ar y teledu
gorsaf radio

* Cofiwch y treigladr ar ôl "hoff"



Dillad (2)

Sgynnoch chi hoff ddillad?
Sgynnoch chi hoff liw?

Be dach chi'n ei wisgo fel arfer?

Lle dach chi'n prynu eich dillad
fel arfer?

Pa mor aml dach chi'n prynu dillad?
I bwy dach chi'n prynu dillad?

Sgynnoch chi ddillad dach chi ddim yn eu
hoffi?

Be ydy'r dillad druta sy gynnoch chi?
Be oedd y fargen orau gaethoch chi?

Be dach chi'n ei wneud efo'ch hen ddillad?



Y Tro Diwetha

Pryd oedd y tro diwetha i chi ...?

yfed siampên
gweld mwnci
chwarae gêm
bwyta pysgod
ffonio am dacs
palu twll
tynnu llun
reidio beic
torri rhywbeth

* Cofiwch dreiglo!



Yr Ardd

Sgynnoch chi ardd?

Pa mor fawr ydy hi?
Fasech chi'n hoffi gardd fwy/lai?

Be sy yn yr ardd?

Dach chi'n mwynhau garddio?
Pwy sy'n gwneud y garddio yn eich tŷ chi?

Faint o amser dach chi'n ei dreulio
yn yr ardd?

Be fasech chi'n hoffi ei newid yn yr ardd?
Be dach chi wedi ei newid yn yr ardd?

Lle mae eich offer garddio chi?

Dach chi'n bwydo'r adar?



Eich Corff Chi!

Pryd aethoch chi at y
deintydd ddiwetha?

Sgynnoch chi ofn y deintydd?

Pryd aethoch chi at yr optegydd ddiwetha?

Dach chi'n gweld yn dda?
Oes rhaid i chi wisgo sbectol?

Dach chi'n clywed yn dda?

Dach chi wedi bod i fferm iechyd erioed?
Fasech chi'n hoffi mynd i un am benwythnos?



Dw i isio un!

Pryd a lle gaethoch chi...

eich car chi
eich teledu chi
eich cot orau chi
eich cyfrifiadur chi
eich sofffa chi
eich gwely chi
eich esgidiau chi
eich ffôn symudol chi
eich camera chi
eich geiriadur Cymraeg chi



Ieithoedd

Pa iaith/ieithoedd ddysgoch
chi yn yr ysgol?

Pa mor dda oeddech chi?
Dach chi'n cofio tipyn o'r iaith rŵan?

Ydy dysgu Cymraeg yn haws na dysgu
ieithoedd eraill? Neu'n anoddach?

Dach chi'n ceisio siarad iaith y wlad
pan dach chi'n mynd ar wyliau dramor?

Dach chi'n nabod rhywun sy'n dda iawn am
ddysgu ieithoedd?

Pa fath o acen Saesneg sy gynnoch chi?
Ydy eich acen chi wedi newid dros amser?

Pam mae llawer o bobol yn y byd
yn medru siarad Saesneg mor dda?



Cefn Gwlad

Dach chi'n byw yng nghefn gwlad?
Fasech chi'n hoffi byw yng nghefn gwlad?

Pa mor aml dach chi'n mynd allan
i gefn gwlad?
Be dach chi'n ei wneud yno?

Be ydy'r peth gorau am
fyw yng nghefn gwlad?

A be ydy'r peth gwaetha?

Be mae'r Cod Cefn Gwlad yn ei ddeud?
Dach chi'n cadw ato fo?



Prydau Bwyd

Faint o'r gloch dach chi'n cael -

brecwast?
cinio canol dydd?
cinio gyda'r nos/swper?

Be dach chi'n ei fwyta i frechwast
fel arfer?

Pryd dach chi'n cael eich
prif bryd o fwyd?

Ydy pethau'n wahanol dros y penwythnos?

Pwy sy'n coginio? Pwy sy'n clirio?
Pwy sy'n golchi'r llestri?

Dach chi'n eistedd wrth y bwrdd i
fwyta pob pryd o fwyd?



Tân Gwylt

Pryd weloch chi dân
gwylt ddiwetha?

Oeddech chi'n hoffi tân gwylt pan oeddech
chi'n blentyn?

Be oeddech chi'n ei wneud ar Noson Guto
Ffowc, yn blentyn?

Be dach chi'n ei wneud ar Noson Guto Ffowc y
dyddiau yma?

Sgynnoch chi anifeiliaid anwes?
Be maen nhw'n ei feddwl o dân gwylt?

Oes 'na fwy o dân gwylt y dyddiau hyn?

Be mae'r Cod Tân Gwylt yn ei ddeud?



Gyrru Car

Dach chi'n mwynhau gyrru car?
Be dach chi'n ei hoffi am yrru?
Be dach chi ddim yn ei licio?

Pryd wnaethoch chi eich prawf gyrru?
Be dach chi'n ei gofio amdano fo?

Dach chi wedi torri i lawr erioed?
Dach chi'n aelod o'r AA/RAC...?

Trafodwch eich profiadau

eich hoff daith
y ffordd brysura
y ffordd fwya peryglus
y dref/ddinas brysura
y tywydd mwya ofnadwy
y ciwiau gwaetha
y daith waetha



Y Gorau a'r Gwaetha !!

Esboniwch pam roedden
nhw mor dda neu mor ofnadwy!

gwyliau
taith yn y car
noson allan
diwrnod allan
pryd o fwyd
parti
anrheg
profiad
swydd



Y Ddinas Fawr Ddrwg!

Pa mor aml dach chi'n
mynd i'r ddinas?

Pam dach chi'n mynd i'r ddinas?

Pryd aethoch chi i'r ddinas ddiwetha?
Pryd fyddwch chi'n mynd i'r ddinas nesa?

Dach chi'n mwynhau'r ddinas?
Pa bethau dach chi'n eu hoffi?
Pa bethau dach chi ddim yn eu licio?

I ba ddinasoedd dach chi wedi bod?

Dach chi wedi byw mewn dinas
erioed?

Fasech chi'n hoffi byw mewn dinas?



Symud Tŷ

Disgrifiwch eich profiadau yn
symud tŷ:

Faint o weithiau dach chi wedi symud tŷ?
O le i le?
Pryd?

Pam wnaethoch chi symud ddiwetha?
Sut aeth hi?
Oedd 'na broblemau?
Oedd y cwmni'n dda?
Sut oedd y tywydd?

Ydy symud tŷ yn ddrud?

Fasech chi'n hoffi symud eto?



Sbwriel

Pa mor aml mae'r lori
biniau'n dŵad?
Pryd mae hi'n dŵad?

Pa mor llawn ydy'r bin bob wythnos?

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r domen sbwriel?

Dach chi'n ailgylchu pethau? Be?
Sut? Pa mor aml?

Ddylai pawb ailgylchu mwy?

Dach chi'n llosgi sbwriel weithiau?

Oes 'na lawer o sbwriel o gwmpas y lle
yn eich ardal chi?

**Ein dosbarth ni**

Pa mor dda dach chi'n nabod y bobol yn y dosbarth?

Faint dach chi'n ei wybod amdany'n nhw?
Dudwch gymaint â phosib!
(Cofiwch am y bobol sy ddim yma heddiw.)

Hefyd, faint dach chi'n ei wybod am eich tiwtor(iaid)?

A faint mae pawb yn ei wybod amdanoch chi?

**Pa mor dalentog dach chi?**

Rhowch fanylion

Dach chi wedi...
canu o flaen pobol?
sgwennu llyfr/erthygl?
actio/dawnsio ar y llwyfan?
coginio i lawer o bobol?
adeiladu rhywbeth?
trwsio rhywbeth?
gweu rhywbeth?
peintio rhywbeth?

Dach chi'n medru canu offeryn cerdd?

Dach chi'n cuddio rhyw dalent arbennig?

**Bwyd a Bwyta Allan**

Be ydy eich hoff fwyd chi?
Pa fwyd dach chi ddim yn ei hoffi?

Dach chi'n mwynhau bwyta/coginio?

Dach chi'n bwyta o flaen y teledu?

Pa mor aml dach chi'n bwyta allan?

Efo pwy dach chi'n bwyta allan?

Lle dach chi'n mynd i fwyta?
Oes 'na lawer o ddewis yn yr ardal?

Pa un ydy eich hoff le? Pam?

Dach chi erioed wedi cael pryd o fwyd ofnadwy mewn tŷ bwyta?

Pryd fyddwch chi'n bwyta allan nesa?

**Cymru 2**

Mae grŵp o Americanwyr yn teithio o gwmpas Ewrop ac mi fyddan nhw'n dŵad i Gymru am dri diwrnod.

Chi fydd arweinydd y daith pan fyddan nhw yng Nghymru!

Mae gynnoch chi fws a gyrrwr, ac mae gynnyn nhw lawer o bres!

Lle ewch chi â nhw? Pam?

**"Adre"**

Lle mae "adre" i chi?



Os dach chi wedi bod allan/i ffwrdd,
pryd a lle dach chi'n teimlo bod chi
wedi cyrraedd adre:

y tu allan i'r tŷ?

ym mhen y stryd?

wrth weld arwydd enw'r pentref/dref?

rhywle arall?

Lle gaethoch chi eich magu?

Dach chi'n dal i feddwl am yr ardal yna fel
"adre"?

**Lle yn y byd...?**

Lle yn y byd dach chi wedi bod...
(neu fasech chi'n hoffi mynd...)

sy'n boeth/oer

sy'n bell

sy'n uchel

sy'n wlyb/sych

sy'n unig

sy'n ddel

sy'n wahanol iawn i Gymru

sy'n debyg i Gymru

Pryd/Pam aethoch chi i'r llefydd yma?

**Atgofion Cynnar**

Be ydy'r pethau cynta
dach chi'n eu cofio?



Faint oedd eich oed chi ar y pryd?

Pa mor glir ydy eich atgofion cynnar?

Ydy eich atgofion cynnar yn hapus?

Fasech chi'n hoffi cofio mwy?

Dach chi'n cofio eich diwrnod cynta
yn yr ysgol?

**Pobol enwog**

Dach chi wedi siarad efo
rhywun enwog? Pryd a lle?



Pa bobol enwog dach chi wedi eu gweld?
Pryd a lle?

Fasech chi'n hoffi bod yn enwog?
Pam?/Pam ddim?

Dach chi'n hoffi gwyllo rhaglenni ar y teledu
efo "celebs" ynddyn nhw?

Pwy ydy eich hoff/cas...
actor/actores?
ganwr/gantores?
bersonoliaeth chwaraeon?



Y Dyfodol

Be wnewch chi heno?

Be wnewch chi yfory?

Dach chi'n cynllunio rhywbeth at
wythnos nesa, o gwbl?

Sgynnoch chi gynlluniau at y mis nesa,
o gwbl?

Sgynnoch chi gynlluniau at
y flwyddyn nesa, o gwbl?

Be am y tymor hir?
Sgynnoch chi gynlluniau
neu freuddwydion?



Byw yn Beryglus!

Pryd wnaethoch chi *... ddiwetha?

dringo ystol

yfed coctel

nofio mewn dŵr dwfn

weirio plwg

defnyddio matsys

croesi'r stryd

bwyta rhywbeth od

torri'r gyfraith

cyffwrdd â chi



Cymru 3

Pan mae pobol yn clywed
enw "Cymru", am be
maen nhw'n ei feddwl?

rygbi

mynyddoedd

Caerdydd

trenau bach

y wisg Gymreig

yr iaith Gymraeg

chwareli llechi

Stadiwm y Principality

cennin

cestyll

yr Wyddfa

corau meibion

y Ddraig Goch

y delyn

yr Eisteddfod

pyllau glo

glaw

cennin Pedr

Dach chi'n medru meddwl am unrhyw
beth arall? Neu berson ella?



Profion ac Arholiadau

Oeddech chi'n hoffi arholiadau
pan oeddech chi yn yr ysgol?

Sut aeth eich arholiadau yn yr ysgol?

Dach chi wedi sefyll arholiadau yn y gwaith?
Oes/Oedd/Fydd rhaid i chi?

Sut aeth eich prawf gyrru cynta?

Dach chi wedi sefyll/yn mynd i sefyll
arholiad Cymraeg?

Dach chi wedi sefyll arholiadau fel Cymorth
Cynta, ac ati?

**Ennill**

Dach chi wedi ennill raffl erioed?



Pa mor aml dach chi'n prynu tocyn raffl/tocyn loteri/cerdyn crafu...?

Dach chi (neu ffrindiau/y teulu) wedi ennill pres ar y loteri erioed?

Dach chi wedi ennill cystadleuaeth erioed?
Pa wobrau dach chi wedi eu hennill?

Dach chi'n nabod pobol eraill sy wedi ennill cystadlaethau?

Dach chi'n nabod pobol lwcus/anlwcus?

Yn blentyn, oeddech chi'n arfer ennill pethau fel gemau a rasys?

**Môr a Mynydd**

Pryd oeddech chi ar ben mynydd ddiwetha?

Dach chi'n cerdded ar y mynyddoedd yn aml?

Faint o weithiau dach chi wedi bod ar gopa'r Wyddfa?

Sgynnoch chi hoff fynydd neu fryn?

Pryd oeddech chi ar lan y môr ddiwetha?

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r traeth?
Be dach chi'n ei wneud yno?

Sgynnoch chi hoff draeth yng Nghymru/dramor?

**Y Tymhorau**

Pa dymor dach chi'n ei hoffi orau?



y gwanwyn
yr haf
yr hydref
y gaeaf

Pam?

Oes 'na dymor dach chi ddim yn ei hoffi?

Ydy'r tymhorau'n newid?

Sut mae'r tymhorau'n cael effaith ar eich bywyd chi?

**Anifeiliaid / Anifeiliaid Anwes**

Sgynnoch chi anifeiliaid?



Os na, fasech chi'n hoffi cael anifail?

Oes gan eich cymdogion/teulu chi anifeiliaid?

Yn blentyn, oedd gynnoc chi anifail anwes?
Oeddech chi isio anifail anwes?

Be mae rhaid i chi ei wneud os oes gynnoc chi gi/cath/ceffyl?

Be dach chi'n ei feddwl o anifeiliaid mewn swê?

Oes anifeiliaid dach chi ddim yn eu hoffi?

**Y Tywydd**

Sut mae'r tywydd yng Nghymru?
Sut oedd y tywydd
wythnos diwetha?

Pa dywydd dach chi'n hoffi fwy?
Oes 'na dywydd dach chi ddim yn ei licio?

Ydy'r tywydd yn cael effaith ar eich bywyd chi
o gwbl?

Pa mor aml dach chi'n siarad am y tywydd?
Dach chi'n cwyno am y tywydd?

Dach chi'n gwrando ar y rhagolygon ar y teledu
a'r radio? Ydyn nhw'n iawn fel arfer?

Dach chi'n cofio storm fawr/eira mawr/
llifogydd yn eich ardal chi?

**Hobiau a Diddordebau**

Pa hobiau a diddordebau
sy gynnoch chi?

Pa mor aml dach chi'n gwneud eich hobiau?
Sgynnoch chi ddigon o amser am hobiau?

Lle dach chi'n gwneud eich hobiau?

Pryd ddechreuodd eich hobiau chi?

Faint o bres dach chi'n ei wario ar eich
hobiau?

Dach chi'n gwneud eich hobiau
ar ben eich hun?

Pryd fyddwch chi'n gwneud eich hobiau nesa?

**Be fasech chi'n ei wneud?**

Mewn cystadleuaeth dach
chi wedi ennill gwyliau yng
Ngogledd Corea...

Mae Radio Cymru isio i chi siarad ar
y radio am ddysgu Cymraeg...

Dach chi'n gweld papur £20 ar y palmant...

Dach chi'n gweld rhywun yn taflu
sbwriel yn y parc...

Mae gan y tiwtor farmalêd
ar ei wyneb...

**Mynd ar goll**

Dach chi'n dallt mapiau?
Dach chi'n medru
dilyn cyfarwyddiadau?

Pa mor aml dach chi'n mynd ar goll
wrth yrru car neu wrth fynd am dro?

Dach chi'n dda am ffeindio eich ffordd o
gwmpas dinas ddieithr?

Dach chi'n nabod rhywun sy ddim yn medru
dilyn mapiau/cyfarwyddiadau?

Dach chi'n nabod pobol sy byth yn
mynd ar goll?

Dach chi wedi defnyddio GPS erioed?

 <p style="text-align: center;">Hanes</p>  <p>Be dach chi'n ei wybod am...?</p>  <p style="padding-left: 40px;">hanes eich tŷ ar tir</p>  <p style="padding-left: 40px;">hanes eich pentref/tref</p> <p style="padding-left: 80px;">hanes yr ardal</p> <p style="padding-left: 40px;">hanes eich mam/tad</p> <p style="padding-left: 40px;">hanes eich nain/taid</p> <p style="padding-left: 40px;">hanes eich tiwtor(iaid)</p> <p style="padding-left: 40px;">hanes eich cymdogion</p> <p style="padding-left: 40px;">hanes yr iaith Gymraeg</p>	 <p style="text-align: center;">Siopa</p>  <p>Pa mor aml dach chi'n siopa?</p>  <p>Pa fath o siopau dach chi'n eu hoffi?</p>  <p>Pa siopau dach chi ddim yn eu hoffi?</p> <p style="padding-left: 80px;">Lle dach chi'n mynd i siopa?</p> <p style="padding-left: 40px;">Pa mor aml dach chi'n siopa mewn dinas fawr?</p> <p style="padding-left: 40px;">Ydy hi'n bwysig cefnogi siopau lleol? Be dach chi'n ei brynu'n lleol?</p> <p style="padding-left: 40px;">Dach chi'n prynu pethau ar y we?</p> <p style="padding-left: 40px;">Pryd fyddwch chi'n siopa nesa?</p> <p style="padding-left: 40px;">Dach chi'n hoffi prynu pethau ail-law mewn siopau elusen?</p> <p style="padding-left: 40px;">Tasai gynnoch chi fwy o bres, fasech chi'n siopa mwy?</p>
 <p style="text-align: center;">Sut mae pethau wedi newid?</p>  <p>Sut oeddech chi'n edrych...</p>  <p>pan oeddech chi'n blentyn?</p>  <p style="padding-left: 40px;">yn eich arddegau?</p>  <p style="padding-left: 40px;">(yn eich 30au?/yn eich 40au?)</p> <p style="padding-left: 40px;">Sut mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd...?</p> <p style="padding-left: 80px;">e.e. ffasiwn?</p> <p style="padding-left: 80px;">cerddoriaeth bop?</p> <p style="padding-left: 80px;">teledu/radio?</p> <p style="padding-left: 80px;">plant?</p> <p style="padding-left: 40px;">clywed/darllen y newyddion?</p> <p style="padding-left: 80px;">ffonau?</p>	 <p style="text-align: center;">Gwyliau</p>  <p>Pa mor aml dach chi'n cael gwyliau?</p>  <p>Pa mor aml dach chi'n mynd i ffwrdd?</p>  <p>Dach chi'n aros yng Nghymru, ym Mhrydain, neu dach chi'n mynd dramor?</p> <p style="padding-left: 40px;">Efo pwy dach chi'n mynd ar wyliau?</p> <p style="padding-left: 40px;">Pwy sy'n dewis lle dach chi'n mynd?</p> <p style="padding-left: 80px;">Lle fasech chi'n hoffi mynd?</p> <p style="padding-left: 40px;">Disgrifiwch eich gwyliau diwetha.</p> <p style="padding-left: 40px;">Pryd fydd eich gwyliau nesa? I le?</p> <p style="padding-left: 40px;">Sut dach chi'n penderfynu lle i fynd - pres/plant/anifeiliaid/tywydd ...?</p>



Y Gwrthwyneb

Pwy dach chi'n nabod sydd â

tŷ taclus/tŷ blêr
 car newydd/hen gar
 gardd fawr/gardd fach
 ci cyfeillgar/ci ffyrnig
 swydd ddiddorol/swydd ddiflas
 plant neis/plant ofnadwy
 partner tal/partner byr
 gwallt hir/gwallt byr
 synnwyr cyffredin/
 dim synnwyr cyffredin



Arferion

Trafodwch eich arferion drwg -

e.e. -

smocio
 gyrru'n rhy gyflym
 rhegi
 bod yn hwyr
 bwyta/yfed gormod
 gwario gormod o bres
 bwyta'r pethau anghywir
 peidio â chadw'n heini
 cwyno
 deud celwydd
 gyrru yn lle cerdded
 bod yn ddiamynedd



Breuddwydion

Pa mor aml dach
 chi'n breuddwydio?
 Gaethoch chi freuddwyd neithiwr?

Oes 'na bethau sy'n gwneud i
 chi freuddwydio?

Dach chi'n medru cofio breuddwydion?

Dach chi'n cael hunllefau?

Oes 'na freuddwydion dach chi'n eu cael
 dro ar ôl tro?

Dach chi'n breuddwydio mewn du a gwyn neu
 mewn lliw?

Dach chi wedi breuddwydio yn Gymraeg?

Dach chi'n meddwl bod neges neu
 ystyr arbennig mewn breuddwydion?



Hen bethau

Be ydy'r pethau hyna
 yn eich tŷ chi?

Be ydy eu hoed nhw?

Lle gaethoch chi nhw?

Ydyn nhw'n werth llawer o bres?

Fasech chi'n eu gwerthu nhw?

Oes 'na hen bethau yn nhai eich
 ffrindiau/teulu chi?

Dach chi'n mwynhau edrych ar
 raglenni fel *Antiques Roadshow*?

Sgynnoch chi ddiddordeb mewn...
 hen ddodrefn/hen luniau/
 hen lestri/hen deganau/
 hen beiriannau/hen lyfrau?

Dach chi'n hoffi siopau sy'n gwerthu
 pethau ail-law?

Dach chi wedi prynu bargaen mewn
 sêl cist car erioed?

Pryd aethoch chi i amgueddfa ddiwetha?

**Eich bywyd cymdeithasol**

Lle dach chi'n mynd
i gymdeithasu?



Pa mor aml dach chi'n mynd
allan efo ffrindiau?



Dach chi'n cymdeithasu efo pobol yn y
gwaith?/yn y dosbarth?/cymdogion?

Be fasech chi'n medru ei wneud i wella eich
bywyd cymdeithasol?

Ydy bywyd cymdeithasol yn haws
yn y dref nag yn y wlad?

Ydy cymdeithasu'n ddrudd? Faint dach chi'n ei
wario ar gymdeithasu?

Lle a phryd fyddwch chi'n mynd allan nesa i
gymdeithasu?

**Eich barn chi**

Ddylai pobol gael ysmegu mewn
gardd gwrw?



Oes 'na ddigon o blismyn
ar y strydoedd?



Oes 'na ormod o drais a rhyw
ar y teledu?

Ddylai tai fod yn rhatach?

Oes 'na ormod o gamerâu cyflymder?

Ydy athrawon yn gweithio'n galed?

Ydy plant yn waeth y dyddiau yma?

Ddylai petrol fod yn rhatach?

Ddylai pawb yng Nghymru ddysgu Cymraeg?

Be ddylai'r Llywodraeth ei wneud?

**Ail gyfle**

Tasai hi'n bosib ail-fyw
eich bywyd



eto, be fasech chi'n ei
wneud yn wahanol?



Pethau i feddwl amdany'n nhw -

ysgol / coleg / prifysgol

cariad / priodi / plant

gwaith / gyrfa

ffrindiau

lle i fyw / symud tŷ

gwario pres

iechyd / cadw'n heini

teithio

**Cysgu**

Ydy cwsg yn bwysig i chi?



Pa un sy'n well gynnoch chi -
matres feddal neu un galed?



Faint o gwsg dach chi'n ei gael bob nos?
Fasech chi'n hoffi mwy?

Fasech chi'n hoffi cael siesta
yn y prynhawn?

Dach chi wedi cysgu yn y car erioed?

Ar y sofa?/Ar y llawr?

Dan y sêr?/Mewn cyfarfod?

Dach chi'n cael traferth i
ddefro yn y bore?

Dach chi wedi gwneud gwaith *shift* erioed, a
gorfod cysgu yn ystod y dydd?

**Pa fath o berson dach chi?**

Dach chi'n berson ?



prydlon/hwyr



taclus/blêr

bodlon/sy'n cwyno

trefnus/di-drefn

amyneddgar/diamynedd

optimistaidd/pesimistaidd

hwyllog/blin

Be am y bobol eraill yn y dosbarth, yn eich barn chi?

**Be dach chi'n ei feddwl?**

Be dach chi'n ei feddwl o...?



traffig ar y ffyrdd

y Beatles

ffonau symudol

operâu sebon ar y teledu

twristiaid

S4C

bwyd llysieuol

**Yr Heddlu**

Pryd weloch chi blismon ddiwetha?



Oes 'na ddigon o blismyn ar ein strydoedd?

Dach chi'n nabod rhywun sy'n gweithio fel plismon(es)?

Fasech chi'n hoffi bod yn blismon(es)?

Dach chi wedi bod mewn swyddfa heddlu erioed?

Oes 'na ormod o gamerâu cyflymder ar y ffyrdd?

Ydy troseddu yn broblem yn eich ardal chi?

**Cerddoriaeth**

Dach chi'n mwynhau cerddoriaeth?



Pa fath o gerddoriaeth dach chi'n ei hoffi?



Oes 'na gerddoriaeth dach chi ddim yn ei hoffi?

Dach chi'n canu offeryn o gwbl?

Pryd a lle dach chi'n gwranddo ar gerddoriaeth?

Pa mor aml dach chi'n prynu cerddoriaeth? Sut?

Dach chi'n mwynhau cerddoriaeth fyw?

Lle dach chi wedi bod i wrando ar grwpiau/ bandiau/cerddorfeydd?

Uned 1

Mae'n bwysig asesu dysgu blaenorol yr unigolion yn y dosbarth yn ystod yr uned hon, a beth maen nhw'n ei gofio. Bydd amseru'r uned yn dibynnu ar y sefyllfa, ac mae'n bosib bydd angen mwy o weithgareddau adolygu. Yma, rydym yn adeiladu ar lefel Sylfaen.

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Mae gan bob tiwtor ei ddull ei hun o ddechrau dosbarth ond un syniad yw cael y dysgwyr i holi cwestiynau i chi am ychydig. Dylid wedyn rhannu'r dosbarth yn barau i edrych ar y pynciau cyfarwydd iawn a restrir ar ddechrau'r uned gan eu hannog i sgwrsio cymaint â phosib. Awgrymir gosod larwm/canu cloch ar ôl tair munud y tro cyntaf, ar ôl pedair munud gyda ail bartner ac ar ôl pum munud gyda thrydydd partner.

Cam 2 – Adolygu (Brawddegau trydydd person)

Disodli - Ceir cyfres o frawddegau i'w disodli sy'n adolygu treigladau a geirfa. Camgymeriad cyffredin iawn yw hepgor 'Mae' ar gychwyn brawddeg ac felly tanlinellir pwysigrwydd hyn yma. Gellir disodli'r geiriau a danlinellir yn y llyfr ar gyfer eich sefyllfa bersonol chi os y dymunir.

Siarad - Er mwyn annog siarad rhydd, gofynnwch i bawb ysgrifennu enwau tri pherson ar dri darn gwahanol o bapur sgrap. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri. Rhaid iddyn nhw drefnu'r enwau mewn un rhes yn ôl yr wyddor. Rhaid taflu dis, symud y cownter ar hyd y rhes a dweud cymaint â phosib am y person y mae ei enw ar y papur lle mae'r cownter yn stopio. Weyn rhaid troi'r papur drosodd gan fod y person hwnnw bellach allan o'r gweithgaredd a thafu'r dis eto. Anogwch y ddau aelod arall yn y grŵp i ofyn o leiaf un cwestiwn am bob person.

Pwy sy'n byw ar y stryd? - Gwaith pâr. Mae'r wybodaeth yn y tai yn disgrifio'r bobl sy'n byw yn y rhifau cyfatebol yn y stryd. Dylech chi foddu'r un cyntaf ac yna rhannu'r dosbarth yn barau i greu brawddegau,

e.e. Mae pump o bobl yn byw yn rhif 1 – Tudur a Mari, a'r plant – Elin, Siôn a Gwyn. Mae Mari'n gweithio fel meddyg ac mae Tudur yn gweithio fel tiwtor. Mae Nia yn naw oed, mae Siôn yn saith ac mae Gwyn yn un.

Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl gan roi sylw i gywirdeb.

Siarad - Cymdogion. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd o dri. Ceir cwestiynau yma ond dylid pwysleisio mai syniadau yn unig yw'r cwestiynau ac mae croeso i'r dysgwyr ddilyn unrhyw drywydd. Bydd angen mynd drwy'r cwestiynau i wneud yn siŵr bod pawb yn deall.

Cam 3 - Geirfa

Yna, ewch at yr eirfa. Fel arfer, dylid mynd dros yr eirfa cyn cychwyn uned achos bod disgwyl i'r dysgwyr fod wedi ymgyswrtio â geirfa'r uned ymlaen llaw.

Gallwch ddefnyddio unrhyw ddull sy'n effeithiol i chi, e.e. Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner. Yna gofynnwch iddyn nhw edrych ar eirfa uned 1. Does dim cyswllt rhwng llawer o'r geiriau felly yma gofynnwch "Beth yw/Be ydy.....yn Gymraeg?" neu esboniwch y gair e.e. "Beth dych/Be dach chi'n galw pobl sy yn yr ysbyty?" Mae'r person sy'n gweiddi'r gair allan gyntaf yn cael marc i'w dîm/thîm. Rhaid i chi gael pawb i ailadrodd y gair dair gwaith. Bydd hyn yn gwneud y geiriau yn gyfarwydd pan fyddan nhw'n eu gweld mewn cyd-destun, ac mae'n ymarfer ynganu da.

Cam 4 - Adolygu amseroedd gwahanol – dros y penwythnos

Does dim gwaith newydd yma ond mae'n bosib y bydd angen cryn dipyn o ymarfer ar yr amserau gwahanol. Gofynnwch i'r dosbarth edrych ar y llyfr. Gofynnwch y cwestiwn cyntaf i'r dosbarth a gofyn iddyn nhw ddarllen yr ateb fel côr. Yna gofynnwch iddyn nhw ofyn y cwestiwn i chi fel côr. Atebwch yn llawn, mewn rhyw dair neu bedair brawddeg. Gwnewch yr un peth gyda'r tri bloc nesaf, gan oedi i ddrilio rhagor o enghreifftiau yn ôl yr angen. Yna, bydd angen i'r dosbarth grwydro i holi ei gilydd, gan siarad ag o leiaf pum partner gwahanol. Gellir cynnal sesiwn adrodd yn ôl lle bydd aelodau'r dosbarth yn dweud a oes ganddynt rywbeth yn gyffredin â rhywun arall yn y dosbarth. Yn dibynnu ar allu a hyder y dosbarth, gellir cynnal sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person.

Cam 5 – Ymarfer ffwythiant - Cyfarch a chyflwyno

Gwranddo - Dechreuir gyda'r sgiliau goddefol, cyn gofyn i'r dysgwyr gynhyrchu'r iaith eu hunain. Dylid gadael i barau gymharu eu hatebion cyn adrodd yn ôl, gan ddweud ble basen nhw'n debygol o glywed y gwahanol gyfarchion. Atebion:

1. Yn yr ysgol.
2. Mewn parti
3. Yn y swyddfa.
4. Mewn cyfarfod o'r gymdeithas Gymraeg leol.

Dyma'r sgriptiau:**Sgript y De:**

Mari: Bore da, Mari dw i, y pennaeth. Dyma'r ddau athro Cymraeg arall, Dafydd a Nia.

Ben: Bore da. Ben dw i. Dw i'n edrych ymlaen at weithio yma.

Mari: Croeso cynnes aton ni. Hoffech chi gael paned?

*

Gwen: Helo, Sam. Sut wyt ti ers oesoedd? Mae'n noson dda. Gyda llaw, dyma fy mhartner i, Mair.

Sam: Braf cwrdd â ti, Mair. Gobeithio bod Gwen yn gofalu amdanat ti heno.

*

Elin: Bore da, bawb. Gaf i eich sylw chi am funud os gwelwch yn dda? Hoffwn i gyflwyno John, ein rheolwr swyddfa newydd. Mae John yn gweithio i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd ond bydd e'n ymuno â ni ar ddiwedd y mis.

John: Diolch, Elin. Gwela i chi i gyd ar ddiwedd y mis. Dw i'n edrych ymlaen at ddechrau.

*

Cadeirydd: Noswaith dda a chroeso cynnes i gyfarfod cynta'r flwyddyn. A chroeso arbennig wrth gwrs i Dan Evans, ein siaradwr heno. Mae Dan yn dod o Aberystwyth yn wreiddiol ond erbyn hyn mae e'n byw yn Abertawe. Mae e'n awdur prysur iawn. Mae e wedi ysgrifennu pum nofel i bobl ifanc a dwy nofel i oedolion. A llongyfarchiadau Dan ar ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae e wedi dod aton ni heno i siarad am ei waith.

Dan: Diolch yn fawr am y croeso.

Sgript y Gogledd:

Mari: Bore da, Mari dw i, y pennaeth. Dyma'r ddau athro Cymraeg arall, Dafydd a Nia.

Ben: Bore da. Ben dw i. Dw i'n edrych ymlaen at weithio yma.

Mari: Croeso cynnes aton ni. Fasech chi'n licio cael paned?

*

Gwen: Helo, Sam. Sut wyt ti ers oesoedd? Mae'n noson dda. Gyda llaw, dyma fy mhartner i, Mair.

Sam: Braf dy gyfarfod di, Mair. Gobeithio bod Gwen yn gofalu amdanat ti heno.

*

Elin: Bore da, bawb. Ga i eich sylw chi am funud os gwelwch yn dda? Mi hoffwn i gyflwyno John, ein rheolwr swyddfa newydd. Mae John yn gweithio i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd ond mi fydd o'n ymuno â ni ar ddiwedd y mis.

John: Diolch, Elin. Mi wela i chi i gyd ar ddiwedd y mis. Dw i'n edrych ymlaen at ddechrau.

*

Cadeirydd: Noswaith dda a chroeso cynnes i gyfarfod cynta'r flwyddyn. A chroeso arbennig wrth gwrs i Dan Evans, ein siaradwr heno. Mae Dan yn dŵad o Aberystwyth yn wreiddiol ond erbyn hyn mae o'n byw ym Mangor. Mae o'n awdur prysur iawn. Mae o wedi sgwennu pum nofel i bobl ifanc a dwy nofel i oedolion. A llongyfarchiadau Dan ar ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae o wedi dŵad aton ni heno i siarad am ei waith.

Dan: Diolch yn fawr am y croeso.

Darllen – Mae'r un nod yn cael ei ymarfer yn yr ymarfer darllen, sef penderfynu ble basai'r cyflwyniadau'n debygol o gael eu clywed. Ar ôl mynd dros yr atebion ac er mwyn ymarfer y brawddegau hyn, rhaid i bawb ddewis un 'cyflwyniad' a'i ysgrifennu. Gellid ei ddysgu os yn bosib. Maent wedyn yn cerdded o gwmpas yn dweud y 'cyflwyniad' nes cael hyd i bartner a ysgrifennodd yr un peth. Dyma'r atebion:

Dyma Jac, hen ffrind coleg sy'n aros gyda/efo fi heno.	yn y dafarn
Dyma fy nghydweithwyr sy'n gweithio yn swyddfa Llandudno.	mewn cyfarfod gwaith
Dyma Dyfan Jones, ein siaradwr heno.	mewn Cymdeithas leol
Dyma Dafydd Roberts, eich tiwtor newydd.	yn y dosbarth
lawn blant, dyma Nia Roberts sy wedi dod/dŵad i siarad â ni heddiw. Dwedwch/Dudwch 'Bore da'.	mewn ysgol
Mam a Dad, dyma Sam, fy mhartner i.	yn y tŷ
Croeso cynnes i bawb. Ac i agor y neuadd, 'dyn/dan ni'n lwcus iawn i gael actor enwog gyda/efo ni. Rhowch groeso i Ifan Williams.	mewn agoriad neuadd
Bore da, Doctor Davies. Dyma Mari Jones. Daeth/Mi ddôth hi yma i Ward 5 ddoe ar ôl cwmpo/syrthio yn ei chartre.	mewn ysbyty

Gêm - Rhowch un beiro ac un dis i bob pâr. Mae'r partneriaid yn taflu'r dis bob yn ail. Wrth daflu 6, mae'r partner yn dechrau llenwi'r cyfieithiadau yn y grid ac yn parhau i wneud nes bod y partner yn taflu 6 ac yn cymryd y beiro. Yr enillydd ydy'r person sy'n llenwi'r grid gyntaf. Dylid annog y dysgwyr i beidio ag edrych yn ôl ar yr atebion.

Gwyllo – Dangoswch y fideo a gadewch i barau drafod beth welon nhw. Yna, gofynnwch iddyn nhw feddwl am ddau gwestiwn i'w gofyn i'r dosbarth am y fideo. Chwaraewch y fideo eto. Rhowch gyfle iddyn nhw ysgrifennu'r cwestiynau. Casglwch y cwestiynau. Ysgrifennwch y cwestiynau yn gronolegol ar y bwrdd gwyn, yna gofynnwch i'r parau ateb y cwestiynau i gyd. Croeso i chi feddwl am ambell gwestiwn wrth gefn hefyd!

Os nad oes modd dangos y fideo yn y dosbarth, gosodwch y dasg ysgrifennu dau gwestiwn fel gwaith cartref, a gellir gosod y cwestiynau i gyd fel gwaith cartref yr wythnos wedyn.

Sgwrs - Chwaraewch y sgwrs. Ar ôl un gwrandawriad, gofynnwch pwy sy'n siarad, ble maen nhw, a pham? Chwaraewch y sgwrs eto tra maen nhw'n edrych ar y sgript a gofynnwch i bawb danlinellu unrhyw beth sy ddim yn glir/ddealladwy. Wedyn, rhannwch yn barau i ddarllen y sgript ac yna disodli'r elfennau a danlinellir. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri ar gyfer y dasg siarad.

Cam 6 – Arholiad Canolradd

Ni thynnir sylw penodol at y ffaith mai gwaith arholiad yw hwn, ond ceir eicon i ddynodi pryd ceir elfennau o'r arholiad o fewn y cwrs. Gall tiwtoriaid benderfynu pryd mae'n briodol i dynnu sylw at y ffaith mai gwaith arholiad sydd yn yr adrannau hyn.

Cyflwyniad byr iawn i'r arholiad a geir yma, sy'n cyd-fynd â'r ffwythiant 'cyfarch a chyflwyno'. Gadewch i'r dosbarth wrando hyd at dair gwaith er mwyn llenwi'r bylchau. Dyma'r atebion:

Prynhawn da a **chroeso** i'r *Awr Gerdd*. Gyda ni **heddiw** mae Anwen Jones, arweinydd Côr y Bryniau. Mewn **pythefnos**, bydd y côr yn mynd ar daith i **Awstralia**, ac mae Anwen wedi dod i'r stiwdio i roi tipyn o'i hanes hi a'r côr cyn **iddyn** nhw adael. Croeso, Anwen.

Cam 7 – Robin Radio

Ceir tair egwyddor yma.

- a) Gwrando am wybodaeth.
- b) Gwrando am ymadroddion newydd.
- c) Cyfieithu brawddegau er mwyn adolygu.

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch ddis i bob pâr. Ceir isod bynciau syml iawn ar bwys pob rhif. Rhaid taflu'r dis a siarad mor hir â phosib (hyd at funud) ar y pwnc. Os bydd person yn taflu'r un rhif ddwywaith, rhaid symud at y golofn nesaf. Ni ddylai hyn bara am fwy na deng munud.

- | | |
|------------------------|--------------------|
| 1. Brecwast | 1. Cinio |
| 2. Neithiwr | 2. Yfory |
| 3. Dydd Sadwrn diwetha | 3. Dydd Sul |
| 4. Ceir | 4. Fy ffôn symudol |
| 5. Nofio | 5. Cerdded |
| 6. Teledu | 6. Y Sinema |

Cam 9 – Geirfa Uned 2

Uned 2

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Adolygir amserau'r presennol, amherffaith, dyfodol ac amodol yn Uned 1. Ailgylchir y rhain yn y Siarad Cychwynnol, ac ychwanegir y perffaith a'r gorffennol cryno. Paratowch drwy wneud yn siŵr bod pawb yn gallu gofyn pob cwestiwn yn gywir ac yn gwybod sut i ateb yn gadarnhaol ac yn negyddol. Rhaid ceisio cael un enw ar bob llinell. Nod y gweithgaredd hwn yw meithrin sgiliau llafar felly rhaid annog cymaint o ymestyn â phosib.

Cam 2 – Cyflwyno Byth ac Erioed

Byth - Cyn cyflwyno 'byth', gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gymaint â phosib o frawddegau person cyntaf negyddol yn yr amser presennol. Rhowch ychydig o enghreifftiau, e.e. Dw i ddim yn yfed te/Dw i ddim yn siopa ar y we. Esboniwch eich bod yn mynd i ddysgu sut i gryfhau'r ystyr trwy gyflwyno'r gair byth. Driliwch y bloc gan roi cyfle i bobl ddewis un frawddeg o'r dewis sy'n berthnasol iddyn nhw ac yna personoli trwy greu brawddegau newydd.

Ewch ymlaen i'r bachgen da/bachgen drwg. Darllenwch dros yr arferion da gyntaf a gofynnwch am fwy o awgrymiadau os dymunwch. Yna, darllenwch dros yr arferion drwg. Mae'r holiadur wedyn yn gyfle i'r dosbarth drafod arferion. Ceir bwch gwag ar waelod y tabl er mwyn ychwanegu categori o ddewis y tiwtor/dosbarth/unigolyn. Rhaid cyfrif faint o bobl sydd yn y categorïau gwahanol ar gyfer yr ymarfer adrodd yn ôl. Bydd angen dangos mai cystrawen negyddol a ddefnyddir gyda 'byth' ac ymarfer 'Dydy/Dyw X o bobl byth yn.....'.

Driliwch floc yr amodol gan unwaith eto roi cyfle i'r dysgwyr ddewis brawddeg sy'n berthnasol iddyn nhw gyntaf ac yna personoli'n llwyr. Yna, ceir holiadur arall i ymarfer y patrwm.

Erioed - Y cam nesaf yw cyflwyno 'erioed'. Yn gyntaf, driliwch y cwestiynau, gan roi cyfle ar gyfer disodli'r elfen a danlinellir bob tro. Yna, symudwch at yr ail ddril. Cyn cychwyn, gofynnwch sut mae cyfieithu 'I haven't been in Sbaen/I haven't driven a Mini' ac ati. Esboniwch eich bod nawr yn mynd i ddysgu sut i gryfhau'r ystyr yma. Driliwch y pedair brawddeg, gofynnwch i bawb ddewis un berthnasol o'u plith, ac yna gofynnwch i bawb personoli'n llwyr.

Cam 3 – Dysgu unwaith, dwywaith, tair gwaith ac ati

Er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol, gofynnwch i bawb am ffurfiau benywaidd 2, 3, 4. Yna, gwnewch ddril cyflym i adolygu'r patrwm treiglo gydag enwau cyffredin. Yna, gofynnwch i bawb ddweud ar eich ôl chi:

“Unwaith, dwywaith, tair gwaith, pedair gwaith, pum gwaith, chwe gwaith, saith gwaith, wyth gwaith, naw gwaith, deg gwaith” Dylid gwneud hyn nifer o weithiau - fel rap os medrwch chi! Driliwch y bloc.

Yna, rhowch gerdyn o Atodiad 1 i bawb. Dewiswch y rhai mwyaf perthnasol i'ch dosbarth. Dylid cadw'r un cerdyn am y gweithgaredd cyfan. Rhaid i bawb ateb yn onest, gan gynnwys ymarfer 'Dw i erioed wedi XX'. Bydd angen dysgu hefyd "Mwy na deg gwaith". Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 4 – Ymarfer ffwythiant - Cwyno

Deialogau - Rhoddir sgaffaldau ar gyfer iaith cwyno ar ffurf dwy ddeialog. Chwaraewch y ddeialog ar ei hyd gyntaf. Yr ail dro, stopiwch ar ôl pob llinell gan ofyn i'r dysgwyr ailadrodd y geiriau. Ysgrifennwch nhw ar y bwrdd gwyn. Pan fydd gennyh ddeialog lawn, gall parau ymarfer darllen. Gwnewch yr un peth gyda'r ail ddeialog. Yn olaf, gofynnwch i bob pâr roi tro ar fod mewn siop yn ceisio mynd â rhywbeth yn ôl. Rhaid iddyn nhw gael y ddau brofiad – y siopwr a'r cwsmer.

Gwranddo - Chwaraewch y darnau gwranddo (negesuon ffôn) a gofyn i barau ddyfalu pwy fydd yn derbyn y negeseuon:

Sgript y De:

1. Dw i'n siomedig iawn bod Cerddorfa'r ysgol yn gorffen yn yr Haf. Roedd hi'n ddigon drwg pan roedd rhaid i bawb dalu am fenthyg yr offerynnau cerdd. Pwy fydd yn canu'r fflwt yma mewn 10 mlynedd?

Pennaeth ysgol/athro cerdd yr ysgol/pennaeth cerdd yr ysgol

2. Dw i'n poeni bod eich cangen leol yn mynd i gau bob dydd Llun, Mawrth a Mercher. Mae llawer o hen bobol yn dibynnu ar eich gwasanaeth ac mae'r peiriant twll yn y wal yn torri yn aml. A beth am stondinwyr y farchnad? Ble maen nhw'n mynd i gael newid mân yng nghanol y diwrnod?

Rheolwr banc

3. Dw i'n gweld llawer o wastraff bwyd yn eich biniau. Pam dych chi ddim yn gallu rhoi bwyd sy'n dod at ddiwedd ei ddyddiad gwerthu i'r banc bwyd yn y dre? Basai'n helpu enw da'r cwmni yn y dre.

Rheolwr archfarchnad leol

4. Rhaid i fi ddweud wrthoch chi bod gitâr drydan eich merch yn cadw pawb yn ein tŷ ni ar ddihun. Dw i'n gwybod eich bod chi'n meddwl ei bod hi'n dalentog, a rhaid i bawb ddechrau rhywle, ond dyw cadw sŵn ar ein stryd ni tan yr oriau mân ddim yn iawn....

Person sy'n byw yn y stryd/cymydog

5. Mae baw ci yn broblem fawr, heb sôn am boteli wedi torri, ac mae pawb yn gwybod bod pobl yn mynd yno i gymryd cyffuriau. Rhaid i chi wneud rhywbeth ar unwaith, ble mae ein plant i fod i chwarae?

Cynghorydd lleol/warden parc lleol

Sgript y Gogledd

1. Dw i'n siomedig iawn bod Cerddorfa'r ysgol yn gorffen yn yr Haf. Roedd hi'n ddigon drwg pan roedd rhaid i bawb dalu am fenthg yr offerynnau cerdd. Pwy fydd yn canu'r fflwt yma mewn 10 mlynedd?

Pennaeth ysgol/athro cerdd yr ysgol/pennaeth cerdd yr ysgol

2. Dw i'n poeni bod eich cangen leol yn mynd i gau bob dydd Llun, Mawrth a Mercher. Mae 'na lawer o hen bobol yn dibynnu ar eich gwasanaeth ac mae'r peiriant twll yn y wal yn torri yn aml. A be am stondinwyr y farchnad? Lle maen nhw'n mynd i gael newid mân yng nghanol y diwrnod?

Rheolwr banc

3. Dw i'n gweld llawer o wastraff bwyd yn eich biniau. Pam dach chi ddim yn medru rhoi bwyd sy'n dŵad at ddiwedd ei ddyddiad gwerthu i'r banc bwyd yn y dre? Mi fasai'n helpu enw da'r cwmni yn y dre.

Rheolwr archfarchnad leol

4. Rhaid i mi ddweud wrthoch chi bod gitâr drydan eich merch yn cadw pawb yn ein tŷ ni yn effro. Dw i'n gwybod bod chi'n meddwl bod hi'n dalentog, a rhaid i bawb ddechrau rhywle, ond dydy cadw sŵn ar ein stryd ni tan yr oriau mân ddim yn iawn....

Person sy'n byw yn y stryd/cymydog

5. Mae baw ci yn broblem fawr, heb sôn am boteli wedi torri, ac mae pawb yn gwybod bod pobl yn mynd yno i gymryd cyffuriau. Rhaid i chi wneud rhywbeth ar unwaith, lle mae ein plant i fod i chwarae?

Cynghorydd lleol/warden parc lleol

Gwyllo – Dangoswch y fideo y tro cyntaf heb osod unrhyw dasg. Yna, chwaraewch y fideo ddwywaith eto i'r dysgwyr baru'r ffeithiau yn y tabl. Rhowch gyfle i barau drafod eu hatebion cyn cynnal sesiwn adrodd yn ôl.

Atebion:

bws	yn hwyr
tîm rygbi	yn dathlu
traffyrdd Ffrainc	diflas
cwch modur	rhy ddrud
glaw	drwy'r wythnos
liff	wedi torri
pizzas	blasus
Giovanni	hyfryd
bagiau	yn yr Eidal
caws Gorgonzola	yn y cesys

Siarad: Yna, rhowch gyfle i barau greu deialog yn cwyno am wyliau aflwyddiannus mewn siop wyliau. Rhaid iddyn nhw benderfynu pwy sy'n gweithio yn y siop a phwy sy'n cwyno.

Gwranddo – Mae'r darn hwn wedi'i addasu o gwestiwn ar bapur arholiad Canolradd. Cwyno yw'r thema. Mae'r dysgwyr yn cael clywed y darn dair gwaith.

Cwestiwn ieithyddol – creu cyfleoliadau gyda'r gair 'cwmni', e.e. cwmni lleol, cwmni bach, cwmni mawr, cwmni da, cwmni ffrindiau.

Sgript y De:

A. Bore da. Croeso i'r rhaglen 'Chwarae Teg'. I ddechrau, 'dyn ni'n mynd i glywed hanes Mrs Martha Jones sy'n dod o Lanodyn. Cafodd hi brofiad eitha cas yn ddiweddar. Mrs Jones, croeso i'r rhaglen. Dwedwch beth ddigwyddodd i chi'n ddiweddar.

B. Helo. Wel, rhyw fore daeth cnoc ar y drws. Roedd dau ddyn yno'n gofyn a oedd angen peintio'r tŷ. Ro'n nhw'n siarad Cymraeg, felly gofynnais iddyn nhw ddod i'r tŷ.

A. Weloch chi gerdyn y 'peintwyr' yma ar y dechrau?

B. Naddo. Anghofiais i. Ro'n i'n dwp. Dw i'n gwybod hynny nawr. Ond ro'n i wedi bod yn chwilio am rywun i beintio'r gegin ar ôl i ni gael damwain fach.

A. Beth ddigwyddodd?

B. Wel, roedd y gŵr yn coginio sglodion ac anghofiodd e bopeth amdany'n nhw. Doedd dim llawer o dân, ond roedd un wal yn y gegin yn ddu. Felly roedd angen peintio'r lle.

A. Ga'i ofyn pam na wnaeth eich gŵr na chi y gwaith peintio?

B. O... 'dyn ni'n llawer rhy brysur. Wel, a bod yn onest dyw hynny ddim yn wir.

Mae'r ddau ohonon ni'n casáu gwneud gwaith ar y tŷ. Felly, pan alwodd y ddau ddyn yma, ro'n nhw'n ateb y broblem i ni.

A. Beth ddigwyddodd wedyn?

B. Wel, dewisais i baent melyn a thalais i ddau gan punt iddyn nhw.

A. Ac aeth y peintwyr ati'n syth?

B. Do. Es i i eistedd yn yr ardd, ac aeth y dynion ati i lanhau'r gegin a pheintio'r waliau. Chwarae teg, gweithion nhw'n gyflym iawn, ac mewn llai nag awr, ro'n nhw'n barod. Ond pan es i i weld y gegin, wel.. ro'n i bron â chrio.

A. Beth oedd yn bod ar y gwaith?

B. Roedd y waliau yn frown, ddim yn felyn! Gofynnais i iddyn nhw beintio popeth eto... ond na. Roedd rhaid iddyn nhw fynd i beintio cegin arall yn y dre, medden nhw.

A. Mae hynny'n ofnadwy Mrs Jones.

B. Ydy, gofynnais i am fy arian yn ôl, ond dwedon nhw 'na', dim o gwbl. A bant â nhw!

A. Sut byddwch chi'n cysylltu â'r cwmni, Mrs Jones? Gaethoch chi enw neu rif ffôn...

B. Ysgrifennais i rif y fan i lawr, felly dw i'n meddwl bydd yr heddlu'n gallu helpu. Y cwestiwn sy gyda fi yw: ydy hi'n bosib i fi gael fy arian yn ôl? Dw i ddim yn gallu byw mewn cegin liw brown am wythnos arall...

A. Dyna gwestiwn Mrs Jones felly. Beth yw'ch barn chi? Fydd hi'n gallu cael ei harian yn ôl? Ddylai hi fynd ar ôl y cwmni peintio yma? Ffoniwch ni ar 01234 654351...

Sgript y Gogledd:

A. Bore da. Croeso i'r rhaglen 'Chwarae Teg'. I ddechrau, dan ni'n mynd i glywed hanes Mrs Martha Jones sy'n dŵad o Lanodyn. Mi gaeth hi brofiad eitha cas yn ddiweddar. Mrs Jones, croeso i'r rhaglen. Deudwch be ddigwyddodd i chi'n ddiweddar.

B. Helo. Wel, rhyw fore mi ddaeth cnoc ar y drws. Roedd 'na ddau ddyn yno'n gofyn a oedd angen peintio'r tŷ. Roedden nhw'n siarad Cymraeg, felly mi ofynnnes i iddyn nhw ddŵad i'r tŷ.

A. Weloch chi gerdyn y 'peintwyr' yma ar y dechrau?

B. Naddo. Mi anghofies i. Ro'n i'n dwp. Dw i'n gwybod hynny nŵan Ond ro'n i wedi bod yn chwilio am rywun i beintio'r gegin ar ôl i ni gael damwain fach.

A. Be ddigwyddodd?

B. Wel, roedd y gŵr yn coginio sglodion ac mi anghofiodd o bopeth amdany'n nhw. Doedd 'na ddim llawer o dân, ond roedd un wal yn y gegin yn ddu. Felly roedd angen peintio'r lle.

A. Ga'i ofyn pam na wnaeth eich gŵr na chi y gwaith peintio?

B. O... dan ni'n llawer rhy brysur. Wel, a bod yn onest dydy hynny ddim yn wir.

Mae'r ddau ohonon ni'n casáu gwneud gwaith ar y tŷ. Felly, pan alwodd y ddau ddyn yma, roedden nhw'n ateb y problem i ni.

A. Be ddigwyddodd wedyn?

B. Wel, mi ddewises i baent melyn ac mi dales i ddau gan punt iddyn nhw.

A. Ac aeth y peintwyr ati'n syth?

B. Do. Mi es i i eistedd yn yr ardd, ac mi aeth y dynion ati i llau'r gegin a pheintio'r waliau. Chwarae teg, mi weithion nhw'n gyflym iawn, ac mewn llai nag awr, roedden nhw'n barod. Ond pan es i i weld y gegin, wel.. ro'n i bron â chrio.

A. Be oedd yn bod ar y gwaith?

B. Roedd y waliau yn frown, ddim yn felyn! Mi ofynnes i iddyn nhw beintio popeth eto... ond na. Roedd rhaid iddyn nhw fynd i beintio cegin arall yn y dre, medden nhw.

A. Mae hynny'n ofnadwy Mrs Jones.

B. Ydy, mi ofynnes i am fy mhres yn ôl, ond mi ddeudon nhw 'na', dim o gwbl. A ffwrdd â nhw!

A. Sut fyddwch chi'n cysylltu â'r cwmni, Mrs Jones? Gaethoch chi enw neu rif ffôn...

B. Mi sgwennes i rif y fan i lawr, felly dw i'n meddwl bydd yr heddlu'n medru helpu. Y cwestiwn sy gen i ydy: ydy hi'n bosib i mi gael fy mhres yn ôl? Dw i ddim yn medru byw mewn cegin liw brown am wythnos arall...

A. Dyna gwestiwn Mrs Jones felly. Be ydy'ch barn chi? Fydd hi'n medrlu cael ei phres yn ôl? Ddylai hi fynd ar ôl y cwmni peintio yma? Ffoniwch ni ar 01234 654351...

Cam 5 – Arholiad Canolradd

Tasg siarad – Trafod ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol sy dan sylw y tro hwn. Er mwyn cael tasg hawdd i gychwyn, rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r tabl. Yna, rhannwch nhw'n grwpiau o dri ar gyfer y gwaith llafar.

Cam 6 – Robin Radio

Atgyfnerthwch ymadroddion Uned 2

ar gornel eich stryd chi

Gofynnwch i bawb godi gan ofyn i'w gilydd Beth/Be sy ar gornel eich stryd chi?' Rhaid i bawb roi ateb synhwyrol.

Wnaiff e ddim digwydd eto.
Wneith o ddim digwydd eto.

Gofynnwch i barau feddwl am 2 gwyn, e.e. Ro't/ Roeddet ti'n swnllyd neithiwr/Mae dy waith cartref yn ofnadwy. Gwiriwch eu bod yn gywir a

ar hyn o bryd

Robin Radio Uned 3.

gofynnwch iddyn nhw ddysgu un ohonyn nhw. Maen nhw wedyn yn crwydro yn dweud eu cwyn, gyda'r partner yn ymateb 'Wnaiff e ddim/Wneith o ddim digwydd eto'.

Pawb ar eu traed yn holi ei gilydd 'Beth/Be sy yn y newyddion ar hyn o bryd?' Pwysleiswch fod yn rhaid cadw'r atebion yn fyr ac yn syml iawn.

Cam 7 – Gweithgaredd Cloi

Gêm y Gadair Wag - Rhowch y cadeiriau i gyd mewn cylch gydag un gadair wag. Eisteddwch yn y cylch gyda'r dysgwyr. Penderfynwch ar batrwm y byddai'n ddefnyddiol ei adolygu, e.e. Fasech chi'n hoffi XX? Dych/Dach chi'n nabod rhywun sy'n XX? Dych chi'n gallu XX?/Dach chi'n medru XX? Ar ôl penderfynu beth yw'r patrwm, e.e. Dych chi'n nabod rhywun sy'n gyrru Mini?, mae pawb sydd yn adnabod rhywun yn dweud 'Ydw', yn codi ac yn mynd at y gadair wag. Y person cyntaf i gyrraedd sy'n cael eistedd. Bydd hyn yn gadael cadair wag yn rhywle arall yn y cylch. Rhaid i ddysgwr y naill ochr i'r gadair wag ofyn cwestiwn ar yr un patrwm. Bydd pobl yn codi ac yn symud ac yn gadael cadair wag yn rhywle arall ac mae'r gêm yn mynd yn ei blaen. Ni ddylid chwarae am fwy na 5 – 10 munud.

Cam 8 – Geirfa Uned 3

Uned 2, Atodiad 1

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn Sain Ffagan?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod yn Sain Ffagan?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn Llandudno?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod yn y Mwmbwls?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod ar gopa'r Wyddfa?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod ar gopa'r Wyddfa?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod mewn Sadwrn Siarad?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod mewn Sadwrn Siarad?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod mewn eisteddfod?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod mewn eisteddfod?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod mewn gêm hoci iâ?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod mewn gêm hoci iâ?

Faint o weithiau wyt ti wedi neidio efo parasiwt?
Sawl gwaith rwyd ti wedi neidio gyda pharasiwt?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod mewn hofrennydd?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod mewn hofrennydd?

Faint o weithiau wyt ti wedi gweld Cymru yn chwarae rygbi yn fyw?
Sawl gwaith rwyd ti wedi gweld Cymru yn chwarae rygbi yn fyw?

Faint o weithiau wyt ti wedi cael trêen i Lundain?
Sawl gwaith rwyd ti wedi cael trêen i Lundain?

Faint o weithiau wyt ti wedi bod yn yr Alban?
Sawl gwaith rwyd ti wedi bod yn yr Alban?

Faint o weithiau wyt ti wedi siarad ar y radio?
Sawl gwaith rwyd ti wedi siarad ar y radio?

Faint o weithiau wyt ti wedi ennill ar y loteri?
Sawl gwaith rwyd ti wedi ennill ar y loteri?

Faint o weithiau wyt ti wedi prynu tŷ?
Sawl gwaith rwyd ti wedi prynu tŷ?

Faint o weithiau wyt ti wedi newid dy swydd?
Sawl gwaith rwyd ti wedi newid dy swydd?

Uned 3

Cam 1 – Sgwrsio cychwynnol

Ceir saith cwestiwn yn y llyfr cwrs ond maen nhw hefyd yn Atodiad 1. Argymhellir rhoi un cwestiwn i bawb er mwyn iddyn nhw gael holi ei gilydd. Ni ddylid cyfnewid cardiau ar gyfer y gweithgaredd hwn. Anogwch gymaint o ymestyn â phosib.

Cam 2- Adolygu byth ac erioed

Atgoffwch y dysgwyr o'r egwyddorion, gan roi rhai brawddegau enghreifftiol cyn troi at y grid. Dylid gofyn y cwestiynau heb ddefnyddio byth nac erioed, e.e. Dych chi'n mynd i ganolfannau garddio? Dych chi'n bwyta pysgod? Dylid annog pobl i ateb yn onest, e.e. Dw i'n mynd i ganolfan arddio unwaith y flwyddyn, Dw i'n bwyta pysgod bob wythnos. Does dim rhaid defnyddio byth neu erioed yn yr ateb. Ond, os defnyddir byth neu erioed, rhaid cadw cofnod.

Cam 3 – Atgyfnerthu geirfa.

Cyflwynir llawer o ansoddeiriau newydd o fewn cyd-destun mynegi barn yn yr uned hon. Felly, ceir ymarfer i fynd dros yr ansoddeiriau cyn troi at y patrwm. Gofynnwch i bawb gael hyd i bartner. Maen nhw'n mynd i fynd am dro (rhithiol) yn y mynyddoedd (o amgylch y ystafell) a rhaid iddyn nhw ymateb i'r ansoddeiriau byddwch chi'n eu galw. Er mwyn paratoi, bydd rhaid i chi ofyn yn gyntaf "Beth yw/Be ydy *excellent* yn Gymraeg?" Ewch trwy'r holl ansoddeiriau sy mewn print tywyll isod, gan greu meim i gyd-fynd â phob ansoddair. Darllenwch y stori'n araf gan or-bwysleisio'r ansoddeiriau. Rhaid i'r paru ailwneud y meim ar gyfer pob ansoddair.

Fersiwn y Gogledd

Dach chi ar wyliau cerdded ger Llanberis. Dach chi'n cychwyn allan o'r gwesty. Mae'r tywydd yn **rhagorol**, yn braf, yn heulog ond dipyn bach yn **rhewllyd**. Dach chi'n cael sgwrs ddifyr efo'ch gilydd wrth gerdded. Mae'r ffordd yn **droellog** ond dach chi'n mwynhau bod allan yn yr haul. Yn sydyn dach chi'n cyrraedd bryn – rhaid i chi ddringo'r bryn **serth** sy chydig bach yn **llithrig**. A deud y gwir, mae o'n **berylglus** pan dach chi'n dŵad lawr, a dach chi'n dechrau teimlo'n **flinedig** iawn. Mae hi'n dechrau bwrw eirlaw, dach chi'n teimlo'n **ddigalon**. Dach chi'n edrych ar y map, ond mae o'n **gymhleth**, dach chi ddim yn siŵr lle dach chi. Mae'r tywydd yn **annifyr** iawn. Dach chi'n **siomedig** bod chi ddim wedi cofio dŵad ag ymbarel. Ond ar ôl hanner awr, dach chi'n cyrraedd yn ôl i'r gwesty ac yn eistedd ar eich cadair **gyfforddus** wrth y tân ac ymlacio efo paned o siocled poeth. Mae'n **rhagorol!**

Fersiwn y De

Dych chi ar wyliau cerdded ger Llanberis yng Ngogledd Cymru. Dych chi'n cychwyn allan o'r gwesty. Mae'r tywydd yn **rhagorol**, yn braf, yn heulog ond tipyn bach yn **rhewllyd**. Dych chi'n cael sgwrs **ddfifyr** gyda'ch gilydd wrth gerdded. Mae'r ffordd yn **droellog** ond dych chi'n mwynhau bod ma's yn yr haul. Yn sydyn, dych chi'n cyrraedd bryn – rhaid i chi ddringo'r bryn **serth** sy ychydig bach yn **llithrig**. A dweud y gwir, mae e'n **beryllus** pan dych chi'n dod lawr, a dych chi'n dechrau teimlo'n **flinedig** iawn. Mae hi'n dechrau bwrw eirlaw, dych chi'n teimlo'n **ddigalon**. Dych chi'n edrych ar y map, ond mae e'n **gymhleth**, dych chi ddim yn siŵr ble dych chi. Mae'r tywydd yn **annifyr** iawn. Dych chi'n **siomedig** eich bod chi ddim wedi cofio dod ag ymbarél. Ond ar ôl hanner awr, dych chi'n cyrraedd y gwesty ac yn eistedd ar eich cadair **gyfforddus** wrth y tân i ymlacio gyda phaned o siocled poeth. Mae'n **rhagorol!**

Cam 4 - Y cymal enwol.Yr Amser Presennol

Atgoffwch y dosbarth o "dw i'n meddwl bod..." trwy ddefnyddio lluniau enwogion. Defnyddiwch y lluniau ddwywaith – y tro cyntaf i ymarfer 'Dw i'n meddwl bod...' a'r ail dro i ymarfer 'Dw i'n meddwl ei fod e/fod o/ei bod hi/bod hi...'. Yna, trowch at y driliau am y llyfr a'r ffilm sy yn y llyfr cwrs. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu enw ffilm ar ddarn o bapur. Ysgrifennwch yr ansoddeiriau canlynol ar y bwrdd gwyn: rhagorol/doniol/cyffrous/diddorol/diflas/ofnadwy/difyr/digalon/gwael/cymhleth/annifyr a heb weld. Casglwch y papurau a gofynnwch faint o bobl sy wedi gweld y ffilmiau. Dewiswch y pedair fwyaf poblogaidd a gofynnwch i'r dysgwyr nodi enwau'r pedair ffilm yn yr holiadur. Yna, rhaid crwydro a gweld beth ydy barn pawb am y ffilmiau. Fel cam olaf, dylid cynnal sesiwn adrodd yn ôl – e.e. Mae tri o bobl yn meddwl bod X yn ddiflas.

Os oes gennych le ar y bwrdd gwyn, ysgrifennwch dair colofn a nodi'r berfenw 'meddwl' yn y golofn gyntaf. Yna, cyn cyflwyno'r dril nesaf - dw i'n gwybod fy mod i – atgoffwch y dosbarth o'r treigladd trwynol b>f (fy mrawd i, fy mag i). Driliwch y bloc yn drylwyr gan roi cyfle i bawb bersonoli'r bedwaredd frawddeg. Yna, dosbarthwch gardiau Atodiad 2 fel bod gan bawb gerdyn gwahanol. Rhaid creu cwestiwn, e.e. 'Dych chi'n gweithio o'r tŷ yfory?' Rhaid i'r partner ymateb, "Dw i'n meddwl fy mod i./Dw i'n meddwl mod i". Gadewch i aelodau'r dosbarth gadw'r un cerdyn am ychydig ac yna dechrau cyfnewid cerdyn bob tro. Cyn troi ar y bloc dril nesaf, ysgrifennwch 'gwybod' o dan 'meddwl' yn eich colofn ar y bwrdd gwyn. Rydych yn dechrau dangos i'r dysgwyr pryd mae angen defnyddio 'bod'.

Cyn cyflwyno'r bloc nesaf, atgoffwch y dysgwyr o'r treigladd meddal yn dilyn 'dy' (dy fag di). Yna, driliwch y bloc – Wyt ti'n siŵr dy fod ti'n iawn?/Wyt ti'n siŵr fod ti'n iawn? – yn drylwyr. Cyflwynwch hefyd "Wrth gwrs fy mod i./Wrth gwrs mod i.". Ail-ddefnyddiwch gardiau Atodiad 2. Y tro hwn rhaid creu cwestiwn, e.e. "Wyt ti'n siŵr dy fod ti'n gweithio

yfory?/Wyt ti'n siŵr fod ti'n gweithio yfory?" gyda phawb yn ymateb 'Wrth gwrs fy mod i./Wrth gwrs mod i'. Fel arfer, rhowch amser i bobl ddod i arfer â hyn trwy ddefnyddio'r un cerdyn, ac yna rhaid newid cerdyn bob tro. Dychwelwch at eich colofnau ar y bwrdd gwyn gan nodi 'siŵr' yn yr ail golofn (ansoddeiriau) ac 'wrth gwrs' yn y drydedd (arall). Atgoffwch y dosbarth o'r rhagenwau ein, eich ac eu a chyflwynwch y bloc nesaf - Dw i'n siomedig...

Ychwanegwch yr ansoddair 'siomedig' at yr ail golofn ar y bwrdd.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer gyda thri dis. Cyn cychwyn, nodwch 'gobeithio' yn y golofn gyda'r berfenwau a 'tebyg' yng ngholofn yr ansoddeiriau.

Ceisiwch newid partneriaid i wneud y gwaith paru brawddegau. Cyn i'r paru ddechrau, ychwanegwch at y colofnau eto – efallai/ella, sicr, clywed, posib.

Y Dyfodol

Cyn troi at y brawddegau yn y llyfr, rhowch gerdyn unigol i bedwar o bobl: Dw i'n clywed / bydd / y cyngerdd / yn llawn. Rhaid iddynt drefnu eu hunain yn frawddeg resymegol. Dylid dangos na ddefnyddir bod gyda'r dyfodol. Yna, gellir disodli'r elfennau gwahanol – clywed – y cyngerdd – yn llawn.

Os yn bosib, defnyddiwch luniau i ddrilio'r tywydd, er mwyn cael digon o ymarfer ar y pedair brawddeg wahanol. Yna, gofynnwch i bob pâr ddisgrifio'r tywydd tebygol ym mhob tymor a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Trefnu cyfarfod - Cyn y gweithgaredd nesaf, ychwanegwch 'credu' at y golofn gyntaf a darllenwch dros y pum brawddeg a geir yn y llyfr cwrs. Nod y gweithgaredd yw canfod cyfnodau pryd bydd y ddau bartner yn rhydd i gyfarfod. Rhaid nodi'r pum esgus mewn gwahanol gyfnodau amser yn y tabl. Mae hyn yn gadael chwe blwch yn wag. Pan fydd un partner yn holi 'Fyddi di'n rhydd?', bydd y partner arall yn ateb naill gyda trwy nodi'r esgus neu drwy ddweud 'Bydda, bydda/mi fydda i'n rhydd'. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl i'r paru ddweud pryd byddan nhw'n rhydd.

Yr Amodol

Gwrandewch fel dosbarth ar **Sgwrs** 1. Ar ôl gwrandawriad 1 neu 2, gofynnwch beth yw'r sefyllfa, a faint o bobl sy'n siarad. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar os ydy hynny'n bosib, neu dewiswch bedwar dysgwyr hyderus i "actio" y sgwrs o flaen y dosbarth.

Defnyddir y ddeialog hon, yn hytrach na dril, i gyflwyno'r amodol mewn cymal enwol a nodir yr enghreifftiau. Os byddwch chi eisiau ymarfer y brawddegau hyn, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un i'w dysgu a chrwydro nes canfod y person a ddewisodd yr un frawddeg.

Cam 5 – Ymarfer ffwythiant - Mynegi Barn.

Mae'r ffwythiant yma'n un pwysig felly mae'n cael ei ymarfer mewn amrywiol ffyrdd. Yma, mae pynciau gwahanol yn cael eu cyflwyno fel "vox pop" gyda dim ond angen ateb byr. Chwaraewch y darn **gwrando** i'r dysgwyr cyn iddynt gael cyfle i holi ei gilydd. Does dim tasg ynghlwm â'r gwrando, dim ond enghreifftiau o ymatebion cryno.

Yna, gofynnwch i'r dosbarth ddyfalu beth ydy barn gweddiill y dosbarth trwy nodi rhif yn y blwch 'dyfalu'. Y cam nesaf ydy bod pawb yn crwydro'r dosbarth a gofyn barn ei gilydd, gan gofnodi'r atebion cywir. Yna, cymharwch pa mor agos oedd y dyfalu a'r gwirionedd.

Cam 6 – Trafod pwnc - Bwyta Allan (ac adolygu ac ymestyn defnydd o'r cymal enwol)

Ewch dros y brawddegau enghreifftiol yn y llyfr ac yna dosbarthwch y cardiau yn Atodiad 3 er mwyn atgyfnerthu'r patrymau. Byddant yn disgrifio eu pryduau bwyd yn y tafarnau gwahanol. ☺ - sylw cadarnhaol; ☹ - sylw negyddol; ☹ - 'iawn'. I gloi, gofynnwch i grwpiau o dri ddefnyddio'r un patrymau eto i ddisgrifio y tro diwethaf iddyn nhw fwyta allan.

Cam 7 - Sgwrs

Chwaraewch Sgwrs 2 ac ar ôl gwrandawriad 1 neu 2, gofynnwch i'r dosbarth ble aeth y dyn ar ei wyliau a pha fath o wyliau oedd e. Yna, chwaraewch y darn eto (dwywaith) a gofyn iddyn nhw restru'r problemau. Y cam olaf yw rhannu'r dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog A/B, B/A. Prif nod y Sgwrs yma ydy atgyfnerthu'r ansoddeiriau ac felly gellid gofyn i barau restru'r holl ansoddeiriau sydd yn codi.

Yn olaf, ychwanegwch yr ansoddair 'sicr' at eich rhestr chi sy'n dangos defnydd o'r cymal enwol.

Cam 8 – Gwrando a Deall

Mae'r dasg hon yn addasiad o dasg arholiad Canolradd felly mae angen ei chyflwyno'n ofalus. Yn hytrach na chwarae'r darn ar ei hyd, deliwch ag ef fesul adran, gan chwarae pob adran hyd at dair gwaith. Rhowch ddigon o amser i barau drafod eu hatebion cyn mynd drostynt fel dosbarth cyfan. Chwaraewch y darn ar ei hyd ar y diwedd. Gellid

gofyn i bobl feddwl am deitl ar gyfer y drydedd ffilm gan ymarfer cyflythrennu. Yr eitem ieithyddol y tro hwn yw gofyn i'r dysgwyr feddwl pryd gallan nhw ddefnyddio 'darn o' – e.e. darn o gacen/deisen, darn o dost, darn o fara.

Cam 9 – Trafod Pwnc – Teledu.

Er mwyn codi hyder y dysgwyr a darparu sgaffaldau ar gyfer y trafod pwnc, ceir tair deialog fer. Gofynnwch i bawb ddarllen y ddeialog gyntaf gyda'r person wrth eu hochr (ddwywaith). Yna, rhaid troi at y person ar yr ochr arall i'w darllen hi ddwywaith eto. Gwnewch hyn gyda'r tair deialog.

Yna, ysgrifennwch y tair deialog ar y bwrdd gwyn (un ar y tro) gyda'r bylchau canlynol a gofynnwch i'r parau gwreiddiol geisio cofio beth sydd yn y bylchau. Gwirio fel dosbarth ac ailadrodd y ddeialog gyda dau hanner y dosbarth. Does dim angen ysgrifennu – gwaith llafar yw hwn. Dilynwch yr un drefn gyda deialogau 2 a 3.

Deialogau'r De:

A: Beth dych chi'n o'r ddrama ar S4C?

B: Yn fy i, mae hi'n

A: Dw i'n Y rhaglen ers

A: Welaist ti'r rhaglen newydd am neithiwr?

B: Do. i hi.

A: Paid â siarad Roedd hi'n

A: Beth wyt ti'n feddwl o'r newydd i ar S4C?

B: Dw i wedi dwy raglen ac ro'n i'n meddwl eu bod nhw'n

A: Dw i'n Bydd y gyfres yn mawr.

Deialogau'r Gogledd

A: Be dach chi'n o'r ddrama ar S4C?

B: Yn fy i, mae hi'n

A: Dw i'n Y rhaglen ers

A: Welest ti'r rhaglen newydd am neithiwr?

B: Do. i hi.

A: Paid â siarad Roedd hi'n

- A: Be wyt ti'n feddwl o'r newydd i ar S4C?
 B: Dw i wedi dwy raglen ac ro'n i'n meddwl bod nhw'n
 A: Dw i'n Mi fydd y gyfres yn mawr.

Cyn dechrau trafod 'Does dim rhaglenni da ar y teledu erbyn hyn', rhowch amser i barau ddechrau meddwl am raglenni da a gwael trwy gwblhau'r holiadur yn y llyfr cwrs. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i wneud y dasg drafod. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 10 – Robin Radio

Atgyfnerthwch ymadroddion Uned 2:

Diolch i chi am ofyn.

dros dro Gofynnwch i barau feddwl am sefyllfaoedd lle bydden nhw'n defnyddio 'dros dro', e.e. mewn swydd, byw yn rhywle tra'n symud tŷ.

Diolch i chi am y cyfle. Disodli 'y cyfle'.

Robin Radio Uned 3.

Cam 11 – Gweithgaredd Cloi

Adolygu Geirfa – Rhowch yr wyddor mewn lle amlwg ac atgoffwch y dysgwyr sut mae dweud y llythrennau. Yna, rhowch gyfres o linellau ar y bwrdd gwyn – pob llinell i ddynodi llythyren yn y gair, e.e. _____ (Canolradd).

Dewiswch air sy'n addas ar gyfer eich dosbarth chi. Rhaid i'r dysgwyr ofyn am lythyren ar y tro – Oes A yn y gair?/Oes 'na A yn y gair? Rydych naill ai'n rhoi'r llythyren yn y gair neu'n dechrau adeiladu tŷ mewn deg cam. Rhaid i'r dysgwyr ddyfalu beth yw'r gair cyn i chi orffen adeiladu'r tŷ ar y bwrdd gwyn. Caiff y person sy'n dyfalu'n gywir roi gair ar y bwrdd. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae. Ni ddylai'r gweithgaredd bara mwy na chwarter awr, gan gynnwys yr amser yn mynd dros yr wyddor.

Cam 12 – Geirfa Uned 3

Uned 3, Atodiad 1

Tasech chi'n cael byw ar unrhyw ynys yn y byd am dri mis, lle fasech chi'n mynd?

Tasech chi'n cael byw ar unrhyw ynys yn y byd am dri mis, ble basech chi'n mynd?

Lle mae eich hoff draeth chi?

Ble mae eich hoff draeth chi?

Pa iaith arall fasech chi'n hoffi ei dysgu? Pam?

Os dach chi oddi cartre, beth dach chi'n ei gollu?

Os dych chi oddi cartre, beth dych chi'n gweld eisiau?

Pa olygfa fasech chi'n hoffi ei gweld o'ch tŷ chi?

Be ydy'r peth gorau dach chi wedi'i brynu ar wyliau?

Beth yw'r peth gorau dych chi wedi'i brynu ar wyliau?

Pa fath o bethau dach chi'n eu prynu ar wyliau?

Pa fath o bethau dych chi'n eu prynu ar wyliau?

Pa fath o fwyd dach chi'n ei fwyta ar wyliau?

Pa fath o fwyd dych chi'n ei fwyta ar wyliau?

Uned 3, Atodiad 2

gweithio o'r tŷ	mynd am dro	helpu yn y bore coffi	perfformio efo'r gyda'r côr
chwarae dartiau	gwarchod yr wyrion	mynd i'r gampfa	mynd i'r dosbarth
gwylio'r gêm	mynd i'r cyfarfod	gyrru i'r cyfarfod	mynd i'r sinema
trefnu ² cyfarfod	coginio i'r plant	coginio i'r plant	casglu'r plant o'r ysgol

Uned 3, Atodiad 3

<p>Y Llew Llwyd</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Llew Llwyd</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Llew Coch</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☹</p>	<p>Y Llew Coch</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☹</p>
<p>Y Plas Llwyd</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Plas Gwyn</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Plas Coch</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Plas Coch</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>
<p>Y Plas Llwyd</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Ceffyl Gwyn</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Ceffyl Coch</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Ceffyl Du</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☹</p>
<p>Y Mochyn Llwyd</p> <p>Bwyd ☺</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☹</p>	<p>Y Mochyn Gwyn</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☹</p>	<p>Y Mochyn Coch</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☺</p> <p>Staff ☺</p>	<p>Y Mochyn Du</p> <p>Bwyd ☹</p> <p>Stafell ☹</p> <p>Staff ☹</p>

Uned 4

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Mae'r siarad rhydd y tro yma yn paratoi at drafod y dyfodol, gan ddefnyddio patrymau sy'n gyfarwydd i'r dysgwyr. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri, a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 2 – Adolygu'r Cymal Enwol

Ceir grid i ymarfer y cymal enwol. Gofynnwch i'r dosbarth ofyn y cwestiynau i chi er mwyn i chi fodelu'r atebion:

Ydy ysbytai'r ardal yma'n dda?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl eu bod nhw/bod nhw.

Ydy pobl yn mynd allan llai i dafarndai y dyddiau hyn?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl eu bod nhw/bod nhw.

Ydy'r byd yn cynhesu?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl ei fod e/fod o.

Ydyn/Ydan ni angen traffordd o Gaergybi i Gaerdydd?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim i yn meddwl ein bod ni/bod ni.

Oedd cinio ysgol yn ofnadwy?

Ro'n i'n meddwl/Do'n i ddim yn meddwl ei fod e/fod o.

Fyddwch chi'n prynu car trydan yn y dyfodol?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl bydda i.

Fydd hi'n bwrw eira yn y naw mis nesa?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl bydd hi.

Fydd pobl yn mynd ar wyliau i'r lleuad mewn 30 mlynedd?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl byddan nhw.

Fasech chi'n hoffi symud tŷ yn y pum mlynedd nesa?

Dw i'n meddwl/Dw i ddim yn meddwl baswn i.

Cam 3 – Y dyfodol

Mae'r camau cyntaf yn atgoffa'r dysgwyr o'r gwaith yn y dyfodol maen nhw eisoes wedi'i wneud.

Mynd a Cael – Ymarfer disodli i arwain at holiadur **Bwyta ma's/Bwyta allan**. Y cwestiynau yw: Ble/Lle ewch chi? Gyda phwy/Efo pwy ewch chi?/Beth/Be gewch chi i fwyta?/Beth/Be gewch chi i yfed?

Gwneud - Chwaraewch Sgwrs 1 a gofynnwch i'r dosbarth ble mae'r sgwrs yn digwydd ar ôl y gwrandawriad cyntaf. Yna, chwaraewch y Sgwrs eto, fesul cymal, a gofynnwch iddyn nhw ailadrodd, gan ysgrifennu'r ddeialog ar y bwrdd gwyn. Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw ddarllen y ddeialog mewn paru o'r bwrdd gwyn gan ddisodli'r lleoliad yn unig. Tynnwch sylw at ddefnydd o ddyfodol cryno 'gwneud' yn y Sgwrs a gwnewch yr ymarfer disodli.

Person cyntaf berfau rheolaidd - Tynnwch sylw at y frawddeg "Edrycha i/Mi edrycha i ar wefan y coleg heno" ac eglurwch bod y ffurf gryno'n cael ei chreu drwy ychwanegu'r terfyniad a at fôn y ferf. Ceir tri bloc i'w drilio. Gofynnwch i bawb bersonoli yn dilyn y trydydd bloc.

Wedyn, ceir dau ymarfer:

Uno dau hanner y frawddeg. Wrth i barau orffen yr ymarfer paru, dylid eu hannog i guddio ochr dde'r grid, a cheisio cofio ail hanner y frawddeg. Gellid gwneud hyn y ffordd arall hefyd – edrych ar yr ail hanner a cheisio cofio'r hanner cyntaf.

Darn darllen gyda bylchau – rhaid llenwi'r bylchau gyda berf yn y person cyntaf yn y dyfodol cryno trwy ddewis o blith y berfau a restrir yn y blwch o dan y darn.

Ail berson unigol a lluosog – Unwaith eto, dangoswch ein bod yn ychwanegu terfyniadau dyfodol bod at fôn y ferf i greu'r dyfodol cryno. Driliwch y ddau floc a rhowch y dosbarth ar waith gyda'r holiadur.

Person cyntaf a'r trydydd person lluosog berfau rheolaidd - Cyflwynir y person cyntaf a'r trydydd person lluosog o fewn cyd-destun gwyliau. Driliwch y bloc cyntaf, gan dynnu sylw unwaith eto at y ffaith bod y terfyniadau'r un peth â dyfodol **bod**. Yna, gofynnwch i barau benderfynu ar wibdaith arall (gan ddefnyddio "ni" a'r un berfau.) Gofynnwch iddyn nhw ddarllen manylion eu taith i weddill y dosbarth a gall y grwpiau eraill ddyfalu i ble â'n nhw. Driliwch yr ail floc, gan eto sôn bod y terfyniad yr un peth â dyfodol bod. Trowch at y tabl. Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp (os oes mwy nag wyth yn y dosbarth), ond gwnewch yn siŵr bod gan bawb un o'r paru i'w llenwi (yn unigol, pâr neu grŵp). Yna, gofynnwch i bawb grwydro i lenwi'r holiadur

Trydydd person unigol berfau rheolaidd - I ddysgu'r trydydd person unigol, ar ôl drilio'r bloc, rhowch wrthrych neu lun i bawb a gofynnwch iddyn nhw grwydro gan gyfnewid y lluniau/pethau er mwyn ymarfer treigladau gwahanol o fewn y frawddeg 'Pryniff X/Mi brynith X...' Penderfynwch ar enw y dylai pawb ei ddefnyddio a gellir newid i ragenwau hanner ffordd trwy'r gweithgaredd.

I gael rhagor o ymarfer, gellir edrych yn ôl ar yr holiadur a lenwyd a gofyn Beth bryniff/ Be brynith X?/Beth weliff/Be welith X?

Gofynnwch i bawb sefyll mewn cylch i adrodd y dilyniant "trefnu Pwyllgor Pwysig". Mae angen i'r tiwtor ddysgu'r drefn neu ysgrifennu'r drefn ar y bwrdd gwyn o fewn golwg. Gellir defnyddio meim i hwyluso cofio'r drefn os ydy'r dosbarth yn fodlon gwneud gweithgaredd fel hyn. Yna, gofynnwch i bawb drafod " trefnu bore coffi" mewn grwpiau o dri a chael awgrymiadau pwy arall yn y dosbarth all wneud popeth sydd ei angen i drefnu'r bore coffi. Mae'n bosib atgoffa'r dosbarth o'r berfau "pryniff/prynith a coginiff/ coginith" hefyd.

Brawddegau negyddol - Atgoffwch y dosbarth o'r treigladau yn y negyddol. Ceir dwy frawddeg i ymarfer y ddau dreigladau. Ar ôl drilio'r ddau bloc, ailddosbarthwch y gwrthrychau/lluniau a ddefnyddiwyd i ymarfer y trydydd person unigol uchod. Gofynnwch i'r dysgwyr grwydro gan greu brawddegau, 'Phryna i ddim XX'. Gellir newid y person sy'n cael ei ymarfer yn gyson – clapiwch i ddynodi newid person.

Ymarfer - Rhannwch y dosbarth yn barau gyda dau ddis i atgyfnerthu'r dyfodol cryno. Dylid gofyn i barau greu brawddegau cadarnhaol yn unig ar y dechrau, yna gofynnwch am frawddegau negyddol.

Rhowch un o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob person. Y nod yw dysgu'r hyn sydd ar y cerdyn a chanfod partner sydd yn gallu paru er mwyn creu brawddeg synhwyrol. Bydd angen i'r tiwtor gymryd rhan os bydd odrif. Os bydd parau'n ffeindio ei gilydd yn gyflym iawn, gellir ailddosbarthu cardiau neu ddefnyddio rhai sydd dros ben. Gofynnwch i bob pâr ddweud eu brawddeg nhw ar y diwedd. Gofynnwch i bawb ailadrodd.

Cam 4 – Cyfwyno'r thema: Dramâu teledu ac operâu sebon

Gwranddo – Rhowch amser i barau drafod eu hatebion cyn cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Atebion:

Ambiwllans Awyr	4
Tîm Cymorth Cyntaf	7
Injan dân	1
Plymwr	6
Bad Achub	2
Swyddog Iechyd a Diogelwch	3
Garej	5

Sgript y De:

Rhif 1. Help, Catrin! Mae fy nghath i'n sownd yn y goeden ac mae hi'n rhy ofnus i ddod lawr! Wnei di ffonio'r ar unwaith?!

Rhif 2. Helpwch ni! Mae Twm a Trefor allan ar y môr yn pysgota. Mae storm fawr yn codi ac maen nhw wedi anghofio eu siacedi achub! Ffoniwchar unwaith!

Rhif 3. Mrs Hughes – mae rhywun wedi gadael llawer o focus mawr ar ben y grisiau yn y swyddfa. Mae rhywun yn siŵr o gwmpo dros y bocsus! Ffonia i'r ar unwaith.

Rhif 4. Mae dyn a menyw yn sownd ar yr Wyddfa – mae hi wedi dechrau bwrw eira'n drwm a does dim dillad addas gyda'r bobl. Mae hi wedi cwmpo ac mae hi'n meddwl ei bod hi wedi torri ei choes. Maen nhw wedi ffonio 999 – cysyllta i â'r

Rhif 5. Dw i wedi torri lawr eto – mae problem fawr, wnaiff y car ddim dechrau o gwbl. Dyw rhif ffôn Gareth y ddim ar fy ffôn i –ffonia fe plis i weld ydy e'n gallu dod yma yn y tryc.

Rhif 6. Does dim gwres canolog o gwbl, does dim glo gyda ni i wneud tân ac mae'r oerfel yn ofnadwy! Ble mae rhif ffôn Mr Powell y? Ffonia fe os wyt ti'n gallu ffeindio'r rhif ar y we!

Rhif 7. Help – mae Tomos yn rhedeg hanner marathon ond mae e wedi cwmpo mewn mwd ac mae e wedi anafu ei goes – ydy'r boblo gwmpas i helpu?

Sgript y Gogledd:

Rhif 1. Help, Catrin! Mae fy nghath i'n sownd yn y goeden ac mae hi'n rhy ofnus i ddwâd lawr! Wnei di ffonio'r ar unwaith?!

Rhif 2. Helpwch ni! Mae Twm a Trefor allan ar y môr yn pysgota. Mae 'na storm fawr yn codi ac maen nhw wedi anghofio eu siacedi achub! Ffoniwchar unwaith!

Rhif 3. Mrs Hughes – mae rhywun wedi gadael llawer o focus mawr ar ben y grisiau yn y swyddfa. Mae rhywun yn siŵr o syrthio dros y bocsus! Mi ffonia i'r ar unwaith.

Rhif 4. Mae 'na ddyn a dynes yn sownd ar yr Wyddfa – mae hi wedi dechrau bwrw eira'n drwm a does gan y bobol ddim dillad addas. Mae hi wedi syrthio ac mae hi'n

meddwl bod hi wedi torri ei choes. Maen nhw wedi ffonio 999 – mi gysyllta i â'r

Rhif 5. Dw i wedi torri lawr eto – mae 'na broblem fawr, wneith y car ddim cychwyn o gwbl. Dydy rhif ffôn Gareth y ddim ar fy ffôn i – ffonia fo plis i weld ydy o'n medru dŵad yma yn y tryc.

Rhif 6. Does 'na ddim gwres canolog o gwbl, sgynnon ni ddim glo i wneud tân ac mae'r oerfel yn ofnadwy! Lle mae rhif ffôn Mr Powell y? Ffonia fo os wyt ti'n medru ffeindio'r rhif ar y we!

Rhif 7. Help – mae Tomos yn rhedeg hanner marathon ond mae o wedi syrthio mewn mwd ac mae o wedi anafu ei goes – ydy'r bobolo gwmpas i helpu?

Sgwrs 2 – Dilynwch y drefn ganlynol. Gwrandawriad 1 – Beth yw'r sefyllfa?

Gwrandawriad 2 - Beth yw enw'r wraig sy'n sownd a beth yw ei gwaith hi? Gwrandawriad 3 – y dosbarth i wrando a dilyn y sgript yn y llyfr. Gofynnwch iddyn nhw danlinellu unrhyw beth sy ddim yn ddealladwy iddyn nhw, ac esboniwch unrhyw broblem. Gwrandawriad 4 - Parau i darllen A/B, B/A.

Ymarfer disgrifio - Edrychwch ar y llun o'r stryd mewn eira. Mae dewis yma o ran gweithgareddau – gellwch ofyn i'r parau gymryd tro bob yn ail i ddisgrifio rhywbeth am y llun, neu ceir llun tebyg iawn gyda deuddeg gwahaniaeth yn Atodiad 2. Gall y parau chwilio am y gwahaniaethau ac ysgrifennu brawddegau amdany'n nhw. O wneud hyn, mae angen rhoi terfyn amser o bum munud i'r gweithgaredd a chasglu'r atebion ar y bwrdd gwyn ar y diwedd.

Gwahaniaethau: 1 – bag siopa 2 – rhifau'r tai 3 – lliw cot y dyn â rhaw 4 – Het y dyn â phoen yn ei gefn 5 – lliw y cŵn yn yr ardd 6 – nifer yr adar yn y goeden 7 – trwyn y dyn eira 8 – het y plentyn bach 9 – y wiwer 10 – rhaw fach 11 – sbectol yr hen wraig 12 – het yr hen wraig

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 5 – Arholiad Canolradd

Gwrando - Er mwyn paratoi ar gyfer y darn hwn (sy'n eithaf anodd), darllenwch dros y cwestiynau a gofynnwch i'r dysgwyr ragweld beth yw'r thema, sef gwerthu tafarn. Trafodwch atebion posib fel dosbarth cyn chwarae rhan gyntaf y darn. Chwaraewch y rhan honno dair gwaith ac ewch dros yr atebion cyn symud ymlaen i wneud yr un peth gyda'r ail ran.

Cyfleoliadau gyda 'tynnu' yw'r gwaith iaith yn y darn hwn.

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith hwn. Os ydy'r pwnc at ddant y dosbarth, mae'n bosib creu rhestr o beth sy'n gwneud tafarn dda a beth fasa'i'r dosbarth yn ei gael/ddim yn ei gael yn eu tafarn ddelfrydol.

Cam 6 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 3:

Bydd/Mi fydd neges ar y wefan.

Gaf i/Ga i ofyn i'r gwrandawyr?
cymwynas i'r cymdogion

Disodli ar y wefan.

Adolygu 'gofyn i' gyda dril.

Gofynnwch i barau greu rhestr o bum cymwynas sy'n gyffredin rhwng cymdogion. Gellir gweld beth yw'r rhai mwyaf poblogaidd.

Robin Radio Uned 4.

Cam 7 – Gweithgaredd Cloi

Lluniadur – Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm. Rowch bapur sgrap a phiniau ffelt i bob tîm. Daw un cynrychiolydd atoch chi lle byddwch chi'n ysgrifennu gair ar bapur i'r ddau dîm ei ddylunio. Ni chaniateir defnyddio geiriau. Unwaith y bydd aelod o'r tîm wedi dyfalu yn gywir, mae pawb yn stopio ac mae'r tîm buddugol yn cael marc. Sicrhewch fod pob person yn y dosbarth yn cael cyfle i ddylunio. Dewiswch eiriau sy'n bwysig i'r dosbarth ond awgrymir y canlynol: afon, barf, cawod, diod, ffair, gardd, halen, injan dân, llestri, meddyg. Mae'r rhain yn eiriau eithaf hawdd – daw'r hwyl yn y dylunio.

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y Gêm o Gardiau yn Uned 5 dod i'r wers nesaf.

Cam 8 – Geirfa Uned 3

Uned 4, Atodiad 1

Mi ailgychwn ni'r plastig Ailgylchwn ni'r plastig	os bydd bin ailgylchu yn y neuadd
Mi gyflwyno i ti i fy ffrind Cyflwyno i ti i fy ffrind	os bydd o yn yr agoriad os bydd e yn yr agoriad
Mi ddilyna i ti yn y car Dilyna i ti yn y car	os byddi di'n gyrru'n ddigon araf
Mi ofalwn ni am y plant Gofalwn ni am y plant	os byddwch chi isio mynd i'r parti os byddwch chi eisiau mynd i'r parti
Mi lenwith o'r ffurflen gais heno Llenwiff e'r ffurflen gais heno	os byddi di'n medru ei helpu o os byddi di'n gallu ei helpu e
Mi logan nhw gar Llogan nhw gar	os byddan nhw isio teithio y tu allan i'r ddinas os byddan nhw eisiau teithio y tu allan i'r ddinas
Mi ymunan nhw efo ni yn y bar Ymunan nhw â ni yn y bar	os bydd y plant yn mynd i gysgu
Mi gei di amser da Cei di amser da	os ei di i'r digwyddiad
Mi gyrhaeddith hi'r copa Cyrhaeddith hi'r copa	os bydd hi'n gadael yn ddigon cynnar
Mi ddaliwch chi i fyny yn hawdd Daliwch chi i fyny yn hawdd	os byddwch chi'n dechrau gwyllo'r gyfres rŵan os byddwch chi'n dechrau gwyllo'r gyfres nawr
Mi gewch chi groeso cynnes Cewch chi groeso cynnes	os ewch chi i gyfarfod nesa'r gymdeithas hanes
Mi wellith y claf Gwelliff y claf	os bydd o'n gwranddo ar y meddyg os bydd e'n gwranddo ar y meddyg

Uned 4, Atodiad 2



Uned 5

Mae pwrpas a phatrwm gwahanol i'r unedau adolygu. Yn ogystal ag ymarfer cynnwys yr unedau blaenorol, bydd un pwnc sy'n debygol iawn o godi yn arholiad llafar Canolradd yn cael ei ymarfer, a bydd mwy o dasgau arholiad yn cael eu cyflwyno/eu hymarfer.

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Y syniad yw eich bod yn cychwyn yr uned drwy chwarae'r gêm o gardiau mewn grwpiau, ac yna rhoi cyfle i'r dysgwyr roi'r gêm ar waith gydag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Os nad ydy hi'n bosib cael unrhyw ymwelwyr, gall y tiwtor fod ar y "gadair boeth" ac ateb y cwestiwn cyn gofyn y cwestiwn yn ôl i'r holwr (a gweddill y grŵp os ydy'r grŵp yn fach).

Cam 2 – Gwaith Iaith – Y dyfodol

Atebion

Ymestyn gwaith uned 4. Ni chyflwynir atebion yn y dyfodol yn Uned 4, felly ceir gwaith ymestynnol yma. Yn gyntaf, adolygwch yr atebion sydd eisoes yn gyfarwydd gyda'r ymarfer disodli. Mae'n bosib y bydd angen cryn dipyn o waith adolygu yma. Yna, driliwch yr atebion newydd. Bydd angen digon o enghreifftio yma cyn rhoi darn ceiniog/dwy geiniog i bob dysgwr. Gofynnwch gwestiynau i aelodau'r dosbarth. Rhaid iddynt daflu'r darn arian i ddechrau i weld sut i ateb – pen – ateb cadarnhaol; cynffon – ateb negyddol. Ceir rhai cwestiynau enghreifftiol isod.

Bryni di gar newydd yn y flwyddyn nesa (i rywun hyderus)?	Gwnaf/Na wnaif/Wna i/Na wna i
Enilliff/Enillith (rhywun absennol neu enwog) y loteri nos Sadwrn?	Gwnaiff/Na wnaiff/Wneith/Na wneith
Welwch chi ffilm yn y sinema yn y tri mis nesa?	Gwnawn/Na wnawn/Wnawn ni/Na wnawn ni
Edrychiff/Edrychith y plant ar S4C dros y penwythnos?	Gwnân/Na wnân/Wnân nhw/Na wnân nhw
Enilliff/Enillith Cymru'r gêm nesa?	Gwnân/Na wnân/Wnân nhw/Na wnân nhw
Yna, gofynnwch i barau greu cwestiynau eu hunain i'r parau eraill gael ateb. Bydd angen i chi wirio eu bod yn gywir.	

Adolygu'r dyfodol – Ble/Lle Awn ni?

Edrychwch ar yr enghreifftiau yn y llyfr cwrs, ac yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i greu eu taith eu hunain. Rhaid i weddill y dosbarth ddyfalu i ble â'n nhw. Gellid manteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw at lefydd i ymweld â nhw yng Nghymru. Ceir syniadau hyfryd a lluniau bendigedig ar wefan Cadw – cadw.llyw.cymru.

Y cam nesaf yw rhannu'n barau i lenwi'r bylchau yn y ddeialog. Gall parau sy'n gorffen yn gyflym ailgychwyn gyda lleoliad newydd.

Cam 3 – Ymarfer siarad am bwnc - Gwyliau

Siarad - Ewch dros yr amodol yn gyflym er mwyn annog y dysgwyr i ofyn y cwestiynau'n gywir yn yr amodol. Dylid cyfrif faint o'r gwahanol wyliau sy'n apelio at bobl.

Yna, rhowch gerdyn chwarae i bawb yn y dosbarth a bydd rhaid iddyn nhw geisio perswadio eu partner i ddod gyda nhw i'w gwyliau dynodedig. Nid yw symbolau'r cardiau wedi'u nodi yn y llyfr cwrs ond 1 = 'yurt' yng nghefn gwlad Cymru; brenin = gwibdaith i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Gwranddo – Rhaid i'r dysgwyr nodi ble bydden nhw'n clywed y gwahanol sgysiau a thrafod yr atebion gyda phartner. Atebion:

1. Maes awyr
2. Ar drên
3. Ar fws
4. Mewn gwesty
5. Ar fferi/Ar long
6. Mewn pabell/mewn maes gwersylla

Dyma sgript y de:

A: Dych chi'n siŵr eich bod chi wedi pacio popeth yn y ces yma eich hun?

B: Ydw, wrth gwrs.

A: Pam dych chi'n mynd â phedwar geiriadur Cymraeg i Calcutta 'te?

*

A: Bore da bawb, croeso i wasanaeth dau ddeg saith munud wedi chwech o'r Rhyl i Gaerdydd. Yn galw yn y Fflint, Caer, Wrecsam, Amwythig, Henffordd, Casnewydd a Chaerdydd. 'Dyn ni chwarter awr yn hwyr, wedi cael problem rhwng Caergybi a

Bangor. Gobeithio fydd hyn ddim yn achosi trafferth i chi. Hefyd, does dim bwffe poeth heddiw ond mae troli paned ar y ffordd. Ac un peth arall, dyw'r wi-fi ddim yn gweithio mae'n ddrwg gen i.

B: Wel, dyna syndod!

*

A: Miss, ga i eistedd yn y blaen? Efallai bydda i'n dost os dw i ddim yn eistedd yn y sedd flaen gyda chi. Ac mae'r bechgyn yn gwneud gormod o sŵn yn y cefn, maen nhw fel anifeiliaid gwyllt!

B: Ydyn, fel arfer, a 'dyn ni ddim wedi gadael yr ysgol eto!

*

A: Esgusodwch fi, dyw'r teledu yn fy stafell i ddim yn dangos S4C.

B: Mae'n ddrwg gyda fi, 'dyn ni ddim yn cael llawer o dwristiaid yn aros yma sy'n siarad Cymraeg.

A: Dych chi'n siŵr? Clywais i lawer o bobl yn siarad Cymraeg amser brecwast.

B: Wel ie, yr wythnos yma mae Cymru yn chwarae pêl-droed felly mae mwy o bobl o Gymru yma.

A: Fydd y teledu yn eich bar yn dangos y gêm ar S4C 'te?

*

A: Mewn faint o amser 'dyn ni'n cyrraedd y lan? Dw i'n teimlo'n sâl ofnadwy.

B: Rhaid i ti beidio â bwyta cymaint yn y bwffe. Cer i'r gwely, cer i gysgu ac yn y bore byddwn ni yn Malaga.

A: Hwre! Ond fydda i ddim eisiau bwyta tapas nac yfed sangria!

B: Mwy i fi te!

*

A: O na! Ti wedi anghofio pacio tortsh!

B: Beth sy'n bod? Cer yn ôl i gysgu!

A: Ond dw i angen mynd i'r tŷ bach nawr! Ble mae e?

B: Tu ôl i'r beudy.

A: Sut dw i'n mynd i ffeindio fy ffordd heb dortsh? Ac mae hi'n bwrw glaw! O na! mae hi'n gollwng! Dw i eisiau llogi carafán y flwyddyn nesa!

Sgript y gogledd:

A: Dach chi'n siŵr bod chi wedi pacio popeth yn y ces yma eich hun?

B: Ydw, wrth gwrs.

A: Pam dach chi'n mynd â phedwar geiriadur Cymraeg i Calcutta 'ta?

*

A: Bore da bawb, croeso i wasanaeth dau ddeg saith munud wedi chwech o'r Rhyl i Gaerdydd. Yn galw yn y Fflint, Caer, Wrecsam, Amwythig, Henffordd, Casnewydd a Chaerdydd. Dan ni chwarter awr yn hwyr, wedi cael problem rhwng Caergybi a Bangor. Gobeithio fydd hyn ddim yn achosi trafferth i chi. Hefyd, does 'na ddim bwffe poeth heddiw ond mae 'na droli paned ar y ffordd. Ac un peth arall, dydy'r wi-fi ddim yn gweithio mae'n ddrwg gen i.

B: Wel dyna syndod!

*

A: Miss, ga i eistedd yn y blaen? Ella bydda i'n sâl os dw i ddim yn eistedd yn y sedd flaen efo chi. Ac mae'r hogiau'n gwneud gormod o sŵn yn y cefn, maen nhw fel anifeiliaid gwyllt!

B: Ydyn, fel arfer, a dan ni ddim wedi gadael yr ysgol eto!

*

A: Esgusodwch fi, dydy'r teledu yn fy stafell i ddim yn dangos S4C.

B: Mae'n ddrwg gen i, dan ni ddim yn cael llawer o dwristiaid yn aros yma sy'n siarad Cymraeg.

A: Dach chi'n siŵr? Mi glywes i lawer o bobol yn siarad Cymraeg amser brecwast.

B: Wel ia, wythnos yma mae Cymru yn chwarae pêl-droed felly mae 'na fwy o bobol o Gymru yma.

A: Fydd y teledu yn eich bar yn dangos y gêm ar S4C 'ta?

*

A: Mewn faint o amser dan ni'n cyrraedd y lan? Dw i'n teimlo'n sâl ofnadwy.

B: Rhaid i ti beidio â bwyta cymaint yn y bwffe. Dos i'r gwely, dos i gysgu ac yn y bore mi fyddwn ni yn Malaga.

A: Hwre! Ond fydda i ddim isio bwyta tapas nac yfed sangria!

B: Mwy i fi ta!

*

A: O na! Ti wedi anghofio pacio tortsh!

B: Be sy'n bod? Dos yn ôl i gysgu!

A: Ond dw i angen mynd i'r tŷ bach nŵan! Lle mae o?

B: Tu ôl i'r beudy.

A: Sut dw i'n mynd i ffeindio fy ffordd heb dortsh? Ac mae hi'n bwrw glaw! O na! mae hi'n gollwng! Dw i isio llogi carafán y flwyddyn nesal!

Gwyllo – Dangoswch y fideo a gofynnwch i'r dysgwyr nodi beth mae pobl yn ei ddweud am eu gwyliau nhw.

Cam 4 – Gwaith arholiad

Mae'r cwestiynau arholiad yn parhau ar y thema 'gwyliau'.

Llenwi'r bylchau – Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Darllen a siarad - Mae Atodiad 1 yn weithgaredd ymarfer patrymau'r gorffennol ar y pwnc Gwyliau. Rhwng y daflen i bob pâr. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar un bloc o batrymau/awgrymiadau – yna, mae person A yn dweud cymaint ag y gall am ei (g) wyliau diwethaf mewn 2 funud. Canwch gloch, a newidiwch rôl. Yna gwnewch yr un peth gyda bloc 2, y tro yma gyda phartner B yn mynd gyntaf. Ac yn y blaen.

Trafod y pwnc – Mae gwyliau yng Nghymru yn well na gwyliau tramor. Yn gyntaf, gofynnwch i barau newydd wneud storom eirfa a rhowch ddetholiad o'r geiriau ar y bwrdd gwyn. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r grid er mwyn paratoi ar gyfer y dasg. Y cam olaf ydy trafod y pwnc mewn grwpiau o dri. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Gwrando – Dilynwch y drefn a fydd yn yr arholiad o chwarae'r darn dair gwaith – ar ei hyd y tro cyntaf, gyda seibiau lle mae'r sêr yr ail dro, ar ei hyd eto y trydydd tro.

Cam 5 - Chwedl - Rhys a Meinir

Awgrymir y drefn yma:

- i) Gwrando ac ad-drefnu'r cardiau lluniau yn Atodiad 2 (heb edrych yn y llyfr cwrs o gwbl)
- ii) Darllen y stori yn y llyfr cwrs i'w gilydd mewn parau.
- iii) Prawf cloze.
- iv) Ail-ddweud y stori yn syml iawn yn eu geiriau eu hunain. Gellir defnyddio'r lluniau yn y drefn gywir i sbarduno'r cof.

Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 4:

mewn gwirionedd

achos da iawn, wir

Cynhaliwch ddril ymatebol, e.e.

Rioja	gwin da iawn, wir
Mercedes	car da iawn, wir
Caws Caerffili	caws da iawn, wir
enw bwyty lleol	bwyty da iawn, wir
enw siop leol	siop dda iawn, wir
enw ffilm gyfredol	ffilm dda iawn, wir
enw rhaglen deledu	raglen dda iawn, wir

gwerthfawr iawn

Gofynnwch i barau feddwl am dri pheth sydd, yn eu barn nhw, yn werthfawr iawn.

Robin Radio Uned 5.

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi - Adolygu Geirfa – ‘Blockbusters’

Ceir grid yn y llyfr cwrs ond ceir hefyd gopïau A3 yn y blwch adnoddau generig i diwtoriaid. Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner. Y nod yw ateb y cwestiynau'n gywir er mwyn creu llinell mewn unrhyw gyfeiriad. Rhaid i'r timau geisio blocio ei gilydd. Maen nhw'n ateb cwestiynau bob yn ail. Adolygir geirfa'r unedau blaenorol.

a	Rhaid i ni ailgylchu plastig a phapur i warchod y byd.
b	Ces i ddiwrnod blinedig yn y gwaith heddiw – cyfarfod anodd iawn! Mi ges i ddiwrnod blinedig yn y gwaith heddiw – cyfarfod anodd iawn!
c	Mae'r cleifion yn yr ysbyty i gyd yn aros i weld y meddyg.
ch	Ych a fi! Mae'r coffi yma'n chwerw iawn.
d	Peidiwch â dadlau , blant! Rhaid i chi fod yn ffrindiau!
dd	Mae'r glaw yn gwneud i fi deimlo'n ddiflas , ble mae'r haul? Mae'r glaw yn gwneud i mi deimlo'n ddiflas , lle mae'r haul?
e	Ydy hi'n bwrw eira? Ydy hi'n glawio? Nac ydy, mae hi'n bwrw eirlaw .
f	Mae hi'n byw dwy filltir o'r dosbarth.
ff	Dw i ddim yn gallu fforddio'r car newydd 'na. Dw i ddim yn medru fforddio'r car newydd 'na.
g	Dych chi'n gallu gofalu am y gath pan fydda i ar wyliau? Dach chi'n medru gofalu am y gath pan fydda i ar wyliau?
ng	Mae fy ngwallt i'n lân, golchais i fe y bore 'ma. Mae fy ngwallt i'n lân, mi olches i fo bore 'ma.
h	Ble dych chi'n gweithio ar hyn o bryd? Lle dach chi'n gweithio ar hyn o bryd?
i	Roedd yr injan dân yn swnllyd iawn!

l	Pan aethon ni i Ffrainc ar wyliau, roedd rhaid i ni logi car. Pan aethon ni i Ffrainc ar wyliau, gwnaethon ni logi car.
ll	Mae'r ffordd yn llithrig iawn ar ôl yr eira.
m	Dw i wrth fy modd yn darllen y llyfr yma.
n	Y gair Cymraeg am afon fach yw nant . Y gair Cymraeg am afon fach ydy nant .
o	Yn yr oriau mân, yng nghanol y nos, mae hi'n dywyll iawn.
p	Peth peryglus yw dringo'r Wyddfa mewn fflip-fflops. Peth peryglus ydy dringo'r Wyddfa mewn fflip-fflops.
ph	Caiff yr actores Oscar am ei pherfformiad gwych. Mi geith yr actores Oscar am ei pherfformiad gwych.
r	Noson rewlyd iawn eto – 'dyn ni'n cael mis lonawr oer! Noson rewlyd iawn eto – dan ni'n cael mis lonawr oer!
rh	Beth yw'r rheswm am y sŵn mawr? Be ydy'r rheswm am y sŵn mawr?
s	Dw i'n synnu bod y plant yn cysgu'n barod! Dim ond wyth o'r gloch yw hi! Dw i'n synnu bod y plant yn cysgu'n barod! Dim ond wyth o'r gloch ydy hi!
t	Dych chi'n talu eich treth(i) bob mis neu bob blwyddyn? Dach chi'n talu eich treth(i) bob mis neu bob blwyddyn?
th	Mae ffordd hir a throellog yn mynd drwy'r goedwig. Mae 'na ffordd hir a throellog yn mynd drwy'r goedwig.
u	Mae Hollywood yn yr Unol Daleithiau.
w	Mae'r wardiau i gyd yn llawn, does dim un gwely ar gael. Mae'r wardiau i gyd yn llawn, does 'na ddim un gwely ar gael.
y	Ar ddechrau'r flwyddyn, ymunodd pedwar person newydd â'r dosbarth. Ar ddechrau'r flwyddyn, mi ymunodd pedwar person newydd ar dosbarth.

8 – Geirfa Uned 6

Uned 5, Atodiad 1

Y gwyliau diwetha - De Cymru

Es i ar wyliau i.../gyda.../ym mis...

Aeth pawb i glwb nos/i snorclo/ar daith bws/i weld eglwys.

Cawson ni *foussaka*/hwyl/dywydd da/amser gwych.

*

Roedd y tywydd yn...

Roedd y plant yn...

Roedd y gwesty/fflat/fila/garafán/babell yn...

*

Prynais i *sombrero*/ Torrais i fy nghoes/Collais i fy mhasbort.

Nofion ni yn y pwll/Siaradon ni Gymraeg/Blason ni win lleol.

Canodd Katherine *karaoke* yn y clwb/Chwaraeodd Bryn bêl-foeli ar y traeth.

Y gwyliau diwetha – Gogledd Cymru

Mi es i ar wyliau i.../efo.../ym mis...

Mi aeth pawb i glwb nos/i snorclo/ar daith bws/i weld eglwys.

Mi gaethon ni *foussaka*/hwyl/dywydd da/amser gwych.

*

Roedd y tywydd yn...

Roedd y plant yn...

Roedd y gwesty/fflat/fila/garafán/babell yn...


*

Mi brynes i *sombrero*/Mi dorres i fy nghoes/Mi golles i fy mhasbort.

Mi nofion ni yn y pwll/Mi siaradon ni Gymraeg/Mi flason ni win lleol.

Mi ganodd Katherine *karaoke* yn y clwb/Mi chwaraeodd Bryn bêl-foeli ar y traeth.

Uned 5, Atodiad 2





Uned 6

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Cyn cychwyn ar y gwaith, gofynnwch i bawb feddwl am y gair cyntaf sy'n dod i'w meddwl nhw pan fyddwch chi'n dweud 'cerddoriaeth'. Rhowch y geiriau ar y bwrdd gwyn a dewiswch dri ohonynt i'w cynnwys mewn cwestiynau. Gofynnwch i barau lunio cwestiynau a dewiswch y rhai gorau i'w hychwanegu at y cwestiynau sydd yn y llyfr cwrs. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 2 – Gwaith Iaith - Arddodiaid

Gan fod arddodiaid yn medru bod yn drwm i'w cyflwyno ac ymarfer, mae ymgais yma i roi nifer fwy nag arfer o gyfleoedd i siarad.

Adolygu - Adolygu/proc i'r cof gydag arddodiaid cyfarwydd yw'r dasg gyntaf. Rhannwch y dosbarth yn barau i lenwi'r bylchau. Yna, ar ôl bod dros yr atebion, rhannwch nhw'n grwpiau bach i drafod pryd a sut maen nhw'n siarad â'r teulu. Oes rheolau pryd i ddefnyddio'r ffôn?

Adolygu mynd i/mynd at – Darllenwch dros y cwestiynau a'r atebion yn y llyfr cwrs ac yna rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1) iddynt grwydro yn holi ei gilydd, e.e. Pa mor aml dych chi'n mynd i'r parc? Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl am un person.

Sgwrs – Ceir nifer fawr o arddodiaid yn y sgwrs. Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch ble mae'r teulu'n mynd ac am faint? Chwaraewch y sgwrs eto cyn gadael i'r dysgwyr edrych ar y sgrïpt. Cyn darllen y Sgwrs gyda phartner (a disodli'r elfennau a danlinellir), gofynnwch iddynt nodi'r holl arddodiaid sy'n codi yn y Sgwrs.

Adolygu at – Mae'r arddodiad yn gyfarwydd ond nid yr ymadrodd 'Cofia fi at...'. Tynnwch sylw at yr ymadrodd yn y Sgwrs a rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y dril ymatebol sydd yn y llyfr cwrs. Dylid rhoi rhagor o gyfle i ymarfer ar lafar yn unig ar ffurf dril.

Dros – Mae 'dros' yn arddodiad newydd felly gellid ei gyflwyno trwy ei redeg a nodi'r ffurfiau ar y bwrdd gwyn, heb unrhyw gyd-destun. Mae'r cwestiynau a'r atebion yn y llyfr cwrs yn darparu'r cyd-destun. Darllenwch drostynt, a rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y dasg sy yn y llyfr. Yna, ceir deialog fer yn dangos enghreifftiau o 'teimlo dros'. Gofynnwch iddyn nhw godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed yr ymadrodd yma yn y ddeialog wth i chi ei chwarae. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen y ddeialog.

Yn – Arddodiad newydd o safbwynt ei redeg felly eto gellid ei gyflwyno trwy ei redeg a nodi'r ffurfiau ar y bwrdd gwyn. Darllenwch dros y cwestiynau a'r atebion sydd yn y llyfr cwrs ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae Llongau Rhyfel. Maen nhw'n ymarfer yr un cwestiwn, 'Oes diddordeb gyda ti yn XX?/Sgen ti ddiddordeb yn XX?' Ceir cod lliw i helpu gyda'r atebion, os bydd angen. Dylid defnyddio tri blwch ar gyfer y gêm hon.

Gwrando – Ceir llawer iawn o arddodiaid yn y darn gwrando ond y dasg gyntaf i'r dysgwyr yw nodi swyddi pob un o'r bobl a nodir.

Mrs Scott	milfeddyg
Toni	gweithio yn y siop trin gwallt
Sarjant James	plismon
Mrs Connor	optegydd
Mr Hughes	rheolwr banc
Catrin	meddyg/hyrs
Mrs Thomas	fferylydd
Miss Clarke	deintydd
Gareth	garddwr

Gellir hefyd ofyn i bob dysgwr nodi un frawddeg sy'n cynnwys arddodiad wrth wrando eto.

Ar – Mae'r arddodiad 'ar' yn gyfarwydd ond dysgwch yr ymadrodd 'Mae arnon ni arian iddyn nhw' sy'n codi yn y darn gwrando. Cynhaliwch ddril cyn rhannu'r dysgwyr yn barau i wneud y dril ymatebol yn eu llyfrau.

Ymarfer – Ceir cardiau pelmanism yn Atodiad 2. Rhannwch y dosbarth yn barau/ grwpiau bach – rhaid troi dau gerdyn ar y tro i geisio creu brawddeg gywir. Os na fydd y frawddeg yn un gywir, rhaid troi'r cardiau ben i waered eto.

Cam 3 – Gwyllo

Ymgais yw'r fideo hwn i ddod â diwylliant pobl ifainc i mewn i'r dosbarth. Tasg agored sydd yma a dylid caniatáu i'r parau drafod eu hatebion cyn cael sesiwn adrodd yn ôl. Dyma rai atebion posib:

Cafodd hi/Mi gaeth hi ei geni yn Rhydychen.

Cafodd hi/Mi gaeth hi ei magu yn Aberaeron.

Mae hi'n byw ym Merthyr.

Mae hi'n chwarae cerddoriaeth (R&B, Hip-Hop, Soul).

Mae hi'n cynhyrchu yn y stiwdio gartref.

Mae hi'n chwarae gitar ac offerynnau eraill.

Pan oedd hi'n blentyn, roedd hi'n hoffi canu mewn eisteddfodau, dysgu chwarae offerynnau, a chanu gyda'i chwaer, Kizzy.

Roedd hi'n hoffi mynd i'r traeth yn Aberaeron – chwarae ar y traeth, yn y môr, yn y parc.

Nawr mae hi'n hoffi gweithio gyda chynhyrchwyr eraill.

Mae hi'n gweithio gyda Sam Humphreys o'r grŵp Calan ar hyn o bryd.

Yna, chwaraewch un o'r tair fideo o Eadyth yn canu sy ar y Safle Rhyngweithiol a nodwch fod dwy arall yna os oes gan y dysgwyr ddiddordeb mewn clywed mwy o'i gwaith.

Cam 4 – Siarad – Yn y gweithle

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod eu gwaith. Anogwch gymaint â phosibl o ymestyn.

Cam 5 – Ymarfer ffwythiant – Derbyn a gwrthod gwahoddiad

Darllen – Tasg darllen oddefol a geir yn gyntaf – er mwyn cyflwyno'r cysyniad. Atebion: 1 – protest; 2 – parti ymddeol; 3 – taith gerdded; 4 – priodas; 5 – pwyllgor pwysig.

Ysgrifennu - Rhannwch y dosbarth yn barau i ysgrifennu ateb i wahoddiad. Rhaid i aelodau eraill y dosbarth ddyfalu gwahoddiad i beth. Gall y dysgwyr ddefnyddio'r un achlysuron ag sydd yn y llyfr cwrs, neu ddewis rhywbeth hollol wahanol.

Deialogau – Rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r brawddegau. Gwiriwch ar hyd yr adeg a gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu deialogau (neu ddetholiad ohonynt mewn dosbarth mawr) o flaen y dosbarth.

Cam 6 – Arholiad

Llenwi'r bylchau – Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Pwnc trafod – Mae Cymru'n dibynnu ar dwristiaid. Mae'r pwnc hwn yn debyg i bwnc uned 5 ond hyderir y bydd yn gyfle i ailgylchu iaith a phatrymau a chodi hyder y dysgwyr gyda'r tasgau hyn. Dylid dilyn y camau hyn:

- i) Nodi chwech o atyniadau twristaidd. Bydd yn ddiddorol gweld a yw'r grwpiau yn nodi'r un llefydd.
- ii) Storum eirfa Twristiaeth. Nodwch rai o'r geiriau ar y bwrdd gwyn.
- iii) Llenwch y blychau yn nodi beth sy'n dda a ddim yn dda am dwristiaeth.
- iv) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd i drafod y pwnc a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 5:

fel mae'n digwydd Gofynnwch i barau feddwl am dair brawddeg yn dechrau gyda Fel mae'n digwydd, e.e. Fel mae'n digwydd, bydda i/mi fydda i'n mynd i'r dre yfory/Fel mae'n digwydd, dw i gyda Sam nawr/efo Sam rŵan.

Am stori drist! Disodli trist

Lleoliad perffaith Gofynnwch i barau feddwl am leoliad perffaith ar gyfer parti pen-blwydd, noson allan gyda'r dosbarth, Sadwrn Siarad.

Robin Radio Uned 6

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi

Llythyren ola'r gair blaenorol – Rhowch air – rhaid i'r gair nesaf ddechrau gyda llythyren olaf y gair blaenorol. Mae'n bosib ei chwarae'n gystadleuol (pobl allan o'r gêm am beidio â meddwl am air o fewn amser penodol neu ailadrodd gair) neu beidio. Mae'n bosib bydd materion fel treiglo a rhai geiriau newydd yn codi. Os oes gair newydd i aelod o'r dosbarth, gofynnwch iddo godi ei law. Nodwch y geiriau hyn ar y bwrdd gwyn ac ewch drostynt ar y diwedd. Ni ddylid torri ar draws rhediad y gêm. Ni ddylai hyn bara mwy na 5 – 10 munud. Dyma enghraifft:

Oren → neidio → oer → ras → siarad

(Gellir caniatáu 'r' neu 'rh' os bydd gair yn gorffen gyda 'r'.)

Cam 9 – Geirfa Uned 7

Uned 6, Atodiad 1

y banc	y llyfrgell	y ganolfan hamdden	y sinema
y theatr	y siop trin gwallt	Llundain	y dafarn
yr archfarnad	y parc	y deintydd	yr optegydd
y fferyllydd	y cyfrifydd	y rheolwr banc	y meddyg

Uned 6, Atodiad 2

Dw i'n edrych	arnat ti
Mae Sam yn gwenu	arni hi
Mae hi'n gwranddo	arnoch chi
Maen nhw'n dibynnu	arnyn nhw
Dw i'n sgwennu/ ysgrifennu	ato fo/ fe
Mae Jac yn mynd	at y deintydd
Mae hi'n chwilio	amdanat ti
Maen nhw'n aros	amdani hi
Maen nhw'n gofyn	i chi
Dw i'n ymddiried	ynddoch chi
Mae Dafydd wedi deud/ dweud	wrthi hi

Uned 7

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau o dri a rhowch ddis i bob grŵp. Anogwch gymaint o siarad â phosib, gan gynnwys cwestiynau atodol. Bydd y gêm yn dod i ben pan fydd pawb mewn un grŵp wedi trafod pob rhif.

Cam 2 – Adolygu Arddodiaid

Rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm fwrdd. Ceir copi o'r gêm yn y Blwch Adnoddau porffor hefyd.

Cam 3 – Cyflwyno'r Arddodiad 'o'

O – Ceir dril mecanyddol yn y bloc i sefydlu'r ffurf 'ohonon ni'. Rhowch yr holiadur ar waith– pawb i holi ei gilydd 'Dych/Dach chi'n...?' gan nodi'r enwau yn y grid. Ar y diwedd, byddan nhw'n adrodd yn ôl yn defnyddio 'ohonon ni'.

Rhannwch yr ystafell yn bum ardal. Y thema fydd sut cyrhaeddodd pobl y dosbarth: cerdded, cael lifft, gyrru, dod ar y bws, dod ar y trê. Rhaid i bobl fynd i'r lle priodol yn y dosbarth a chreu'r brawddegau, e.e. Cerddodd tri ohonon ni i'r dosbarth heddiw/ Mi wnaeth tri ohonon ni gerdded i'r dosbarth heddiw. Defnyddiwch y sefyllfa hon i gyflwyno 'ohonyn nhw'.

Rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y lluniau yn y llyfr cwrs a llenwi'r bylchau am y lluniau ac ateb y cwestiynau am y bar gwin i ymarfer 'ohonyn nhw'.

Gwrando – Cyflwynir ffurfiau eraill yr arddodiad 'o' yn y darn gwrando. Gellir gwneud hyn oherwydd gwybodaeth flaenorol y dysgwyr o arddodiaid. Dyma'r atebion:

Yn y bar carioci: (De Cymru)

- A:** Wel? Beth o't ti'n ei feddwl **ohono** i?
B: Beth o'n i'n feddwl **ohonot** ti? Mae dawn gyda ti! Dylet ti fynd ar Noson Lawen!
A: Rwyt ti'n rhy hael! Diolch yn fawr!

Ar ôl y gêm bel-droed:

- A:** Wel? Beth o'ch chi'n ei feddwl **ohonon** ni, dad?
- B:** Beth o'n i'n feddwl **ohonoch** chi? Colloch chi o ddeg gôl i ddim! Wnest ti ddim cicio'r bêl!
- A:** Diolch am ddim byd!

Yn yr oriel:

- A:** Wel – beth wyt ti'n ei feddwl **ohonyn** nhw?
- B:** Beth dw i'n ei feddwl **ohonyn** nhw? Maen nhw'n ddiddorol! Pwy yw'r artist?
- A:** Fi, wrth gwrs!

Yn y bar carioci: (Gogledd Cymru)

- A:** Wel? Be oeddet ti'n ei feddwl **ohono** i?
- B:** Be o'n i'n feddwl **ohonot** ti? Mae gen ti ddawn! Mi ddylet ti fynd ar Noson Lawen!
- A:** Rwyt ti'n rhy hael! Diolch yn fawr!

Ar ôl y gêm bel-droed:

- A:** Wel? Beth oeddech chi'n ei feddwl **ohonon** ni, dad?
- B:** Be o'n i'n feddwl **ohonoch** chi? Mi golloch chi o ddeg gôl i ddim! Wnest ti ddim cicio'r bêl!
- A:** Diolch am ddim byd!

Yn yr oriel:

- A:** Wel – be wyt ti'n ei feddwl **ohonyn** nhw?
- B:** Be dw i'n ei feddwl **ohonyn** nhw? Maen nhw'n ddiddorol! Pwy ydy'r artist?
- A:** Fi, wrth gwrs!

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y deialogau.

Defnyddiwch luniau o enwogion i ymarfer y cwestiwn "Beth dych chi'n/Be dach chi'n ei feddwl ohono fe/fo, ohoni hi, ohonyn nhw?" Driliwch y cwestiynau hyn yn gyntaf ac yna dangoswch lun – Rhaid i'r dysgwyr ofyn y cwestiwn priodol. Darllenwch dros y cwestiynau ac atebion yn y llyfr cwrs (sy hefyd yn cadarnhau'r cymal enwol).

Holiadur - Y cam olaf yw holi barn am hoff ffilm, lyfr a grŵp. Darllenwch dros y ddeialog enghreifftiol yn ofalus a rhowch yr holiadur ar waith.

Cam 4 – Cyflwyno brawddegau negyddol

Yn gyntaf, atgoffwch y dysgwyr o ffurfiau negyddol drwy ddisodli a phersonol 'Yfais i ddim llaeth ddoe/Yfes i ddim llefrith ddoe', 'Fwytais/Fwytes i ddim bisgedi ddoe'. Gyda'r patrwm 'mo', mae'n werth esbonio cyn dechrau drilio ein bod yn dweud 'I didn't drink/eat any of the XX' yn Gymraeg a bod 'ddim o' yn troi yn 'mo'. Gellir dangos hyn ar y bwrdd gwyn. Ewch ati wedyn i ddrilio'r brawddegau yn y bloc a rhannu'r dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer cyntaf. Gadewch i'r parau gael amser i feddwl ac ysgrifennu'r atebion yn gyntaf ond yna, cynhaliwch dril llafar.

Gall y dysgwyr ddrilio ei gilydd hefyd.

Symudwch ymlaen at gyflwyno'r rhagenwau. Driliwch y tair brawddeg yn y bloc fesul un, gan roi rhagor o enghreifftiau bob tro, e.e.

Enwau benywaidd – Gest ti'r neges/dderbynneb/erthygl/ffurflen gais/swydd?

Enwau gwrywaidd – Gest ti'r llyfr/casgliad/gliniadur/holiadur/pigiad/presgripsiwn/siswrn?

Enwau lluosog – Gest ti'r biliau/cofnodion/llyfrau/ffurflenni?

Ar ôl mynd trwy'r dril, rhwch un o'r cardiau uchod (Atodiad 1) i bawb holi ei gilydd 'Gest ti'r XX?' Dylid cadw'r un cerdyn i ddechrau ac yna cyfnewid gyda phob partner newydd.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer ymarfer eithaf heriol – troi brawddegau o'r gorffennol cryno i'r dyfodol cryno a defnyddio'r patrwm targed. Maent i gyd yn y person cyntaf felly dylid atgoffa'r dysgwyr o'r ffurfiau hynny cyn cychwn. Os oes gennych ddosbarth cryf, gellid ymestyn hyn trwy ddrilio'r personau eraill, gan gadw at yr un brawddegau.

Sgwrs – Gwrandawriad 1 – chwaraewch y sgwrs heb unrhyw dasg o gwbl. Gellid gofyn i bawb am un gair maen nhw'n ei gofio ar y diwedd a'u nodi ar y bwrdd i ddechrau cael darlun o'r sgwrs. Gwrandawriad 2 – Sawl gwaith y clywir y gair 'mo'. Ateb – 6.

Gwrandawriad 3 – ceisio cofio un o'r brawddegau sy'n cynnwys 'mo'. Gwrandawriad 4 – dilyn gyda'r sgript. Ateb y cwestiynau gyda phartner. Parau i ddarllen y ddeialog.

Bydd yr atebion i'r cwestiynau ar y Sgwrs wedi parato'i'r dysgwyr ar gyfer y dril olaf. Driliwch y bloc yn ofalus a rhannwch y dosbarth yn barau i ysgrifennu ymatebion i'r cwestiynau yn y llyfrau cwrs. Driliwch ar lafar – gan ganiatáu iddyn nhw edrych ar eu hatebion y tro cyntaf os oes angen, ond gan ymateb heb y llyfrau yr ail dro. Dylent wedyn ddrilio ei gilydd mewn parau – gyda'r partner sy'n ymateb yn cau'r llyfr.

Cam 5 – Ymarfer ffwythiant – Gwadu

Deialogau – Ceir pedair deialog fer i gyflwyno iaith gwadu. Newidiwch y parau ar gyfer pob deialog. Deialog 1 – Darllen drosti, anogwch y parau i'w darllen ac yna eu dysgu, disodli ffenest. Deialog 2 – Darllen drosti, anogwch y parau i'w darllen ac yna eu dysgu, disodli cadw sŵn yn hwyr. Deialog 3 – Darllen nifer o weithiau ac yna creu deialog newydd yn dechrau gyda'r llinell gyntaf. Deialog 4 – Darllen nifer o weithiau. Parau i feddwl am sefyllfaoedd lle byddai'n bosib defnyddio'r geiriau 'Dw i ddim yn gallu/medru gwadu hynny'.

Darllen – Ymarfer darllen sydd nesaf gan baru'r frawddeg a'r grŵp mwyaf tebygol o fod yn gwadu'r honiad. Atebion:

Maen nhw'n gwadu dechrau tân ar y mynydd.	bechgyn/hogiau ifainc
Maen nhw'n gwadu newid yr olwyn yn rhy araf.	tîm Mercedes
Maen nhw'n gwadu bydd dŵr brwnt/budr yn broblem iechyd.	cwmni dŵr
Maen nhw'n gwadu bod plant yn gweithio'n llai caled.	athrawon
Maen nhw'n gwadu bydd etholiad yn fuan.	y llywodraeth
Maen nhw'n gwadu bydd y grŵp yn dod i ben.	'Y Pandas Pinc'

Gwrando – Ceir ymarfer tebyg ond wrth wrando y tro hwn. Nid yw'n ymarfer heriol ond mae'n ymarfer geirfa briodol ar gyfer gwadu. Atebion:

1. Mae'r ferch yn gwadu **dweud celwydd**.
2. Mae Mr Jones yn gwadu **rhegi ar staff yr ysbyty**.
3. Mae'r dynion yn gwadu **gwerthu cyffuriau**.
4. Mae'r bobl ifainc yn gwadu **cynnal parti yn nhŷ'r cyndogion**.
5. Mae Miss Williams yn gwadu **derbyn yr arian/pres**.
6. Mae Sam Morris yn gwadu **gwthio ei bartner allan o'r ffenest**.

Ymarfer gwadu – Ceir dwy set o gardiau yn Atodiad 2. Set A – wyth brawddeg mewn dau hanner a Set B – wyth brawddeg mewn dau hanner. Dechreuwch gyda Set A a rhannwch y dosbarth yn ddau hanner. Rhaid i un hanner droi'r cerdyn yn gwestiynau yn yr amser gorffennol, e.e. bwyta'r bisgedi siocled? Pwy fwytodd y bisgedi siocled? Rhaid iddyn nhw ganfod partner o ochr arall yr ystafell sy'n dweud y geiriau ar eu cardiau nhw, wedi'u rhagflaenu bob tro gan y geiriau 'Dim fi', hynny yw, maen nhw'n gwadu'r cyhuddiad. Rhaid canfod partner sydd â'r ateb synhwyrol. Yna, dylid newid rôl o fewn y dosbarth gyda Set B. Wrth reswm, gellir gweithredu'r gweithgaredd hwn mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu faint o bobl sy yn y dosbarth.

Cam 6 – Sgwrs

Chwaraewch y sgwrs nifer o weithiau er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau. Anogwch nhw i beidio ag edrych ar y sgript. Ewch dros yr atebion a rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen dros y sgript. Ar y diwedd, tynnwch sylw at y brawddegau sy'n ymarfer y gwaith iaith newydd – 'Chaethoch chi mo'r llyfr Cricedwyr a Chalypso'; 'Welais/Weles i mo'r llyfr'; 'Welais i mohono fe/Weles i mono fo'; 'Anghofiodd e/o mo'r pen-blwydd priodas arbennig'; 'wylia i mo'r criced'. Defnyddiwch y frawddeg olaf i gael pawb ar eu traed yn personoli – gellid defnyddio enw rhaglen deledu – e.e. Wylia i mo Pobl y Cwm yr wythnos yma.

Cam 7 – Arholiad – Llenwi bylchau

Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Cam 8 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 6:

Dw i'n coch i. Gofynnwch i'r dosbarth beth sy'n gwneud iddyn nhw gochi (os yn briodol), e.e. Dw i'n coch i os bydd rhywun yn tynnu fy nghoes i.

neb eto Atgoffwch y dysgwyr o ddau ystyr 'eto'. Gellid gwneud ymarfer cyfieithu – no-one yet, no-one again, nothing yet, nothing again.

er enghraifft

Robin Radio Uned 7

Cam 9 – Gweithgaredd Cloi

Cysylltu geiriau – Y cyfan mae'n rhaid ei wneud yw dweud gair sy'n gysylltiedig â'r gair blaenorol. Gellir gwneud y gêm yn gystadleuol (pobl allan am fethu â meddwl am air o fewn amser penodol neu ailadrodd gair) neu beidio. Ni ddylai'r gêm bara mwy na 5 – 10 munud. Dyma enghraifft: afal → ffrwyth → coeden → dringo → parc

Cam 10 – Geirfa Uned 8

Uned 7, Atodiad 1

neges	derbynneb
ffurflen gais	swydd
erthygl	llyfr
casgliad	gliniadur
holiadur	presgripsiwn
pigiad	siswrn
llyfrau	cofnodion
biliau	ffurflenni

Uned 7, Atodiad 2

Set A	
bwyta'r bisgedi siocled	Dw i'n bwyta'n iach.
gorffen y llefrith/ y llaeth	Dw i'n figan.
neidio i'r afon	Mae gen i ofn ddŵr. Mae ofn dŵr arna i.
taflu'r botel blastig yn y bin	Dw i'n ailgylchu popeth.
ffonio am hanner nos	Sgen i ddim ffôn. Does dim ffôn gyda fi.
cymryd fy nhocyn tymor Abertawe	Dw i'n cefnogi Caerdydd.
copio fy ngwaith cartref	Dw i ddim wedi gwneud y gwaith eto.
ganu allan/ ma's o diwn	Dw i wedi colli fy llais.
Set B	
siarad Saesneg efo'r/ â 'r tiwtor	Dw i'n siarad Cymraeg bob amser.
gyrru trwy olau coch	Dw i'n yrrwr gofalus iawn.
cymryd pum punt o'r pot pres/ arian	Dw i byth yn defnyddio pres/ arian parod.
cymryd y car heb ofyn	Dw i ddim yn gyrru.
syrthio/ cwympo i gysgu yn ystod y dosbarth	Dw i byth yn cysgu yn ystod y dydd.
cysgu'n hwyr	Mae gen i gloc larwm newydd. Mae cloc larwm newydd gyda fi.
anghofio mynd i'r swyddfa bost	Mae gen i stampiau. Mae stampiau gyda fi.
deffro'r babi dihuno'r babi	Dw i'n ddistaw iawn. Dw i'n dawel iawn.

Uned 8

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Ceir tabl 'Enaid hoff cytûn' i sbarduno sgwrsio y tro hwn. Dylai pawb gwblhau'r tabl yn unigol, yn dilyn y cod a nodir yn y llyfr cwrs. Sicrhewch fod pawb yn hapus yn gofyn y cwestiwn 'Beth dych chi'n hoffi/licio fwya?' neu 'Be dach chi'n licio/hoffi fwya?' Rhowch yr holiadur ar waith, ond gan annog sgwrsio yn ogystal â holi'r cwestiynau yn unig. Pan fydd digon o sgwrsio wedi bod, gallwch chi ddefnyddio'r data yn y grid neu ofyn i bawb godi llaw os bydd y data'n anghyflawn i ofyn cwestiynau, e.e. Faint ohonon ni sy'n hoffi cefn gwlad a dinasoedd? Faint ohonon ni sy'n hoffi cefn gwlad yn fwy na dinasoedd? Bydd hyn yn helpu gydag ymarfer yr arddodiad 'o'. Dylid hefyd ofyn i bawb edrych ar eu grid a dweud pwy yw eu henaid hoff cytûn yn y dosbarth.

Uned 7 – Canllaw'r Tiwtor

Cam 2 – Cyflwyno arddodiaid cyfansawdd

Dylid dweud fel rhagarweiniad eich bod wedi bod yn edrych ar arddodiaid dros yr unedau diwethaf, gan ofyn i'r dysgwyr enwi rhai ohonynt, a phryd maen nhw'n cael eu defnyddio. Eglurwch yn syml iawn fod rhai arddodiaid yn dod mewn dwy ran ac felly maen nhw'n cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol.

Ar ôl – Driliwch y gwahanol bersonau fesul un. Ar ôl drilio 'ar dy ôl di', gellid mynd at ddrws yr ystafell ac yn llythrennol gofyn i bawb agor y drws i'w gilydd gan ddweud 'ar dy ôl di'. Ar ôl drilio 'ar ei ôl e/o' ac 'ar ei hôl hi', dylid gofyn i bawb sefyll. Gofynnwch i bawb eistedd fesul un, gan ddweud 'Eisteddais i ar ôl X. Eisteddais i ar ei ôl e/ar ei ôl o/ar ei hôl hi.' Rhannwch y dosbarth yn barau i weithio trwy'r lluniau. Mae'r ddeialog enghreifftiol yn cyd-fynd â llun 1.

Ar bwys/Wrth ymyl – Fel y gwnaed wrth gyflwyno 'ar ôl', driliwch y gwahanol bersonau fesul un. Yna, ceir dril syml i ymarfer rhythm y brawddegau. Ewch o gwmpas y dosbarth yn gofyn i bawb greu dwy frawddeg: Dw i'n eistedd ar bwys X. Dw i'n eistedd ar ei bwys e/ar ei phwys hi./Dw i'n eistedd wrth ymyl X. Dw i'n eistedd wrth ei ymyl o/wrth ei hymyl hi. Yn olaf, ceir bylchau syml i'w llenwi mewn deialogau byrion:

Fersiwn y de

- A:** Dych chi'n byw ar bwys Huw?
B: Ydw, dw i'n byw ar **ei bwys e**. Dw i'n byw yn rhif 10 ac mae e'n byw yn rhif 9.
- A:** Dych chi'n nabod Mabli John?
B: Ydw, dw i'n eistedd **ar ei phwys** hi yn y gwaith. Mae hi'n ferch hyfryd. Sut dych chi'n ei nabod hi?
A: Dw i'n byw ar bwys ei rhieni hi.

- A:** Dwedodd John a Mari Griffiths dy fod ti'n byw ar **eu pwys nhw**.
B: Ydw, dw i'n byw drws nesa iddyn nhw. Maen nhw'n gymdogion da iawn.
A: Rwy't ti'n lwcus. Mae fy nghymdogion i'n sw'nlyd iawn.

Fersiwn y gogledd

- A:** Dach chi'n byw wrth ymyl Huw?
B: Ydw, dw i'n byw **wrth ei ymyl o**. Dw i'n byw yn rhif 10 ac mae o'n byw yn rhif 9.
A: Dach chi'n nabod Mabli John?
B: Ydw, dw i'n eistedd **wrth ei hymyl hi** yn y gwaith. Mae hi'n hogan hyfryd. Sut dach chi'n ei nabod hi?
A: Dw i'n byw wrth ymyl ei rhieni hi.

Uned 7 – Canllaw'r Tiwtor

- A:** Mi ddeudodd John a Mari Griffiths fod ti'n byw **wrth eu hymyl nhw**.
B: Ydw, dw i'n byw drws nesa iddyn nhw. Maen nhw'n gymdogion da iawn.
A: Rwy't ti'n lwcus. Mae fy nghymdogion i'n sw'nlyd iawn.

Gellid gofyn i barau ddysgu'r deialogau.

Cam 3 – Ymarfer ffwythiant – cyfarwyddiadau

Geirfa – Yn gyntaf, rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau'r eirfa ar gyfer llefydd byddan nhw'n eu gweld ar y map. Mae'r un llythyren ar goll bob tro, e.e. y ff_rdd _sg_i = y ffordd osgoi.

Y map – Gofynnwch i barau ddarllen y cyfarwyddiadau o'r banc a gweithio allan ble maen nhw. Yr ateb: yr ysgol gynradd

Sgwrs – Bydd y dysgwyr yn clywed iaith cyfarwyddo o safbwynt rhoi cyfarwyddiadau mewn tref yn y sgwrs hon. Gwrandawriad 1 – gwrandawriad heb dasg ond gofynnwch i'r dysgwyr nodi un gair glywon nhw ac ysgrifennwch nhw ar y bwrdd gwyn i ddechrau cael darlun o'r ddeialog. Gwrandawriad 2 – Codi llaw wrth glywed gorchymyn (ewch x2, cymerwch). Efallai bydd angen atgoffai'r dysgwyr beth yw gorchymyn cyn cychwyn. Gwrandawriad 3 – Gwrandawriad heb dasg eto ond dweud y byddwch yn gofyn iddyn nhw gyfieithu rhai ymadroddion ar ôl gwrandawrio. Rhannu'n barau i gyfieithu – *You are in front of the hospital now; Go straight ahead; on your left; Take the third turning.* Gwrandawriad 4 – gwiro'r atebion. Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog.

Rhoi cyfarwyddiadau – Gall rhoi cyfarwyddiadau i gyfeirio rhywun i rywle fod yn dasg lafurus ond os ydych yn meddwl y gall y dosbarth ymdopi, rhwng gynnig ar y ddwy dasg ganlynol: Tasg 1 – parau i gyfarwyddo ei gilydd i rywle sy'n agos at y ganolfan ddysgu; Tasg 2 – parau i gyfarwyddo ei gilydd o'r ganolfan ddysgu i'w cartrefi nhw. Dylech chi fodelu hyn yn gyntaf gan gadw pethau mor syml â phosib.

Gwrando – Y cam nesaf yw'r darn gwrando lle mae'r dysgwyr yn llenwi'r bylchau wrth wrando. Dyma'r atebion:

De Cymru

A: Esgusodwch fi, dw i'n ceisio dod o hyd i'r ysbyty. Mae apwyntiad gyda fi yn yr adran gleifion allanol am dri o'r gloch.

B: Tri o'r gloch! A dych chi'n cerdded. Mae tipyn o bellter rhwng fan hyn a'r ysbyty. A, dyna ambiwlans! **Ewch** ar ei ôl e! O... mae e wedi mynd...

A: Dw i'n anghofio cyfarwyddiadau. Dych chi'n gallu meddwl am ffordd hawdd?

B: Wel, **peidiwch** â mynd drwy ganol y dre, dych chi'n siŵr o fynd ar goll. Reit, dych chi'n gweld y gylchfan ar ben y stryd?

A:Ydw.

B: **Ewch** o gwmpas y gylchfan, **cymerwch** y trydydd tro, a **throwch** i'r chwith wrth y dafarn. Bydd y banc ar eich ochr chwith chi. Wedyn, **ewch** drwy'r goleuadau traffig at y mosg.

A: At y mosg, o'r gorau.

B: **Trowch** i'r dde, **ewch** yn syth rhwng yr ysgol gynradd a siop y cigydd, a byddwch chi'n gallu gweld yr ysbyty.

A: Diolch yn fawr

B: Dych chi'n gyrru?

A: Nac ydw, dw i newydd gael trê'n yma! Dw i ddim yn cerdded yn dda. Dw i'n cael llawdriniaeth ar fy nhroed yfory achos mae bysedd fy nhroed chwith wedi torri.

B: Gwell i chi gael tacsï felly!

A: Diolch, gwnaf i.

Gogledd Cymru:

A: Esgusodwch fi, dw i'n ceisio dod o hyd i'r ysbyty. Mae gen i apwyntiad yn yr adran gleifion allanol am dri o'r gloch.

B: Tri o'r gloch! A dach chi'n cerdded! Mae'n dipyn o bellter. A, dyna ambiwlans! **Ewch** ar ei ôl o! O... mae o wedi mynd...

A: Dw i'n anghofio cyfarwyddiadau. Dach chi'n medru meddwl am ffordd hawdd?

B: Wel, **peidiwch** â mynd drwy ganol y dre, dach chi'n siŵr o fynd ar goll. Reit, dach chi'n gweld y gylchfan ar ben y stryd?

A:Ydw.

B: **Ewch** o gwmpas y gylchfan, **cymerwch** y trydydd tro, a **throwch** i'r chwith wrth y dafarn. Mi fydd y banc ar eich ochr chwith chi. Wedyn, **ewch** drwy'r goleuadau traffig at y mosg.

A: At y mosg, o'r gorau.

B: **Trowch** i'r dde, **ewch** yn syth rhwng yr ysgol gynradd a siop y cigydd, ac mi fyddwch chi'n medru gweld yr ysbyty.

A: Diolch yn fawr

B: Dach chi'n gyrru?

A: Nac ydw, dw i newydd gael trê'n yma! Dw i ddim yn cerdded yn dda. Dw i'n cael llawdriniaeth ar fy nhroed yfory achos mae bysedd fy nhroed chwith wedi torri.

B: Well i chi gael tacsï felly!

A: Diolch, mi wna i.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau ac yna i ymarfer darllen.

Pelmanism – Mae'r ffwythiant 'cyfarwyddo' yn ehangach na chyfarwyddo ar fap. Felly, yn Atodiad 1, ceir cardiau ar gyfer pelmanism lle mae'n rhaid creu pâr synhwyrol. Mae'r ail gerdyn yn cynnwys gorchymyn bob tro. Dylid annog y parau i gofio'r gorchmynion ar ôl cwblhau creu parau.

Cam 4 – Cyflwyno 'newydd'

Ewch yn ôl at sgript y darn Gwrando a thynnwch sylw at y frawddeg 'Dw i newydd gael trê'n'. Mae hwn yn batrwm newydd. Driliwch y ddau floc a rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer cyfieithu. Gellid hefyd roi'r amserlen hon (neu un gyfredol) ar y bwrdd gwyn:

6.30pm	Rownd a Rownd
7.00pm	Heno
7.30pm	Newyddion
8.00pm	Pobol y Cwm
8.30pm	Priodas Pum Mil
9.00pm	Y Byd ar Bedwar
10.00pm	Hansh

Galwch amserau, e.e. Mae'n bum munud ar hugain i saith = Mae Rownd a Rownd newydd ddechrau.

Cam 5 – Siaradwch – Yr Ardal

Storom Eirfa – Does dim lle yn y llyfr cwrs ond rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am o leiaf deg o eiriau defnyddiol i ddisgrifio'r ardal.

Siarad – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y tri chwestiwn cyntaf. Anogwch gymaint o ymestyn â phosib.

Y Machlud – Chwaraewch y fideo o Gwilym Bowen Rhys yn canu 'Y Machlud'. Pwysleisiwch nad oes disgwyl iddyn nhw ddeall y geiriau i gyd. Gellid rhoi'r grid isod ar y bwrdd gwyn i'r dysgwyr ddyfalu ystyr y geiriau gwahanol cyn cychwyn:

cusanu	bliss
pendraw	to descend
croesawu	far end
alaw	a feast
tonnau mân	to be fed up
'laru	greasy
'thympian'	to kiss
seimllyd	melody
disgyn	drum music
gwynfyd	tiny waves
gwledd	to welcome

Wel, pan mae'n noson braf, a ma'r haf yn fy nghusanu,
 Wel, pendraw'r byd ar ben draw'r dydd sydd yn fy nghusanu,
 Felly rho i mi gân, rho i mi dân, rho i mi draeth a chwmni da,
 A rho i mi alaw a thonnau mân, wel rho i mi, ie rho i mi

Fachlud ar y môr, mae o mor fendigedig,
 Tydi o'n costio dim, gei di ddim byd tebyg.

Felly os wyt ti 'di laru ar y ddinas ac ei chwys,
 Ac ar thympian clybiau seimllyd a'r strydoedd swllyd syth,
 Wel dilyna'r haul sy'n disgyn, i'r gorllewin, dyna'r lle
 Lle mae gwynfyd yn dy ddisgwyl, yn dy ddisgwyl ma'na wledd.

Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd i drafod ble yng Nghymru mae'r gwahanol luniau o'r machlud ac i drafod a ydyn nhw wedi bod yn y gwahanol lefydd yma. Eto, mae angen annog ymestyn cymaint â phosib. Yn olaf, cânt ddweud os oes ganddynt hoff le i weld y machlud. Wrth ofyn am yr atebion i'r lluniau o'r machlud, gellid adolygu'r patrwm 'Dyn ni'n gwybod/meddwl taw X yw e./Dan ni'n gwybod/meddwl mai X ydy o.' Dyma'r atebion i'r lluniau.

1. Talacre, 2. Cricieth, 3. Rhosili, 4. Caergybi, 5. Aberystwyth 6. Pen y Fan, 7. Llyn Tegid, 8. y Mwmbwls, 9. Caerdydd.

Cam 6 - Arholiad - Llenwi'r bylchau

Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 7:

gwisg gwrach	Parau i feddwl am gymaint â phosib o gyfleoliadau ar gyfer gwisg, e.e. gwisg ffansi, gwisg ysgol, gwisg nyrs, gwisg nofio.
Mae'n ddoniol iawn.	Disodli doniol – ansoddeiriau ar gyfer rhaglen deledu/llyfr/ffilm.
Gwrthodais i/ Mi wrthodes i.	Gofynnwch am gyfieithiadau sydyn gan ychwanegu berfenw ar ôl gwrthodais i, e.e. gwrthodais i/mi wrthodes i fynd, gwrthodais/mi wrthodes i dalu, gwrthodais i/mi wrthodes i aros. Bydd hyn yn rhoi cyfle i danlinellu'r ffaith nad oes angen defnyddio'r arddodiad 'i' ar ôl gwrthod.

Robin Radio Uned 8

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi

Geiriau croes – Penderfynwch ar gyfres o eiriau croes i'w hymarfer (e.e. poeth/oer, hir/byr, haf/gaeaf). Rhwch un o'r geiriau hyn ar ddarn o bapur sgrap a dywedwch wrth y person am godi a chanfod partner a chanddo'r gair croes. Maent wedyn yn eistedd gyda'i gilydd i greu cymaint â phosib o gyfleoliadau sy'n gweithio ar gyfer y ddau air croes, e.e. cawod oer/poeth, gwallt hir/byr; haf/gaeaf gwlyb.

Cam 9 - Geirfa Uned 9

Uned 8, Atodiad 1

Dydy'r caws ddim yn flasus. Dyw'r cawl ddim yn flasus.	Ychwanegwch ychydig o halen.
Sut dw i'n cyrraedd canol y dre?	Daliwch fws rhif 122.
Mae'r bananas yn troi'n ddu.	Taflwch nhw yn y bin ailgylchu.
Lle mae'r adran gleifion allanol? Ble mae'r adran gleifion allanol?	Ewch i'r brif fynedfa ac mae hi ar y chwith.
Beth sy angen i wneud cawl?	Prynwch ddigon o datws a chennin.
Dw i isio coginio tarten afalau. Dw i eisiau coginio tarten afalau.	Defnyddiwch yr afalau o'r goeden yn yr ardd.
Mae'r caws gafr yma'n drewi.	Rhowch o/e yn yr oergell.
Mae'r grefi yma'n rhy hallt.	Yfa ddiod o ddŵr.
Dw i'n hoff o fwyd efo sbeisys poeth. Dw i'n hoff o fwyd gyda sbeisys poeth.	Dos ar wyliau i India. Cer ar wyliau i India.
Dw i isio paned. Dw i eisiau paned.	Berwa'r tegell 'ta! Berwa'r tegell 'te!

Dw i isio gwneud cerdyn pen-blwydd. Dw i eisiau gwneud cerdyn pen-blwydd.	Tynna lun yn gynta.
Dw i isio croesi'r ffordd. Dw i eisiau croesi'r ffordd.	Cydia yn fy llaw.
Mae'r gwely'n oer iawn.	Dos â photel dŵr poeth i'r gwely. Cer â photel dŵr twym i'r gwely.
Dw i isio bwyd. Dw i eisiau bwyd.	Golcha dy ddwylo cyn dod at y bwrdd.
Dw i isio gwyllo ffilm Dw i eisiau gwyllo ffilm.	Rho'r teledu ymlaen.

Uned 9

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Ceir ymarfer geirfa i baratoi ar gyfer y Sgwrsio Cychwynnol. Wrth i chi alw'r geiriau canlynol (enfys, tatws, clychau, bara, wŷn, plu eira, bach, eirlysiau, babi, carolau, cig moch, jôcs, Nadolig), rhaid i'r dysgwyr eu rhoi yn yr adran yn y grid maen nhw'n ei chysylltu gryfaf gyda'r gair dan sylw. Dylid dweud wrth y dysgwyr am beidio â meddwl gormod am hyn. Wrth fynd dros yr atebion, gellid codi sgwrs am ba synhwyrâu sy gryfaf gan yr unigolion, a allai yn ei dro arwain at sgwrs am y ffordd y maen nhw'n dysgu, ee. ydy pobl sy wedi rhoi nifer o eiriau o dan golofn 'gweld' yn hoffi gweld pethau yn y dosbarth?

Dylid wedyn rannu'r dosbarth yn grwpiau bach i drafod pob un o'r awgrymiadau a roddir dros roi gwên ar wyneb rywun. Anogwch gymaint o ymestyn â phosib a gofynnwch i bawb ychwanegu o leiaf un peth at y rhestr. Gellir trafod y pethau ychwanegol hyn fel dosbarth ar y diwedd.

Cam 2 – Adolygu Arddodiaid Cyfansawdd

Defnyddiwch sefyllfa go iawn y dosbarth i ymarfer 'ar ôl'. Gofynnwch i'r dosbarth sefyll mewn rhes yn y drefn y cyrhaeddon nhw'r dosbarth – y person cyntaf i gyrraedd yn sefyll yn y blaen. Cewch chi hefyd ymuno yn y rhes. Maen nhw'n creu brawddegau – 'Cyrhaeddais i ar ôl X. Cyrhaeddais i ar ei ôl e/ar ei hôl hi. Mi gyrhaeddais i ar ol X. Mi gyrhaeddais i ar ei ôl o/ar ei hôl hi.'

Cam 3 – Cyflwyno Gorffennol yr amodol

Adolygu – Ewch dros y brawddegau 'Dych/Dach chi'n cofio?'

Dylwn i olchi'r llestri ar ôl y dosbarth.

Dylet ti ymddiheuro.

Hoffwn i fynd ar fordaith ar fy ngwyliau nesa i.

Allet ti newid olwyn?

Ddylwn i ddim dweud celwydd.

Disodli a phersonoli.

Disodli.

Disodli a phersonoli.

Pawb i feddwl am gwestiwn a chrwydro'r dosbarth yn ei holi.

Disodli

Tynnwch sylw at y patrymau treiglo wrth fynd trwy'r brawddegau.

Y gorffennol – Ewch trwy'r brawddegau fesul un gan stopio i bersonoli ar ôl pob un o'r tair brawddeg gyntaf. Gellid cael pobl ar eu traed yn crwydro ar gyfer yr elfen hon. Ar ôl y bedwaredd frawddeg, rhannwch y dosbarth yn barau i chwarae'r gêm dis. Bydd

angen dau ddis – un i gynrychioli'r rhagenwau a'r llall i gynrychioli'r berfau. Bydd hyn yn esgor ar wahanol gyfuniadau o frawddegau, e.e. $2 + 5 =$ Cyn y dosbarth, dylet ti/mi ddylet ti fod wedi gwyllo S4C.

Y negyddol – Gan nad oes unrhyw egwyddorion newydd, cyflwynir y negyddol mewn cyfres o frawddegau am storiâu tylwyth teg, yn hytrach nag ar ffurf drill. Stori 1 – Darllen y stori fel dosbarth a gyda phartner. Stori 2 – Llenwi'r bylchau gyda phartner a'i darllen ar ôl mynd dros yr atebion. Stori 3 – Ad-drefnu'r brawddegau i greu Stori Jac a'r Goeden Ffa. Dyma'r ateb:

Ddylai fe/fo ddim bod wedi mynd i'r farchnad.

Ddylai fe/fo ddim bod wedi gwerthu'r fuwch.

Ddylai fe/fo ddim bod wedi prynu'r ffa.

Ddylai fe/fo ddim bod wedi dringo'r goeden ffa.

Ddylai fe/fo ddim bod wedi gwylltio'r cawr.

Ond gorffennodd/mi orffennodd y stori'n hapus yn y pen draw!

Yna, driliwch y bloc. Rhwch gerdyn i bawb (Atodiad 1), gan ddsbarthu'r un cerdyn i ddau berson bob tro. Mae'r dysgwyr yn dechrau trwy droi'r hyn sydd ar y cerdyn yn frawddeg negyddol, e.e. cysgu'n hwyr > Ddylwn i ddim bod wedi cysgu'n hwyr. Maent yn mynd o gwmpas yn ailadrodd y frawddeg nes cwrdd â pherson sydd â'r un cerdyn. Maen nhw wedyn yn mynd o gwmpas fel pâr yn dweud 'Ddylen ni ddim bod wedi...' Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl ar y diwedd, gan fanteisio ar y cyfle i droi'r brawddegau i'r trydydd person wrth i'r parau adrodd yn ôl.

Ymarfer – Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer Pelmanism (Atodiad 2). Rhaid creu parau synhwyrol. Ar y diwedd, bydd y parau'n ceisio cofio'r brawddegau yn yr amodol.

Hoffi a Gallu/Medru – Driliwch y bloc olaf i ddangos yr un egwyddor ar waith gyda berfau cyffredin 'hoffi/licio/lico' a 'gallu/medru' a rhannwch y dosbarth yn barau i weithio trwy'r ymarfer cyntaf. Ar ôl llunio atebion ar bapur, dylai'r parau gael cyfle i ddrilio ei gilydd. Ewch dros yr atebion fel dosbarth cyfan. Os oes gennych ddsbarth da, gellid gwneud gwaith ymestynnol trwy ymarfer personau eraill, ond o fewn yr un brawddegau. Ailadroddwch y camau hyn gyda'r ail ymarfer. Gyda'r trydydd ymarfer, y tro cyntaf rhaid gwneud yr ymarfer mecanyddol yn unig ond yr ail dro, dylid ychwanegu ond... e.e. Hoffwn i fod wedi aros yn y gwely tan naw o'r gloch hefyd ond codais i am chwech o'r gloch gyda'r plant/Liciwn i fod wedi aros yn y gwely tan naw o'r gloch hefyd ond mi godes i am chwech o'r gloch efo'r plant.

Cam 4 – Ymarfer ffwythiant – Perswadio

Deialogau – Ceir tair deialog i gyflwyno iaith perswadio. Ewch trwyddyn nhw fesul un gan ofyn i barau eu darllen a) yn nerfus a b) yn grac/flin. Wedyn, ceir yr holl linellau'n unigol yn Atodiad 3 isod. Rhaid i'r parau ail-greu'r deialogau heb edrych yn ôl yn eu llyfrau.

Mae'r camau nesaf i gyd yn arwain at sefyllfa lle bydd rhywun yn perswadio rhywun i brynu tŷ.

Storom Eirfa – Rhowch gasgliad o'r geiriau ar y bwrdd gwyn.

Gêm Stamina – Rhannwch y dosbarth yn barau i greu cymaint o frawddegau ffeithiol â phosib i ddisgrifio'r ddau lun. Gofynnwch i barau adrodd yn ôl – mae'n bosib y bydd angen rhoi sylw i gywirdeb.

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri ar gyfer y gwaith siarad.

Gwylio – Dangoswch y fideo o leiaf ddwywaith er mwyn rhoi cyfle i bawb nodi o leiaf 5 peth am y tŷ. Dylent gymharu rhestri gyda'u partner cyn adrodd yn ôl. Dyma rai atebion posibl.

- i) Tŷ pâr yw e./Tŷ pâr ydy o.
- ii) Mae'r cyntedd yn anniben./Mae'r cyntedd yn flêr.
- iii) Mae ffenestri lliw bob ochr i'r drws ffrynt./Mae 'na ffenestri lliw bob ochr i'r drws ffrynt.
- iv) Mae pedair ystafell wely./Mae 'na bedair ystafell wely.
- v) Dyw'r ystafelloedd gwely ddim yn ddiddorol./Dydy'r ystafelloedd gwely ddim yn ddiddorol.
- vi) Mae'r ystafell ymolchi'n fach (gyda/efo bath a chawod).
- vii) Mae'r lolfa'n iawn.
- viii) Mae ystafell wydr y tu ôl i'r lolfa gyda drysau dwbl yn agor ma's i'r ardd./Mae 'na ystafell wydr y tu ôl i'r lolfa efo drysau dwbl yn agor allan i'r ardd.
- ix) Mae'r ardd gefn fel jyngl.
- x) Mae'r coed a'r planhigion yn gwneud yr ardd yn breifat.
- xi) Mae'r gegyn yn fach iawn.
- xii) Dyw'r tŷ ddim yn foethus./Dydy'r tŷ ddim yn foethus.
- xiii) Mae'r tŷ'n hwylus i'r orsaf.

Chwarae rôl – Rhaid i barau berswadio ei gilydd i brynu tŷ trwy ateb y cwestiynau yn y llyfr cwrs.

Cam 5 – Sgwrs

Ar ôl Gwrandawriad 1, dylid gofyn i bob dysgwr nodi un peth a ddeallon nhw o'r Sgwrs. Nodwch y rhain yn gryno ar y bwrdd gwyn a cheisiwch bwyntio atyn nhw yn ystod Gwrandawriad 2. Gwrandawriad 3 – Gwrandawriad am esgus mae'r person yn ei roi dros beidio â rhoi gwaed (e.e. rhaid trefnu apwyntiad, dim amser, ddim yn hoffi pigiadau).

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi

Creu brawddegau – Rhowch gyfres o eiriau ar y bwrdd gwyn neu ar sleid PowerPoint a gofynnwch i barau greu brawddeg. Unwaith bydd y pâr yn gorffen, gellir gofyn iddyn nhw ddisodli rhywbeth yn y frawddeg, sef y gair neu eiriau a danlinellir yn yr ateb isod. Mae'r brawddegau gogleddol mewn coch.

meddwl o absennol i'n llawer yn dw heno bobl bydd
(Dw i'n meddwl bydd llawr o bobl yn absennol heno.)

i ddechrau fy wedi fy am musnes dw hun erioed meddwl
(Dw i erioed wedi meddwl am ddechrau fy musnes fy hun.)

braf hi'n i'r ychydig bydd i i wneud chwynnu os af allan ardd o
braf hi'n i'r ychydig bydd i i wneud chwynnu os a allan ardd o mi
(Os bydd hi'n braf, af i allan i'r ardd i wneud ychydig o chwynnu.)
(**Os bydd hi'n braf, mi a i allan i'r ardd i wneud ychydig o chwynnu.**)

chadwais anffodus dderbynneb hi ces i yn i ond mohoni
mi chadwes anffodus dderbynneb hi ges i yn i ond moni
(Mi ges i dderbynneb ond chadwes i moni, yn anffodus.)
(**Ces i dderbynneb ond chadwais i mohoni hi yn anffodus.**)

fod gyda'r i dylwn mhresgripsiwn galw godi i fy wedi fferyllydd
fod efo'r i ddylwn mi mhresgripsiwn galw godi i fy wedi fferyllydd
(Mi ddylwn i fod wedi galw efo'r fferyllydd i godi fy mhresgripsiwn.)
(**Dylwn i fod wedi galw gyda'r fferyllydd i godi fy mhresgripsiwn.**)

Ceir brawddeg a chwestiwn yn yr un olaf:

i fe gadael edrych cartref gwaith ddesg drosto wnei y ar fi y dw di i wedi
i fo gadael edrych cartref gwaith desg drosto wnei y ar mi y dw di i wedi
(Dw i wedi gadael y gwaith cartref ar y ddesg. Wnei di edrych drosto fo i mi?)
(**Dw i wedi gadael y gwaith cartref ar y ddesg. Wnei di edrych drosto fe i fi?**)

Cam 9 – Geirfa Uned 10

Atgoffwch y dysgwyr i edrych ar y Gêm o Gardiau yn Uned 10 cyn y wers nesaf.

Uned 9, Atodiad 1

cysgu'n hwyr	rhentu'r tŷ
deud celwydd dweud celwydd	rhoi'r gorau i ddysgu
ymddiried ynnddi hi	ysgwyd y botel
achosi problemau	bod yn annifyr

Uned 9, Atodiad 2

<p>Mi roiais i'r papur yn y bin. Rhoiais i'r papur yn y bin.</p>	<p>Mi ddylet ti fod wedi ei ailgylchu o. Dylet ti fod wedi ei ailgylchu e.</p>
<p>Dw i wedi cael tocyn parcio.</p>	<p>Ddylet ti ddim bod wedi parcio ar y llinellau melyn.</p>
<p>Dw i wedi gwneud llawer o gamgymeriadau.</p>	<p>Mi ddylet ti fod wedi darllen dros y gwaith yn ofalus. Dylet ti fod wedi darllen dros y gwaith yn ofalus.</p>
<p>Dan ni wrth ein boddau efo eira. 'Dyn ni'n dwlu ar eira.</p>	<p>Mi ddylech chi fynd ar wyliau sgïo. Dylech chi fynd ar wyliau sgïo.</p>

<p>Mae o wedi methu'r prawf gyrru. Mae e wedi methu'r prawf gyrru.</p>	<p>Mi ddylai fo fod wedi stopio wrth y golau coch. Dylai fe fod wedi stopio wrth y golau coch.</p>
<p>Mae o'n canu fel angel. Mae e'n canu fel angel.</p>	<p>Mi ddylai o ymuno efo côr. Dylai fe ymuno â chôr.</p>
<p>Mae Cymru wedi ennill cwpan y byd.</p>	<p>Mi ddylen ni ddathlu. Dylen ni ddathlu.</p>
<p>Maen nhw wedi gorffen y bisgedi.</p>	<p>Mi ddylen nhw fod wedi cadw rhai i ni. Dylen nhw fod wedi cadw rhai i ni.</p>

Uned 9, Atodiad 3 (De Cymru)

Dw i ddim eisiau mynd i'r parti.

Dylet ti! Chwarae teg i Carwyn am ofyn i ni.

Ond fydda i ddim yn nabod neb.

Byddi di'n fy nabod i! Dere, bydd e'n hwyl.

O'r gorau, 'te.

Dw i ddim eisiau mynd i'r ddrama.

Dylen ni! Byddwn ni'n dysgu llawer.

Ond fydda i ddim yn deall y stori.

Wrth gwrs byddi di! Dere, pryna i'r tocynnau.

O'r gorau, 'te.

Dw i ddim eisiau mynd i'r cyfarfod.

Rhaid i ti! Ti yw'r siaradwr heno!

Ond dw i'n nerfus iawn.

Byddi di'n grêt!

Ond dw i ddim wedi siarad Cymraeg o flaen pobl o'r blaen.

Wyt i eisiau ymarfer gyda fi nawr...?

Ydw, plîs!

Uned 9, Atodiad 3 (Gogledd Cymru)

Dw i ddim isio mynd i'r parti.

Mi ddylet ti! Chwarae teg i Carwyn am ofyn i ni.

Ond fydda i ddim yn nabod neb.

Mi fyddi di'n fy nabod i! Tyrd, mi fydd o'n hwyl.

O'r gorau, 'ta.

Dw i ddim isio mynd i'r ddrama.

Mi ddylen ni ! Mi fyddwn ni'n dysgu llawer.

Ond fydda i ddim yn dallt y stori.

Wrth gwrs byddi di! Tyrd, mi bryna i'r tocynnau.

O'r gorau, 'ta.

Dw i ddim isio mynd i'r cyfarfod.

Rhaid i ti! Ti ydy'r siaradwr heno!

Ond dw i'n nerfus iawn.

Mi fyddi di'n grêt!

Ond dw i ddim wedi siarad Cymraeg o flaen pobol o'r blaen.

Wyt i isio ymarfer efo fi rwan...?

Oes, plis!

Uned 10

Cam 1 – Sgwrsio Cychwynnol

Gan mai uned adolygu yw hon, ceir gêm o gardiau. Fel arfer, chwaraewch y gêm ddwywaith yn ystod yr uned os yn bosib – y tro cyntaf gyda'r dysgwyr yn holi ei gilydd a'r ail dro gydag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Cam 2 – Ymarfer cynffoneiriau

Driliwch y cynffoneiriau a'r ymatebion yn drylwyr. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i nodi'r cynffoneiriau cywir yn y cwestiynau yn y llyfr. Dylid eu hannog i wneud hyn ar lafar, ar ôl gwneud cofnod ysgrifenedig. Wedyn, rhowch un o'r cardiau yn Atodiad 1 i bawb. Cam 1 – crwydro gyda brawddeg yr amser presennol – Mae e'n llun da, on'd yw e?/Mae o'n llun da, tydi? Cam 2 – brawddeg amherffaith. Cam 3 – troi'r enw i'r lluosog ar gyfer brawddeg bresennol – Maen nhw'n lluniau da, on'd ydyn nhw?/tydyn nhw? Cam 4 – brawddeg amherffaith gydag enw lluosog. Ar ddechrau pob un o'r camau hyn, dylai'r dysgwyr gadw'r un cerdyn am ychydig ac yna ei gyfnewid bob tro ar ôl i chi roi'r arwydd iddynt wneud hynny. Mae'r lliw ar y cerdyn yn dynodi cenedl yr enw.

Cam 3 – Sgwrs

Mae'r Sgwrs yn cynnwys nifer o'r ffurfiau sydd wedi codi yn Unedau 6-9. Chwaraewch y Sgwrs ddwywaith gan ofyn i bawb gyfrannu rhywbeth maen nhw wedi'i ddeall. Nodwch y pethau hyn ar y bwrdd gwyn er mwyn dechrau creu darlun o'r ddeialog. Cyn darllen dros y Sgwrs, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y tri ymarfer ieithyddol. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y ddeialog yn unig y tro cyntaf. Yr ail dro, dylid newid ffurfiau 'chi' yn 'ti'. Mae'r ffurfiau i gyd wedi'u hamlygu. Ewch dros yr atebion.

Cam 4 – Gwaith Arholiad

Llenwi bylchau – Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Gwrando – Gwnewch yr ymarfer gwrando fel y bydd e yn yr arholiad. Darllen y cwestiynau – gwrando ar y darn ar ei hyd – gwrando mewn tair rhan – gwrando ar y darn ar ei hyd eto. Mae'r cwestiwn ieithyddol yn ymarfer pryd i ddefnyddio noson (sef ar ôl rhif a chyn ansoddair – fel diwrnod).

Cam 5 – Ymarfer Siarad – Diddordebau

Y cam cyntaf yw dangos y fideo. Mae wyth o bobl wahanol yn trafod eu diddordebau. Dangoswch y fideo y tro cyntaf heb unrhyw dasg. Yna, gofynnwch i bawb ganolbwyntio ar dri o'r siaradwyr a nodi eu diddordebau nhw neu rhwch un person i bob un yn y dosbarth. Dyma'r enwau: Siân M, Catrin, Nesta, Bethan, Siân R, Ieuan, Christine, Sioned.

Nesaf, rhannwch y dosbarth yn barau i nodi'r gweithgareddau yn y lluniau. Dylent geisio gwneud hyn heb edrych ar y dewisiadau yn y blwch. Ond cânt edrych yn y blwch i wirio ar y diwedd. Ar gyfer pob gweithgaredd, dylent ddweud naill ai Faswn i byth yn gwneud hynny neu Dw i/Baswn i wrth fy modd yn gwneud hynny.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y cwestiynau.

Cam 6 – Chwedl – Y Ferch o Gefn Ydfa

Ceir sgript bylchog yn y llyfr cwrs i'r dysgwyr wrando ar y chwedl a llenwi'r bylchau. Os teimlwch fod y dasg yn rhy heriol fel hyn, gellid rhoi'r geiriau ar y bwrdd gwyn neu ar sleid. Neu fel tasg wahaniaethol, gellid teipio'r geiriau ar ddarn o bapur a'u dosbarthu i'r rhai hynny hoffai gael cymorth – dylent ddewis drostynt eu hunain. Dyma'r geiriau (allan o drefn a heb eu treiglo na'u rhedeg):

cyfoethog	enwog	barn	anfon	cariadus	symud
hardd	cyfathrebu	neges	trist	trwsio	canol
cyfoeth	calon	cysylltu	trefnu	poblogaidd	gwaed
mynwent	torri	cwympo	cyffredin	afiechyd	rhwystro
cwympo	seler	priodi	coeden		

Ar ôl cwblhau'r cam hwn, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y cwestiwn geirfa. Gellir cael mwy o adnoddau am y chwedl trwy ddilyn y ddolen hon -

<http://ybont.org/chwedlauarlafar/>.

Cam 7 – Robin Radio

Ymadroddion defnyddiol Uned 9:

gyda phob parch

Gofynnwch i barau feddwl am un peth y gallen nhw ei ddweud yn dilyn y geiriau 'gyda phob parch', e.e. Gyda phob parch, ro'n i o'ch blaen chi yn y ciw.

Dw i'n dioddef o ddiffyg cwsg.

Disodli 'diffyg cwsg' a hefyd ymarfer cyfieithu cyflym: lack of time, lack of money, lack of work ac ati.

hwiangerdd

Dewiswch hwiangerdd syml i'w chyflwyno.

Robin Radio Uned 10.

Cam 8 – Gweithgaredd Cloi - Adolygu Geirfa – ‘Blockbusters’

Ceir grid yn y llyfr cwrs ond ceir hefyd gopïau A3 yn y blwch adnoddau generig i diwtoriaid. Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner. Y nod yw ateb y cwestiynau'n gywir er mwyn creu llinell mewn unrhyw gyfeiriad. Rhaid i'r timau geisio blocio ei gilydd. Maen nhw'n ateb cwestiynau bob yn ail. Adolygir geirfa'r unedau blaenorol.

Dyma'r cwestiynau a'r atebion:

A	Pan dych chi'n colli dosbarth dych chi'n cael eich marcio'n absennol . Pan dach chi'n colli dosbarth dach chi'n cael eich marico'n absennol .
B	Breuddwyd fy merch yw gyrru trê'n o Gaergybi i Gaerdydd. Breuddwyd fy merch ydy gyrru trê'n o Gaergybi i Gaerdydd.
C	Caeredin yw prifddinas yr Alban. Caeredin ydy prifddinas yr Alban.
Ch	Mae chwareli mawr ym Mlaenau Ffestiniog ac ym Methesda. Mae 'na chwareli mawr ym Mlaenau Ffestiniog ac ym Methesda.
D	Dw i'n dioddef o ben tost ar ôl bod yn y cyngerdd roc trwm neithiwr. Dw i'n dioddef o gur pen ar ôl bod yn y cyngerdd roc trwm neithiwr.
Dd	Mae pawb yn y dosbarth yma'n ddwyiethog , yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Mae pawb yn y dosbarth yma'n ddwyiethog , yn medru siarad Cymraeg a Saesneg.
E	Dych chi wedi bod yn eglwys gadeiriol Llandaf yng Nghaerdydd? Dach chi wedi bod yn eglwys gadeiriol Llandaf yng Nghaerdydd?
F	Dewch yma ar frys . Mae'r cacennau bron â mynd!
Ff	Mae'r fferyllydd yn gweithio bob dydd Sadwrn, rhag ofn bod pobl yn dost. Mae'r fferyllydd yn gweithio bob dydd Sadwrn, rhag ofn bod pobl yn sâl.
G	Rhaid i fi gael gorffwys dros y penwythnos, dw i wedi blino'n lân! Rhaid i mi gael gorffwys dros y penwythnos, dw i wedi blino'n lân!
Ng	O na! Mae fy ngliniadur wedi torri, ac mae llawer o waith pwysig arno fe! O na! Mae fy ngliniadur wedi torri, ac mae 'na llawer o waith pwysig arno fo!
H	Hyd yn hyn, mae popeth yn mynd yn dda yn y cyfarfod.

I	Ro'n i'n mwynhau mynd i'r clwb ieuenctid pan o'n i'n ifanc!
L	Ces i lawdriniaeth ar fy nhroed i yn yr ysbyty yr wythnos diwetha. Mi ges i lawdriniaeth ar fy nhroed i yn yr ysbyty wythnos diwetha.
LI	Mae'r côr wedi llwyddo i gyrraedd llwyfan yr Eisteddfod!
M	Mordaith o amgylch y byd fasai'r gwyliau perffaith i fi. Mordaith o amgylch y byd fasai'r gwyliau perffaith i mi.
N	Rhaid i fi ysgrifennu nodyn at athro fy mhlant i – yn Gymraeg! Rhaid i mi sgwennu nodyn at athro fy mhlant i – yn Gymraeg!
O	Mae lluniau bendigedig yn oriel yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae 'na luniau bendigedig yn oriel yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.
P	Mae'n syniad da perswadio pawb yn y dosbarth i fynd i weld y ddrama.
Ph	Mae fy mam-gu yn hoff iawn o arddio – ei phleser mwya hi yw tyfu llysiau. Mae fy nain yn hoff iawn o arddio – ei phleser mwya hi ydy tyfu llysiau.
R	Ces i rybudd gan ffrind bod camera cyflymder newydd ar y ffordd ger y swyddfa. Mi ges i rybudd gan ffrind bod 'na gamera cyflymder newydd ar y ffordd ger y swyddfa.
Rh	Dw i ddim yn berson rhamantus iawn, dw i byth yn prynu blodau i fy mhartner i!
S	Mae'r gwasanaeth o safon uchel yn y gwesty yma, ond mae e'n ddrud! Mae'r gwasanaeth o safon uchel yn y gwesty yma, ond mae o'n ddrud!
T	Person talentog iawn sy wedi ennill y gystadleuaeth.
Th	Bydd y gwasanaeth bws yn ddefnyddiol i bobl leol a thwristaid dros yr haf. Mi fydd y gwasanaeth bws yn ddefnyddiol i bobl leol a thwristaid dros yr haf.
U	Ble mae fy sbectol? Yn union ble gadawest ti hi! Lle mae fy sbectol? Yn union lle gadawest ti hi!
W	Gwisgodd Ceri siwmpwr wlân i fynd ma's i wneud dyn eira gyda'r plant. Mi wisgodd Ceri siwmpwr wlân i fynd allan i wneud dyn eira efo'r plant.
Y	Peidiwch ag ymddiheuro , dw i'n hoffi clywed roc trwm am saith o'r gloch y bore!

Uned 10, Atodiad 1

llun	ffilm
gwera	amgueddfa
ffrind	drama
hogyn bachgen	hogan merch
gwesty	pwll nofio
dyn	erthygl
car	côr
cwsmer	crempog

